



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 22 Ebrill 2008  
Tuesday, 22 April 2008**

**Cynnwys  
Contents**

- 3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
- 31 Cwestiwn Brys: Colli Swyddi yn Nhrostre  
Urgent Question: Job Losses in Trostre
- 39 Pwynt o Drefn  
Point of Order
- 40 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes  
Business Statement and Announcement
- 44 Pwynt o Drefn  
Point of Order
- 46 Y Strategaeth Pysgodfeydd  
The Fisheries Strategy
- 63 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal  
Delayed Transfers of Care

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 2 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Galwaf y Cynulliad i drefn.

**The Presiding Officer:** I call the Assembly to order.

## **Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

### **The New Rural Development Plan**

### **Y Cynllun Datblygu Gwledig Newydd**

**Q1 Angela Burns:** Will the First Minister make a statement on the implementation of the new rural development plan for Wales? OAQ(3)0914(FM)

**C1 Angela Burns:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithredu cynllun datblygu gwledig newydd Cymru? OAQ(3)0914(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** We gained approval in February, which was hugely important, as it secured £195 million-worth of European funding for the rural development plan for Wales. The plan's implementation can now proceed, to support the socioeconomic, environmental and cultural cohesion of rural Wales.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Rhoddwyd cymeradwyaeth inni ym mis Chwefror, ac yr oedd hynny'n bwysig dros ben, am iddo sicrhau gwerth £195 miliwn o gyllid Ewropeaidd i gynllun datblygu gwledig Cymru. Gellir mynd ati yn awr i weithredu'r cynllun, i gefnogi cydlynaiad economaidd-gymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wledig.

**Angela Burns:** The considerable delays in agreeing the new rural development plan have resulted in a significant gap between the previous axis 3 funding ending and the new money being made available, and a number of my constituents, including the flying boat interpretation centre at Pembroke Dock, are facing several months of being unable to pay their employees, risking the loss of valuable staff and programmes. Do you not agree that that is unacceptable? Your officials have told me that another 300 projects are in a similar position. What support are you considering for these businesses and organisations that are being undermined because of your Government's delays in negotiating the new rural development plan?

**Angela Burns:** Mae'r oedi mawr o ran cytuno ar y cynllun datblygu gwledig newydd wedi arwain at fwllch sylweddol rhwng yr adeg y daeth y cyllid echel 3 blaenorol i ben a darparu'r arian newydd, ac mae llawer o'm hetholwyr, gan gynnwys canolfan dehongli'r cwch hedfan yn Noc Penfro, yn wynebu amryw o fisoedd o fethu â thalu i'w gweithwyr, ac o'r herwydd mae perygl iddynt gollu staff a rhaglenni gwerthfawr. Oni chytunwch fod hynny'n annerbyniol? Mae eich swyddogion wedi dweud wrthyf fod 300 o brosiectau eraill mewn sefyllfa debyg. Pa gymorth yr ydych yn ei ystyried ar gyfer y busnesau a'r mudiadau hyn sy'n cael eu tanseilio am fod eich Llywodraeth wedi oedi wrth gytuno ar y cynllun datblygu gwledig newydd?

**The First Minister:** I do not think that we have done badly, all told, in securing agreement in February to the RDP. There are always negotiations when you are dealing with the European Commission, and so you must ensure that all your ducks are in a row, which can be a massive exercise. You are trying to say that the Assembly Government

**Y Prif Weinidog:** Ni chredaf ein bod wedi gwneud yn wael, ar y cyfan, wrth sicrhau cytundeb â'r cynllun datblygu gwledig ym mis Chwefror. Ceir trafodaethau bob tro y byddwch yn delio â'r Comisiwn Ewropeaidd, ac felly rhaid ichi sicrhau eich bod yn drefnus, a gall hynny fod yn dasg enfawr. Yr ydych yn ceisio dweud y dylai Llywodraeth y

should pick up the tab for any individual projects that were hoping for continuity of employment into this financial year from day one, on 1 April. It is up to applicants to make their own decisions. The Pembroke Dock flying boat interpretation centre project is one such case; the one person located there on secondment was privately funded until 31 March. You should refer the project to Pembrokeshire County Council, to see whether it would like to provide funding until it becomes available through the rural development plan, on the assumption that that is approved.

**Joyce Watson:** Despite low unemployment levels and high levels of economic activity, wages are stubbornly low throughout much of mid and west Wales, where a high proportion—a third—of the population is self-employed. The implementation of axes 3 and 4 over the next few years will, therefore, be integral to developing microenterprises, helping local rural economies to diversify and raising incomes. How are you working with the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport to ensure that local strategies for implementing axes 3 and 4 fit into the broader strategies for developing the Welsh economy?

**The First Minister:** That is a good question. Although there has been a massive drop in unemployment in Pembrokeshire over the past four or five years, with the liquefied natural gas project providing an enormous shot in the arm for the local economy, everybody accepts that that is not enough. We need a much more profound change in the Pembrokeshire economy and its economic prospects. Part of that involves ensuring that the long tradition of seasonal, casual and part-time work, and quite low-paid work, does not form as big a part of Pembrokeshire's future as it has of its past. To do that, you need a much stronger base of microenterprises and a way of diversifying the economy away from overdependence on big construction projects or traditional farming and tourism enterprises. Having said that, I understand that the biggest tourism project for a very long time in Pembrokeshire—Bluestone—will open in June, providing well over 600 jobs.

Cynulliad ysgwyddo'r gost am unrhyw brosiectau unigol a oedd yn gobeithio cael dilyniant o ran cyflogaeth yn y flwyddyn ariannol hon o'r diwrnod cyntaf, ar 1 Ebrill. Lle'r ymgeiswyr yw gwneud eu penderfyniadau eu hunain. Mae prosiect canolfan dehongli'r cwch hedfan yn Noc Penfro yn achos o'r fath; câi'r un unigolyn a oedd wedi'i leoli yno ar secondiad ei ariannu'n breifat tan 31 Mawrth. Dylech gyfeirio'r prosiect at Gyngor Sir Penfro, i weld a hoffai ddarparu cyllid nes bydd ar gael drwy'r cynllun datblygu gwledig, gan dybio y caiff hwnnw ei gymeradwyo.

**Joyce Watson:** Er gwaethaf lefelau diweithdra isel a lefelau uchel o weithgarwch economaidd, mae cyflogau'n ystyfnig o isel dros ran helaeth o'r canolbarth a'r gorllewin, lle y mae cyfradd uchel—un rhan o dair—o'r boblogaeth yn hunangyflogedig. Bydd gweithredu echel 3 ac echel 4 yn ystod y blynyddoedd nesaf, felly, yn rhan annatod o ddatblygu microfentrau, helpu economïau gwledig lleol i arallgyfeirio a chodi eu hincwm. Sut yr ydych yn gweithio gyda'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i sicrhau bod strategaethau lleol ar gyfer gweithredu echel 3 ac echel 4 yn cyd-fynd â'r strategaethau ehangach ar gyfer datblygu economi Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw'n gwestiwn da. Er bod gostyngiad enfawr wedi bod mewn diweithdra yn sir Benfro dros y pedair neu'r pum mlynedd diwethaf, am fod y prosiect nwy naturiol hylifedig wedi rhoi hwb anferth i'r economi leol, mae pawb yn derbyn nad yw hynny'n ddigon. Mae arnom angen newid mwy dwfn o lawer yn economi sir Benfro a'i rhagolygon economaidd. Mae rhan o hynny'n golygu sicrhau nad yw'r traddodiad hir o waith tymhorol, achlysurol a rhan-amser, a gwaith â chyflogau eithaf isel, yn rhan mor fawr o'r sefyllfa yn sir Benfro yn y dyfodol ag y mae wedi bod yn y gorffennol. I wneud hynny, bydd arnoch angen sylfaen gryfach o lawer o microfentrau a ffordd o arallgyfeirio'r economi oddi wrth ddibynnu'n ormodol ar brosiectau adeiladu mawr neu fentrau traddodiadol ym maes ffermio a thwristiaeth. Wedi dweud hynny, yr wyf yn cael ar ddeall y bydd y prosiect twristiaeth mwyaf yn sir Benfro ers amser maith iawn—y Garreg Las—yn agor ym mis

Mehefin, gan ddarparu ymhell dros 600 o swyddi.

**Alun Ffred Jones:** O dan y cynllun datblygu gwledig blaenorol, yr oedd cynllun yng Ngwynedd o'r enw Llwyddo'n Lleol, a oedd yn hybu entrepreneuriaeth ymhlith pobl ifanc a phlant ysgol. Mae deilliannau'r rhaglen honno yn rhai cadarnhaol iawn. A fydech yn fodlon ystyried, gyda'ch cyd-Weinidogion, ymestyn y rhaglen honno i rannau eraill o Gymru?

**Alun Ffred Jones:** Under the previous rural development plan, there was a scheme called Get on in Gwynedd, which promoted entrepreneurship among young people and school pupils in the county. The outcomes of that programme are very positive. Would you be willing to consider, with your Cabinet colleagues, rolling that programme out to the rest of Wales?

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'n rhan o'r cynllun datblygu gwledig newydd ar gyfer 2007 hyd at 2013, hyd y deallaf. Yr oedd yn rhan o'r cynllun gweithredu cymunedol. Hyd y deallaf, penderfynodd Elin Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, nad oedd yn flaenoriaeth iddi hi a'i hadran. Wedi i'r cynllun datblygu gwledig gael cefnogaeth Comisiwn Ewrop mewn egwyddor, efallai y bydd cyfle i bobl ailedrych ar y mater o weithio rhwng Llwyddo'n Lleol a'r cynllun datblygu gwledig newydd.

**The First Minister:** As I understand, it is not part of the new rural development plan for 2007 until 2013. It was part of the community action plan. As I understand it, Elin Jones, the Minister for Rural Affairs, decided that it was not a priority for her or her department. Once the rural development plan has been approved in principle by the European Commission, perhaps there will be an opportunity for people to revisit the matter of working between Get on in Gwynedd and the new rural development plan.

#### M4 Road-safety Measures

#### Mesurau Diogelwch ar yr M4

**Q2 William Graham:** Will the First Minister make a statement on the road-safety measures along the M4 in South Wales East? OAQ(3)0905(FM)

**C2 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y mesurau diogelwch ar y ffordd ar hyd yr M4 yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)0905(FM)

**The First Minister:** It is a very timely question, given that we will be investing some £15 million this year in a completely new road-safety system between junctions 24 and 28—the eastern and western edges of Newport. It is known as the controlled motorway scheme, and enables the highways authority for that stretch, namely us, to bring in controlled speeds and effective signalling throughout the section.

**Y Prif Weinidog:** Mae'n gwestiwn amserol iawn, o ystyried y byddwn yn buddsoddi tua £15 miliwn eleni mewn system diogelwch ar y ffordd sy'n gwbl newydd rhwng cyffordd 24 a chyffordd 28—cyrion dwyreiniol a gorllewinol Casnewydd. Y cynllun traffyrdd a reolir y gelwir y system, ac mae'n galluogi'r awdurdod priffyrdd dros y rhan honno, sef ni, i gyflwyno cyflymderau a reolir a signalau effeithiol ledled yr adran.

**William Graham:** Thank you for your reply, First Minister. That investment is certainly to be welcomed by all of those who have to use the M4 regularly. You will know that, sadly, there have been some fatalities in recent weeks, and I am sure that we would all express our sympathies to the families of those involved, as well as pay tribute to the paramedics, ambulance staff and fire and rescue service personnel who have to deal with such incidents on almost a daily basis.

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Brif Weinidog. Yn sicr, caiff y buddsoddiad hwnnw ei groesawu gan bawb y mae'n rhaid iddynt ddefnyddio'r M4 yn rheolaidd. Gwyddoch fod rhai marwolaethau wedi bod dros yr wythnosau diwethaf, yn anffodus, ac yr wyf yn siŵr y byddem i gyd yn dangos ein cydymdeimlad â theuluoedd y rhai a fu farw, yn ogystal â rhoi teyrnged i'r parameddygon, staff yr ambiwlansys a gweithwyr y gwasanaeth tân ac achub y mae'n rhaid iddynt

The M4 around Newport has many unique features—there are six major junctions in less than seven miles, two bends in the carriageway with a recommended speed of 50 mph and constant lane changes, not to mention the Brynglas tunnels. Surely the best safety measure is the M4 relief road.

**The First Minister:** I think that we would all accept that, which is why work is being taken forward on the M4. Of course, you also have to have interim measures, and I mentioned the £15 million-worth investment in a signalling scheme, which would enable us to vary speed limits through good signalling along that stretch. Beyond that, in 2009-10, I understand that we are considering a scheme for a concrete safety barrier to replace the corrugated-iron safety barriers, which are not far off reaching their sell-by date. That is a matter for consideration during this financial year for possible financing during the following financial year. That would involve another major financial commitment to road safety on the M4.

**Mohammad Asghar:** Gwent Police is doing its very best to reduce the number of deaths and injuries on the M4, and credit is due to it for that. I am pleased that it is taking road-safety messages to schools and colleges in the area, but the police can only do so much. Will the First Minister join me in urging drivers to take care and go slower when weather conditions are poor, especially on that stretch of the M4 that my colleague, Mr William Graham, mentioned, between junctions 24 and 27?

**The First Minister:** We would certainly agree with that. The bends on the M4 are 'non-standard', let us say. People expect a certain standard design on motorways, but, in built-up areas such as parts of Port Talbot, Newport and Chiswick, the M4 has been squeezed into the area, as there was not much choice as regards its design. Sometimes, you do not have the standard sight lines that you would like to have, and you must be ultra careful when driving, particularly when the weather is bad. There are 50 mph speed limits on parts of the M4, but people should

ddelio â digwyddiadau o'r fath yn ddyddiol bron. Mae gan yr M4 o amgylch Casnewydd lawer o nodweddion unigryw—ceir chwe chyffordd fawr mewn llai na saith milltir, dau dro yn y gerbyttfordd lle y caiff cyflymder o 50 mya ei argymhell a newid lôn yn gyson, heb sôn am dwneli Bryn-glas. Onid ffordd liniaru'r M4 yw'r mesur diogelwch gorau?

**Y Prif Weinidog:** Credaf y byddem i gyd yn derbyn hynny, a dyna'r rheswm pam mae gwaith yn cael ei wneud ar yr M4. Wrth gwrs, rhaid ichi gael mesurau interim hefyd, a soniais am y buddsoddiad gwerth £15 miliwn mewn cynllun signalau, a fyddai'n ein galluogi i amrywio'r cyfyngiadau cyflymder drwy signalau da ar hyd y rhan honno. Wedi hynny, yn 2009-10, yr wyf yn cael ar ddeall ein bod yn ystyried cynllun ar gyfer rhwystr diogelwch concrit i ddisodli'r rhwystrau haearn rhychiog, sy'n dod yn agos at ddiwedd eu hoes. Mae hynny'n fater i'w ystyried yn ystod y flwyddyn ariannol hon, ar gyfer ei ariannu o bosibl yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol. Byddai hynny'n golygu ymrwymiad ariannol sylweddol arall i ddiogelwch ar y ffyrdd ar yr M4.

**Mohammad Asghar:** Mae Heddlu Gwent yn gwneud ei orau glas i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau ar yr M4, a dylid rhoi clod iddo am hynny. Yr wyf yn falch ei fod yn cyflwyno negeseuon diogelwch ar y ffyrdd i ysgolion a cholegau yn yr ardal, ond dim ond hyn a hyn y gall yr heddlu ei wneud. A wnaiff y Prif Weinidog ymuno â mi i annog gyrwyr i fod yn ofalus a gyrru'n arafach pan fydd y tywydd yn wael, yn enwedig ar y rhan honno o'r M4 y soniodd fy nghyd-Aelod, Mr William Graham, amdani, rhwng cyffordd 24 a chyffordd 27?

**Y Prif Weinidog:** Yn sicr, byddem yn cytuno â hynny. Mae'r troeon ar yr M4 yn 'ansafonol', fel petai. Mae pobl yn disgwyl cynllun safonol penodol ar draffyrdd, ond, mewn ardaloedd adeiledig megis rhannau o Bort Talbot, Casnewydd a Chiswick, mae'r M4 wedi'i gwasgu i'r ardal, gan nad oedd llawer o ddewis ar gael o ran ei chynllun. Weithiau, ni chewch y llinellau gwelediad safonol yr hoffech eu cael, a bydd yn rhaid ichi fod yn dra gofalus wrth yrru, yn enwedig pan fydd y tywydd yn wael. Ceir cyfyngiadau cyflymder 50 mya ar rannau o'r M4, ond

probably not be doing much more than 50 mph along the rest of the M4 unless it is at a very quiet time of day.

### **The National Health Service Act 1946**

**Q3 Trish Law:** What plans does the Welsh Assembly Government have to commemorate the 60 years since the National Health Service Act came into being? OAQ(3)0913(FM)

**The First Minister:** We are putting out a call for all those who were members of NHS staff at the inception of the NHS in July 1948 to attend a reception in the Senedd on 3 July, so that we can celebrate with them the foundation of the NHS. It is a British national institution that is the pride of Wales and of Britain and the envy of the world.

2.10 p.m.

**Trish Law:** Thank you for that response, First Minister. 'One Wales' promises to press ahead with the relocation of Assembly divisions in north Wales, west Wales and the south Wales Valleys. Other than the relocation of the Department for Social Justice and Local Government to Merthyr Tydfil, which predates 'One Wales', I am not aware of any division being relocated to the south Wales Valleys. Will you and the Welsh Assembly Government give serious consideration to the relocation of the Department for Health and Social Services to Blaenau Gwent, the birthplace of Aneurin Bevan and the spiritual home of the NHS?

**The First Minister:** It is an interesting way of phrasing it to say that, apart from the department that we have relocated to the Valleys, we have not relocated a department to the Valleys, and that is true. The relocation has been a great success. After the initial scepticism about the relocation from Cardiff to Merthyr, and staff allegedly being terribly reluctant to move there, I understand that wild horses could not get those who have moved there back to Cathays park. They enjoy it there because the facilities are so much more modern than those found in the mid-1970s building in Cathays park. Whether

mae'n debyg na ddylai pobl fod yn teithio ar gyflymder llawer mwy na 50 mya ar hyd gweddill yr M4 oni bai fod hynny ar adeg dawel iawn o'r dydd.

### **Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1946**

**C3 Trish Law:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i goffáu bod 60 mlynedd wedi mynd heibio ers i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ddod i rym? OAQ(3)0913(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn galw ar bawb o'r rhai a oedd yn aelodau o staff y GIG pan gychwynnodd y GIG ym mis Gorffennaf 1948 i ddod i dderbyniad yn y Senedd ar 3 Gorffennaf, er mwyn inni allu dathlu sefydlu'r GIG gyda hwy. Mae'n sefydliad cenedlaethol Prydeinig y mae Cymru a Phrydain yn falch iawn ohono, ac mae gweddill y byd yn eiddigeddus ohono.

**Trish Law:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Mae 'Cymru'n Un' yn addo bwrw iddi i adleoli is-adrannau'r Cynulliad yn y gogledd, yn y gorllewin ac yng Nghymoedd y de. Ar wahân i adleoli'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i Ferthyr Tudful, a ddigwyddodd cyn 'Cymru'n Un', ni wn am ddim un is-adran yn cael ei hadleoli i Gymoedd y de. A wnewch chi, ynghyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru, ystyried yn ddwys adleoli'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i Flaenau Gwent, man geni Aneurin Bevan a chartref ysbrydol y GIG?

**Y Prif Weinidog:** Mae hynny'n ffordd ddiddorol o eirio'r cwestiwn, sef dweud, ar wahân i'r adran yr ydym wedi ei hadleoli i'r Cymoedd, nad ydym wedi adleoli adran i'r Cymoedd, ac mae hynny'n wir. Mae'r adleoli wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Ar ôl yr amheuaeth wreiddiol ynghylch adleoli o Gaerdydd i Ferthyr, a bod staff, yn ôl y sôn, yn anfodlon iawn symud yno, yr wyf yn cael ar ddeall y byddai'n anodd tu hwnt perswadio'r rhai a symudodd yno i symud yn ôl i barc Cathays. Maent yn mwynhau gweithio yno am fod y cyfleusterau yn fwy modern o lawer na'r rhai sydd yn yr adeilad o

that will lead to further relocations to the Valleys, we do not know; we will have to wait until we have completed the relocations to mid Wales and north Wales, to the new Aberystwyth and Llandudno Junction offices.

**Jeff Cuthbert:** Today marks the official opening of Caerphilly County Borough Council's new offices in Tredomen, which were delivered to budget. However, there has been criticism of the council for building the offices from quarters that should know better. The sole reason for building the new offices was to vacate the Ystrad Fawr site to enable the new hospital for the mid Rhymney valley to be built and to be opened by 2011. Do you agree that one of the best ways to commemorate 60 years of the national health service is to provide ultra-modern, state-of-the-art hospitals in which every patient will have his or her own room, and which will have added facilities, such as a dedicated mental health unit?

**The First Minister:** I agree entirely. It is the biggest investment in the national health service that we have in our stocks. The new hospital will be worth £150 million, and it will meet the needs of the area where the Glamorgan and Gwent valleys meet, in the northern part of Caerphilly borough, as well as the whole of that borough and some adjoining areas. It was approved in principle in the mid 1960s, but it has taken 42 years to deliver. It means going onto the Ystrad Fawr site, the former headquarters of the National Coal Board and, subsequently, Caerphilly County Borough Council after reorganisation in 1996.

**The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** I also pay tribute to all those who work in the health service. Like everybody here, I am sure, I have reason to be grateful to the national health service, which, as you have said, is a great national institution and is part of the weft and warp of national life. In the light of that, will you give a view on the 39p per day increase in funding for people in care homes throughout Wales? That is well below the rate of inflation, it will

ganol yr 1970au ym mharc Cathays. Pa un ai a fydd hynny'n arwain at ragor o adleoli i'r Cymoedd, ni wyddom; bydd yn rhaid inni aros nes ein bod wedi cwblhau'r adleoli i'r canolbarth ac i'r gogledd, i'r swyddfeydd newydd yn Aberystwyth a Chyffordd Llandudno.

**Jeff Cuthbert:** Heddiw, caiff swyddfeydd newydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yng Nhredomen, a gwblhawyd o fewn y gyllideb, eu hagog yn swyddogol. Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth ar y cyngor am adeiladu'r swyddfeydd, gan garfanau a ddylai wybod yn well. Y rheswm sylfaenol dros adeiladu'r swyddfeydd newydd oedd er mwyn gwacáu safle Ystrad Fawr er mwyn galluogi ysbyty newydd canol cwm Rhymni i gael ei adeiladu a'i agor erbyn 2011. A gytunwch mai un o'r ffyrdd gorau o goffâu 60 mlynedd ers sefydlu'r gwasanaeth iechyd gwladol yw drwy ddarparu ysbytai tra modern, arloesol, lle y bydd gan bob claf ei ystafell neu ei hystafell ei hun, a lle y ceir cyfleusterau ychwanegol, megis uned bwrpasol ar gyfer iechyd meddwl?

**Y Prif Weinidog:** Cytunaf yn llwyr. Hwn yw'r buddsoddiad mwyaf sydd gennym ar y gweill ar gyfer y gwasanaeth iechyd gwladol. Bydd yr ysbyty newydd yn werth £150 miliwn, a bydd yn diwallu anghenion yr ardal lle y mae cymoedd Morgannwg a Gwent yn cwrdd, yn rhan ogleddol bwrdeistref Caerffili, yn ogystal â'r fwrdeistref honno i gyd a rhai ardaloedd cyffiniol. Rhoddwyd cymeradwyaeth iddo o ran egwyddor yng nghanol yr 1960au, ond mae ei wireddu wedi cymryd 42 mlynedd. Mae hyn yn golygu mynd i safle Ystrad Fawr, cyn bencadlys y Bwrdd Glo Cenedlaethol ac, wedi hynny, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ôl yr ad-drefnu yn 1996.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Rhoddaf finnau hefyd deyrnged i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd. Mae gennyf, fel pawb arall yma, yr wyf yn siŵr, reswm dros fod yn ddiolchgar i'r gwasanaeth iechyd gwladol, sydd, fel y dywedaso, yn sefydliad cenedlaethol gwych ac yn rhan o hanfod y bywyd cenedlaethol. Yng ngoleuni hynny i gyd, a ddywedwch beth yw eich barn am y cynnydd o 39c y dydd mewn cyllid ar gyfer pobl mewn cartrefi gofal ledled



put pressure on care homes, and it will result in more care homes closing, which will mean extra pressure in the form of delayed transfers of care, namely the bedblocking problem that already exists.

**The First Minister:** I do not know what cost calculations that additional sum of money is based on or who made the calculation. I will have to make suitable inquiries on the matter and write to you.

**Nick Bourne:** I will give the First Minister a bit of extra information. It works out as 2.4 per cent on the current funding for care home places, which is below the headline rate of inflation and is well below the rate of inflation in the health service. Would he agree—and I accept that he does not have the precise figures before him—that that sort of pressure on care homes will result in more care home places being lost and extra pressure on delayed transfers of care, which, according to the review that has just been published, are already costing the health service £69 million per year? That is quite apart from the cost for individuals there, given that they become far more institutionalised in hospital when the appropriate place for them is a care home.

**The First Minister:** I would have to look across the range to see what the increases are for domiciliary care packages, care homes, nursing homes and so on. You say that it would have an impact on delayed transfers of care, and it might, but that would be only pro rata to the proportion of people who want to leave hospital to go into a care home setting, and not a domiciliary or nursing care setting. The cost increases for nursing homes, care homes and for providing domiciliary care will depend on the mix of the labour cost content, as well as any other increase in costs, such as energy, the price of which has been rising very quickly.

**Nick Bourne:** I accept that, but the First Minister makes the case that the headline rate of inflation is currently 2.7 per cent and rising, and yet this increase is 2.4 per cent.

Cymru? Mae hynny'n is o lawer na chyfradd chwyddiant, bydd yn rhoi pwysau ar gartrefi gofal, a bydd yn arwain at gau rhagor o gartrefi gofal, a fydd yn golygu pwysau ychwanegol ar ffurf oedi wrth drosglwyddo gofal, sef problem blocio gwelyau sy'n bodoli eisoes.

**Y Prif Weinidog:** Ni wn pa gyfrifiadau o ran costau sy'n sail i'r swm ychwanegol hwnnw o arian, na phwy a wnaeth y cyfrifiad. Bydd yn rhaid imi wneud ymholiadau priodol ynghylch y mater ac ysgrifennu atoch.

**Nick Bourne:** Rhoddaf ychydig o wybodaeth ychwanegol i'r Prif Weinidog. Mae'n gyfwerth â 2.4 y cant o'r cyllid presennol ar gyfer lleoedd mewn cartrefi gofal, sy'n is na chyfradd chwyddiant ac yn is o lawer na chyfradd chwyddiant yn y gwasanaeth ieched. A gytunai—ac yr wyf yn derbyn nad yw'r union ffigurau ganddo o'i flaen—y bydd pwysau o'r fath ar gartrefi gofal yn arwain at golli rhagor o leoedd mewn cartrefi gofal ac at bwysau ychwanegol ar oedi wrth drosglwyddo gofal, sydd, yn ôl yr adolygiad sydd newydd gael ei gyhoeddi, eisoes yn costio £69 miliwn y flwyddyn i'r gwasanaeth ieched? Mae hynny ar wahân i'r gost i unigolion yno, o ystyried y byddant yn fwy sefydliadedig o lawer yn yr ysbyty os cartref gofal yw'r lle priodol iddynt.

**Y Prif Weinidog:** Byddai'n rhaid imi edrych beth sy'n digwydd yn gyffredinol i weld beth yw'r cynnydd ar gyfer pecynnau gofal cartref, cartrefi gofal, cartrefi nyrsio ac yn y blaen. Dywedwch y byddai hynny'n effeithio ar yr oedi wrth drosglwyddo gofal, ac mae hynny'n bosibl, ond ni fyddai hynny ond ar sail *pro rata* yn ôl cyfran y bobl y mae arnynt eisiau gadael yr ysbyty i fynd i leoliad cartref gofal, ac nid i leoliad gofal cartref neu ofal mewn cartref nyrsio. Bydd y cynnydd mewn costau ar gyfer cartrefi nyrsio, cartrefi gofal ac ar gyfer darparu gofal cartref yn dibynnu ar yr hyn a fydd yn digwydd o ran cost llafur, yn ogystal ag unrhyw gynnydd arall mewn costau, megis ynni, gan fod pris ynni wedi bod yn codi'n gyflym iawn.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn derbyn hynny, ond mae'r Prif Weinidog yn cyflwyno'r ddadl bod prif gyfradd chwyddiant yn 2.7 y cant ar hyn o bryd, ac yn codi, ac eto 2.4 y cant yw'r

The cost in the care home sector will be far more, because, as he rightly says, energy costs have increased well above that rate, and the heating needs to be on throughout much of the year, understandably, given the health of the people who live in such homes. Therefore, would he please revisit this as a matter of some urgency? It is already costing the health service money, by way of delayed transfers of care. That can only be made worse by the pressure that we see now on care home places; as they become unprofitable because of measures such as that which has just been announced, they are more likely to close.

**The First Minister:** I am not sure whether it will make care homes unprofitable. There has been a big wave of care home closures, but that was caused partially by a generation effect. A lot of care homes were opened some 30 years ago and many of their owners, having reached their current age, now want to sell up and retire. There was also a property boom until quite recently, which made it quite attractive to sell some of the big houses that had been converted into care homes 30 years ago for conversion into flats or back into big houses—it was profitable until the property difficulties started, last summer. There are many factors that cause people to decide that running a care home is not as profitable as the alternatives, and I will have to look at them. I will make sure that Edwina Hart includes that information in her reply to you.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** The Welsh Liberal Democrats also celebrate 60 years of that great institution, the national health service. Each generation has thrown up different problems for the health service, and one of the biggest problems for this generation is substance abuse. In the last year for which records have been published, more than 10,000 drug offences were recorded in Wales. My colleague, Jenny Randerson, has discovered that nearly one child of infant school age a month is hospitalised because of alcohol abuse. A quarter of young adults aged between 16 and 24 reported using drugs in

cynnydd hwn. Bydd y gost yn y sector cartrefi gofal yn llawer uwch, oherwydd, fel y dywed yn gywir, mae costau ynni wedi codi'n llawer uwch na'r gyfradd honno, ac mae angen i'r gwres fod ymlaen drwy gydol llawer o'r flwyddyn, sy'n ddealladwy, o ystyried iechyd y bobl sy'n byw mewn cartrefi o'r fath. Felly, a wnaiff ailystyried hyn fel mater o gryn frys? Mae eisoes yn costio arian i'r gwasanaeth iechyd, drwy oedi wrth drosglwyddo gofal. Ni all hynny ond gwaethygu o ganlyniad i'r pwysau a welwn yn awr ar leoedd mewn cartrefi gofal; wrth iddynt ddod yn amhroffidiol oherwydd mesurau fel yr un sydd newydd gael ei gyhoeddi, byddant yn fwy tebygol o gau.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr a fydd yn gwneud cartrefi gofal yn amhroffidiol. Bu ton fawr o gau cartrefi gofal, ond achoswyd hynny'n rhannol am fod pobl yn perthyn i genhedlaeth arbennig. Agorwyd llawer o gartrefi gofal tua 30 mlynedd yn ôl, ac mae llawer o'u perchenogion, gan eu bod wedi cyrraedd eu hoedran presennol, bellach yn dymuno gwerthu ac ymddeol. Hefyd, bu ymchwydd yn y farchnad eiddo tan yn weddol ddiweddar, a'i gwnaeth yn eithaf deniadol gwerthu rhai o'r tai mawr a oedd wedi cael eu trosi'n gartrefi gofal 30 mlynedd yn ôl i'w trosi'n fflatiau neu eu trosi'n eu holau'n dai mawr—yr oedd yn broffidiol nes i'r anawsterau o ran eiddo ddechrau, yr haf diwethaf. Ceir nifer o ffactorau sy'n achosi i bobl benderfynu nad yw rhedeg cartref gofal mor broffidiol â'r dewisiadau eraill, a bydd rhaid imi edrych arnynt. Sicrhaf fod Edwina Hart yn cynnwys y wybodaeth honno yn ei hymateb ichi.

**Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn dathlu 60 mlynedd o'r sefydliad mawr hwnnw, y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae pob cenhedlaeth wedi cyflwyno problemau gwahanol i'r gwasanaeth iechyd, ac un o broblemau mwyaf y genhedlaeth hon yw camddefnyddio sylweddau. Yn y flwyddyn ddiwethaf y cyhoeddwyd cofnodion ar ei chyfer, cofnodwyd dros 10,000 o droseddau cyffuriau yng Nghymru. Mae fy nghyd-Aelod, Jenny Randerson, wedi canfod bod bron un plentyn o oed ysgol babanod yn mynd i'r ysbyty bob mis oherwydd

the past year. What is the First Minister doing to ensure that the national health service meets this generation's urgent needs?

**The First Minister:** The general point that you make, about each generation seeing a redefinition of the health service's priorities, is undoubtedly true. Everyone would accept that the national health service has, hitherto, not fulfilled the original dream of being a machine for creating health on top of a machine for treating ill health. That must remain a key priority.

I agree entirely that drug and alcohol abuse is a priority problem for the current generation. Dysfunctional families result in people who resort to drugs and alcohol, seeing them as the answer to their problems, however self-destructive that may be, and so beds are being provided on a substantially increased scale, as well as more intervention. I do not have the figures to hand, but investment has certainly more than doubled in the past few years. We accept that treatment alone—as distinct from locking people up in institutions or in jail, or simply trying to ignore the problem—will never be enough, but we have put a lot of money into providing additional beds for drug and alcohol recovery treatment.

**Michael German:** The problem stretches way beyond what you have just mentioned. One worrying piece of research relates to the number of babies in Wales being treated for problems related to their mothers' use of illegal drugs during pregnancy. That number has gone up by a third in the past three years, and is rising. Surely that is a good example of current and future demands placed on the NHS. Would you care to speculate a little further, First Minister, perhaps looking to the next 60 years, on whether this problem can be tackled by the NHS under the conditions and with the services that you have put in place?

camddefnyddio alcohol. Dywedodd chwarter yr oedolion ifanc rhwng 16 a 24 eu bod wedi defnyddio cyffuriau yn y flwyddyn ddiwethaf. Beth y mae'r Prif Weinidog yn ei wneud i sicrhau bod y gwasanaeth iechyd gwladol yn diwallu anghenion dybryd y genhedlaeth hon?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r pwynt cyffredinol a wnewch, fod pob cenhedlaeth yn achosi ailddiffinio blaenoriaethau'r gwasanaeth iechyd, yn wir heb amheuaeth. Byddai pawb yn derbyn nad yw'r gwasanaeth iechyd gwladol, hyd yma, wedi gwireddu'r breuddwyd gwreiddiol o fod yn beiriant ar gyfer creu iechyd yn ogystal â bod yn beiriant i drin afiechyd. Rhaid i hynny barhau'n flaenoriaeth allweddol.

Cytunaf i'r carn fod camddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn broblem sy'n flaenoriaeth i'r genhedlaeth bresennol. Mae teuluoedd camweithredol yn cynhyrchu pobl sy'n troi at gyffuriau ac alcohol, gan eu gweld yn ateb i'w problemau, waeth pa mor hunan-niweidiol yw hynny, ac felly darperir mwy a mwy o welyau, yn ogystal â mwy o ymyrryd. Nid yw'r ffigurau wrth law gennyf, ond mae'r buddsoddiad yn sicr wedi mwy na dyblu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yr ydym yn derbyn na fydd triniaeth yn unig—yn hytrach na chloi pobl mewn sefydliadau neu yn y carchar, neu geisio anwybyddu'r broblem—byth yn ddigon, ond yr ydym wedi rhoi llawer o arian at ddarparu gwelyau ychwanegol ar gyfer trin ac adfer oherwydd cyffuriau ac alcohol.

**Michael German:** Mae'r broblem yn mynd ymhell tu hwnt i'r hyn yr ydych newydd ei grybwyll. Mae un darn o ymchwil, sy'n peri gofid, yn ymwneud â nifer y babanod yng Nghymru sy'n cael eu trin ar gyfer problemau sy'n ymwneud â'u mamau'n defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn ystod eu beichiogrwydd. Mae un rhan o dair o gynnydd wedi bod yn y nifer hwnnw yn y tair blynedd diwethaf, ac mae'n dal i godi. Mae hynny'n sicr yn enghraifft dda o'r hyn y disgwylir i'r GIG ei gyflawni, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. A fydddech yn fodlon dyfalu ychydig ymhellach, Brif Weinidog, gan edrych ar y 60 mlynedd nesaf, efallai, ynghylch a all y GIG fynd i'r afael â'r broblem hon dan yr amodau, a chyda'r

gwasanaethau, yr ydych wedi'u rhoi iddynt?

**The First Minister:** The stresses and strains on the national health service in Wales because of foetuses having become addicted to drugs or alcohol through their mothers' abuse is miniscule when compared with the problems seen downtown in large cities in the USA, or of the AIDS-infected children in southern Africa, let us say. It is a problem, but I would not describe it as a big problem in that you have to reorient the entire resource pattern of the NHS.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r pwysau a'r straen ar y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru o ganlyniad i ffetysau sydd wedi mynd yn gaeth i gyffuriau neu alcohol am i'w mamau gamddefnyddio'r rheini'n fach iawn o'u cymharu â'r problemau a geir yng nghanol dinasoedd mawr UDA, neu â'r plant sydd ag AIDS yn ne Affrica, dyweder. Mae'n broblem, ond ni fyddwn yn ei galw'n broblem fawr, lle y byddai'n rhaid ichi ailgyfeirio holl batrwm adnoddau'r GIG.

2.20 p.m.

**Michael German:** I am asking you in general whether, if you put our current problem together with the problem that we may face in future, you believe that the resources and the services that you put into the NHS will be sufficient to tackle this. It is not just the taking of drugs and the dealing of drugs that is the problem—we must treat drug addicts in society and in our prisons. Do you believe that the conditions that you have put in place in the health service are sufficient to deal with what we perceive to be a growing problem for this generation?

**Michael German:** Yr wyf yn gofyn ichi'n gyffredinol a ydych yn credu, petaech yn rhoi ein broblem bresennol ynghyd â'r broblem y gallem ei hwynebu yn y dyfodol, y bydd yr adnoddau a'r gwasanaethau yr ydych yn eu rhoi i'r GIG yn ddigonol i fynd i'r afael â hyn. Nid dim ond cymryd cyffuriau a gwerthu cyffuriau yw'r broblem—rhaid inni drin y rhai sy'n gaeth i gyffuriau yn y gymdeithas ac yn ein carchardai. A ydych yn credu bod yr amodau yr ydych wedi'u rhoi i'r gwasanaeth iechyd yn ddigonol i ymdrin â'r hyn yr ydym yn ei ystyried yn broblem gynyddol i'r genhedlaeth hon?

**The First Minister:** If you had asked me that question four or five years ago, I would have said, 'No, they are not, but we are going to solve that by investing in a major increase in bed capacity for treating drug and alcohol abusers'. To a degree, they must themselves be ready to undergo in-patient treatment. Many of them felt frustrated four or five years ago, because at the time when they felt ready to go in for in-patient treatment, the beds were not available. Sometimes, by the time that the bed was available, they changed their minds, had dropped off the wagon and were not ready for treatment. Four or five years later, those beds are coming on-stream and we can now answer the need of the drug and alcohol abuser for treatment at the time when he or she has sufficient grip on life to say, 'I know that I am going to die if I do not go in for it; I will not make it to 30 or 40'. That is the key point at which you must be ready with the services—when the drug abuser or the alcoholic says, 'I am now ready for treatment'.

**Y Prif Weinidog:** Petaech wedi gofyn y cwestiwn hwnnw imi bedair neu bum mlynedd yn ôl, byddwn wedi dweud, 'Nac ydynt, ond yr ydym am ddatrys hynny drwy fuddsoddi mewn cynnydd mawr yn nifer y gwelyau ar gyfer trin camddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol'. I raddau, rhaid iddynt hwy fod yn fodlon derbyn triniaeth cleifion mewnol. Yr oedd nifer ohonynt yn teimlo'n rhwystredig bedair neu bum mlynedd yn ôl, oherwydd ar yr adeg pan oeddent yn teimlo'n barod i fynd i gael triniaeth cleifion mewnol, nid oedd y gwelyau ar gael. Weithiau, erbyn i'r gwely hwnnw fod ar gael, byddent wedi newid eu meddwl, wedi dechrau yfed eto ac nid oeddent yn barod am driniaeth. Bedair neu bum mlynedd yn ddiweddarach, mae'r gwelyau hynny'n cael eu darparu a gallwn yn awr ddiwallu angen camddefnyddwyr cyffuriau ac alcohol am driniaeth ar yr adeg pan fydd ganddynt ddigon o afael ar eu bywydau i ddweud, 'Yr wyf yn gwybod y byddaf yn marw os nad af i gael triniaeth; ni wnaf gyrraedd 30 neu 40'. Dyna'r pwynt

allweddol pan fydd yn rhaid ichi fod yn barod gyda'r gwasanaethau—pan fydd y camddefnyddiwr cyffuriau neu'r alcoholig yn dweud, 'Yr wyf yn awr yn barod i gael triniaeth'.

### Mobile Homes Legislation

**Q4 Kirsty Williams:** Will the First Minister make a statement on mobile homes legislation in Wales? OAQ(3)0903(FM)

**The First Minister:** We introduced new legislation to safeguard the interests of mobile homes in November 2007. These were warmly welcomed by Welsh stakeholders. We are currently assessing the impact of this legislation and will consider what further changes may be necessary in Wales.

**Kirsty Williams:** First Minister, you will be aware that we lagged some 12 months behind Westminster in passing those laws, and they do not address the issue of settling disputes between homeowners and site owners without redress to costly and lengthy legal proceedings. In England, the Minister responsible for mobile homes has announced his intention to develop an ombudsman-type scheme that would enable homeowners to take action against their site owners in a much more cost-effective and less stressful way. Do you and your Ministers in the Assembly have similar plans to introduce such a scheme to protect mobile homeowners in Wales?

**The First Minister:** I assume that you are referring to the new model standards that were introduced on 4 April in England. We are currently considering revised model standards for Wales and we hope to introduce these before the summer. We are working closely with our colleagues in the relevant Westminster department—the Department of Communities and Local Government—to assess what changes may be needed in order to speed up the resolution of disputes between site owners and mobile homeowners.

### Deddfwriaeth Cartrefi Symudol

**C4 Kirsty Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddeddfwriaeth cartrefi symudol yng Nghymru? OAQ(3)0903(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd gennym i ddiogelu buddiannau cartrefi symudol ym mis Tachwedd 2007. Croesawyd y rhain yn gynnes gan randdeiliaid Cymru. Ar hyn o bryd, yr ydym yn asesu effaith y ddeddfwriaeth hon, a byddwn yn ystyried pa newidiadau pellach a all fod yn angenrheidiol yng Nghymru.

**Kirsty Williams:** Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol ein bod tua 12 mis ar ôl San Steffan yn pasio'r deddfau hynny, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â chwestiwn setlo anghydfodau rhwng perchenogion cartrefi a pherchenogion safleoedd heb droi at achosion cyfreithiol costus a hirfaith. Yn Lloegr, mae'r Gweinidog â chyfrifoldeb am gartrefi symudol wedi cyhoeddi ei fwiad i ddatblygu cynllun ar ddull ombwdsmon a fyddai'n galluogi perchenogion cartrefi i gymryd camau yn erbyn perchenogion eu safle mewn modd llawer mwy costeffeithiol sy'n peri llai o straen. A oes gennych chi a'ch Gweinidogion yn y Cynulliad gynlluniau tebyg i gyflwyno cynllun o'r fath i amddiffyn perchenogion cartrefi symudol yng Nghymru?

**Y Prif Weinidog:** Cymeraf eich bod yn cyfeirio at y safonau model newydd a gyflwynwyd ar 4 Ebrill yn Lloegr. Ar hyn o bryd, yr ydym yn ystyried safonau model diwygiedig ar gyfer Cymru, a gobeithiwn gyflwyno'r rhain cyn yr haf. Yr ydym yn gweithio'n agos gyda'n cyd-Weinidogion yn yr adran berthnasol yn San Steffan—yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol—i asesu pa newidiadau y gall fod eu hangen er mwyn cyflymu'r broses o ddatrys anghydfodau rhwng perchenogion safleoedd a pherchenogion cartrefi symudol.

**Darren Millar:** First Minister, what assurances can you give to the people of Wales that your Assembly Government will do everything in its power to halt any moves by local authorities to grant licenses to allow static caravan parks, which should be used for holidays, to operate all year round? You will be aware that this could, effectively, result in such caravan parks becoming residential by default, thereby decimating your Government's drive to improve housing standards and heralding the establishment of unwelcome trailer parks on our doorsteps.

**The First Minister:** I think that Kirsty's questions were about those that have planning permission to operate all year round. What you are talking about is an entirely different subject, that is, static caravan sites, not park home sites. Park homes are in use for 12 months of the year, while static caravan sites operate for 10 months of the year. Sites can choose which two months to close in—it is usually January and February—but cannot operate throughout the year. You would require a change of planning permission to move from being open for 10 months of the year to being open for 12 months of the year. I am not aware of any current proposals to elide the difference, or allow them to drift from one into the other.

### The People of Tibet

**Q5 Alun Davies:** What representations has the First Minister made to the Chinese Government regarding its treatment of the people of Tibet? OAQ(3)0929(FM)

**The First Minister:** While they have not been made by me, but by the Prime Minister and the Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs, a welter of strong representations have been made to the Chinese Government relating to the treatment of the people of Tibet over the past weeks and months.

**Alun Davies:** Thank you for that response, First Minister, and I know that you and others will use your influence to ensure that people who have suffered repression over the past

**Darren Millar:** Brif Weinidog, pa sicrwydd y gallwch ei roi i bobl Cymru y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth a all i atal unrhyw symudiadau gan awdurdodau lleol i roi trwyddedau i ganiatáu i barciau carafannau sefydlog, y dylid eu defnyddio ar gyfer gwyliau, weithredu drwy gydol y flwyddyn? Byddwch yn ymwybodol y gallai hyn, i bob pwrpas, beri i barciau carafannau o'r fath ddod yn rhai preswyl yn sgîl hynny, gan ddinistrio ymgyrch eich Llywodraeth i wella safonau tai a chan olygu bod parciau trelars nad oes croeso iddynt yn cael eu sefydlu ar ein trothwy.

**Y Prif Weinidog:** Credaf fod cwestiynau Kirsty yn ymwneud â'r rhai a chanddynt ganiatâd cynllunio i weithredu drwy gydol y flwyddyn. Mae'r hyn yr ydych yn siarad amdano'n bwnc hollol wahanol, hynny yw, safleoedd carafannau sefydlog, nid safleoedd cartrefi mewn parciau. Caiff cartrefi mewn parciau eu defnyddio am 12 mis y flwyddyn, tra mae safleoedd carafannau sefydlog yn gweithredu am 10 mis y flwyddyn. Caiff y safleoedd ddewis ym mha ddau fis i gau—Ionawr a Chwefror, fel arfer—ond ni chânt weithredu drwy gydol y flwyddyn. Byddai arnoch angen newid caniatâd cynllunio i symud o fod ar agor am 10 mis y flwyddyn i fod ar agor am 12 mis y flwyddyn. Nid wyf yn ymwybodol o gynigion ar hyn o bryd i gael gwared â'r gwahaniaeth, nac i ganiatáu iddynt ddrifftio o un i'r llall.

### Pobl Tibet

**C5 Alun Davies:** Pa sylwadau mae'r Prif Weinidog wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Tsieina ynghylch y ffordd mae'n trin pobl Tibet? OAQ(3)0929(FM)

**Y Prif Weinidog:** Er nad fi a'u cyflwynodd, ond Prif Weinidog y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad, mae nifer o sylwadau cryf wedi'u cyflwyno i Lywodraeth Tsieina ynghylch y ffordd y mae'n trin pobl Tibet yn ystod yr wythnosau a'r misoedd diwethaf.

**Alun Davies:** Diolch am yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog, a gwn y byddwch chi ac eraill yn defnyddio eich dylanwad i sicrhau y bydd y bobl sydd wedi dioddef gormes yn ystod yr

few weeks will be protected and people will speak on their behalf.

You have on several occasions visited provinces in China, particularly Chongqing, and have an agreed relationship with that province. At the moment, in that province's cities, towns and villages, human rights abuses are taking place under the local Chinese authorities, affecting workers and others who are attempting to improve their conditions. Will you, First Minister, ensure that you use every opportunity that you have when dealing with these authorities to make appropriate representations about the human rights abuses that are taking place elsewhere in China?

**The First Minister:** I am not aware of any such abuses, but I have read, at second hand, about accounts of such abuses, which feed out through the internet and other means. However, they fall within the area of the representations made by David Miliband, the Secretary of State for Foreign and Commonwealth Affairs, and Gordon Brown.

The Chongqing area is extremely interesting, because it is the most noticeable area in China for having ethnic minorities—that is, people who are Chinese but not Han Chinese, and do not form part of the majority Chinese community. I did raise the issue of the rights of non-Han minority living in the Chongqing area, because that is one of the unique features of the area with which we are twinned.

**Andrew R.T. Davies:** Given the problems in Tibet and other issues relating to China, there have been increasing calls for a boycott of the Olympic Games in August. I do not subscribe to that. However, should there be a boycott, it could affect Welsh athletes who participate in the Great Britain team, and sporting teams in general, in terms of sponsorship. Is the Welsh Assembly Government in dialogue with the various participating bodies to ensure that any losses are mitigated should a boycott come about? Many of these athletes have been training hard for their lifetime, and not just for the last two to three years, and they rely on this shop-window event to propel themselves forward in their careers.

wythnosau diwethaf yn cael eu hamddiffyn, ac y bydd pobl yn siarad ar eu rhan.

Yr ydych wedi ymweld â thaleithiau Tsieina droeon, yn enwedig Chongqing, ac mae gennych berthynas y cytunwyd arni â'r dalaith honno. Ar hyn o bryd, yn ninasoedd, trefi a phentrefi'r dalaith honno, mae cam-drin hawliau dynol yn digwydd dan awdurdodau lleol Tsieina, gan effeithio ar weithwyr ac ar eraill sy'n ceisio gwella'u hamodau. A wnewch chi, Brif Weinidog, sicrhau eich bod yn defnyddio pob cyfle a gewch wrth ymdrin â'r awdurdodau hyn i roi sylwadau priodol am y cam-drin hawliau dynol sy'n digwydd mewn mannau eraill yn Tsieina?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn ymwybodol o gam-drin o'r fath, ond yr wyf wedi darllen, yn ail law, ddisgrifiadau o gam-drin o'r fath, sy'n dod i'r amlwg drwy'r rhyngwyd a thrwy ddulliau eraill. Fodd bynnag, maent o fewn maes y sylwadau a wnaethpwyd gan David Miliband, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a Materion y Gymanwlad, a Gordon Brown.

Mae ardal Chongqing yn ddiddorol dros ben, oherwydd honno yw'r ardal fwyaf amlwg yn Tsieina o ran bod â lleiafrifoedd ethnig—hynny yw, pobl o Tsieina ond nid Han Tsieina, ac nad ydynt yn ffurfio rhan o gymuned fwyafrifol Tsieina. Codais fater hawliau'r lleiafrif an-Han sy'n byw yn ardal Chongqing, oherwydd y mae hynny'n un o nodweddion unigryw'r ardal yr ydym wedi ein gefeillio â hi.

**Andrew R.T. Davies:** O ystyried y problemau yn Tibet a materion eraill sy'n ymwneud â Tsieina, bu mwy a mwy o alw am foicotio'r Gemau Olympaidd ym mis Awst. Nid wyf yn cytuno â hynny. Fodd bynnag, petai boicot yn digwydd, gallai effeithio ar athletwyr Cymru sy'n cymryd rhan yn nhîm Prydain Fawr, ac ar dimau chwaraeon yn gyffredinol, o ran nawdd. A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n siarad â'r gwahanol gyrff sy'n cymryd rhan i sicrhau y caiff unrhyw golledion eu lliniaru petai boicot yn digwydd? Mae llawer o'r athletwyr hyn wedi bod yn hyfforddi'n galed ar hyd eu bywydau, ac nid ers dwy neu dair blynedd yn unig, ac maent yn dibynnu ar y

digwyddiad hwn, sy'n ffenestr siop iddynt, i'w gyrru eu hunain ymlaen yn eu gyrfaoedd.

**The First Minister:** The Dalai Lama has said that he does not support a boycott. He wants the Beijing Olympic Games to go ahead. That is not to say that he has in any way lost interest in the issue of human and religious rights in Tibet or the issue of Tibetan autonomy—far from it. However, he does not believe that a boycott of the Beijing Olympics is a suitable weapon to use to promote the Tibetan cause. I agree with him. Obviously, he has more knowledge about this issue in his little finger than I have in my entire body, and if he says, 'Don't boycott the Beijing Olympics; that's not the right way forward', then we should take our lead from him.

All the other points that you made about how sportsmen and sportswomen devote themselves to years of training in preparation for the Olympics are absolutely true.

**Eleanor Burnham:** To pursue that matter a little further, First Minister, surely there is much that Wales can do. I suppose that we can look over the border and feel perhaps that our history has been similar to Tibet's in some ways, although perhaps not quite so recently. Many people in Wales feel that they were oppressed for many generations—although not now, obviously. What exactly can you do to bring about the understanding that we in Wales have of what it might feel like to be oppressed by a larger force, such as Beijing on Tibet? How can you raise sufficient awareness in China, because you are obviously a person of some influence, and allow it to move forward in a much more democratic way than we see from all that we know about what is going on in Tibet?

**The First Minister:** In the middle of that verbal confusion of a somewhat contorted kind, I think that there was a genuine point. The point about devolution, of which we have nine years' experience, and autonomy, and the demands of Tibet for some kind of recognition, whether with regard to culture, religion, politics or human rights, is the issue.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r Dalai Lama wedi dweud nad yw'n cefnogi boicot. Mae ef am i Gemau Olympaidd Beijing fynd rhagddynt. Nid yw hynny'n golygu ei fod wedi colli diddordeb o gwbl ym mater hawliau dynol a chrefyddol yn Tibet na mater ymreolaeth Tibet—ddim o gwbl. Fodd bynnag, nid yw'n credu bod boicotio Gemau Olympaidd Beijing yn fodd addas o hyrwyddo achos Tibet. Yr wyf yn cytuno ag ef. Yn amlwg, mae ganddo fwy o wybodaeth am y mater hwn yn ei fys bach nag sydd gennyf fi yn fy nghorff cyfan, ac os yw ef yn dweud, 'Peidiwch â boicotio Gemau Olympaidd Beijing; nid dyna'r ffordd orau o'i chwmpas hi', dylem ddilyn ei arweiniad.

Mae'r holl bwyntiau eraill a wnaethpwyd gennych am y ffordd y mae athletwyr a chwaraewyr yn ymroi i flynyddoedd o hyfforddiant i baratoi ar gyfer y Gemau Olympaidd yn hollol wir.

**Eleanor Burnham:** A ddilyn y mater hwnnw ychydig ymhellach, Brif Weinidog, yn sicr mae llawer y gall Cymru ei wneud. Mae'n siŵr y gallwn edrych dros y ffin a themlo efallai fod ein hanes ni wedi bod yn debyg i hanes Tibet mewn rhai ffyrdd, er nad mor ddiweddar efallai. Mae llawer o bobl Cymru yn teimlo eu bod wedi'u gormesu am genedlaethau lawer—er nad yw hynny'n digwydd yn awr, yn amlwg. Beth yn union y gallwch ei wneud i gyfleu'r ddealltwriaeth sydd gennym yng Nghymru o sut y mae'n teimlo o fod dan ormes grym mwy, megis gormes Beijing ar Tibet? Sut y gallwch godi digon o ymwybyddiaeth yn Tsieina, oherwydd yn amlwg mae gennych gryn ddylanwad, a'u galluogi i symud ymlaen mewn modd llawer mwy democrataidd nag a welwn yn ôl yr hyn yr ydym yn ei wybod ynghylch yr hyn sy'n digwydd yn Tibet?

**Y Prif Weinidog:** Yng nghanol y dryswch geiriol eithaf gwyrddedig hwnnw, credaf fod pwynt dilys i'w gael. Y pwynt am ddatganoli, ac mae gennym naw mlynedd o brofiad ohono, ac ymreolaeth, a'r galw gan Tibet am ryw fath o gydnabyddiaeth, boed hynny o ran diwylliant, crefydd, gwleidyddiaeth neu hawliau dynol, yw'r mater dan sylw. I ryw



To some extent, the experience of the UK in the past nine years could be of value to the Chinese authorities if they can get themselves into a frame of mind, which they are not in currently, to ask, 'Do we have lessons to learn from the outside world?'. At the moment, they are saying, 'Outside world, keep out; we have no lessons to learn from anybody.'

**The Presiding Officer:** The leader of the opposition has indicated that he wishes to raise a point of order. I will call him after questions.

2.30 p.m.

### Victims of Domestic Abuse

**Q6 Sandy Mewies:** Will the First Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for the victims of domestic abuse? OAQ(3)0924(FM)

**The First Minister:** We have a national strategy to tackle domestic abuse, supported by funding of £3.7 million. There is a range of projects right across Wales aimed at warding off domestic violence or assisting its victims. Ministers provided a paper for the Communities and Culture Committee meeting on 16 April that contained all the relevant information about that support.

**Sandy Mewies:** In Flintshire, a specialist domestic abuse court has been set up that involves all the agencies working together to assess offenders and support victims. The court has a conviction rate of over 70 per cent, so, while I realise that this is not within our remit, will you discuss it with your colleagues in Westminster and support it as much as you can?

**The First Minister:** Many of these areas involve crossing a bridge between what are primarily Westminster's responsibilities and primarily our responsibilities—some of them are 60:40, others 70:30, and so on. In the light of your remarks, I will undertake to get the Minister to take that up with his opposite number in Westminster.

**David Lloyd:** Under the UK domestic

raddau, gallai profiad y DU dros y naw mlynedd diwethaf fod o werth i awdurdodau Tsieina os gallant feithrin y meddylfryd, nad yw ganddynt ar hyn o bryd, sy'n peri iddynt ofyn, 'A oes gennym wersi i'w dysgu gan y byd y tu allan?'. Ar hyn o bryd, maent yn dweud, 'Y byd y tu allan, cadwch allan; nid oes gennym ddim gwersi i'w dysgu gan neb.'

**Y Llywydd:** Mae arweinydd yr wrthblaid wedi dynodi ei fod yn dymuno codi pwynt o drefn. Galwaf arno ar ôl y cwestiynau.

### Dioddefwyr Trais yn y Cartref

**C6 Sandy Mewies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiodesfwyr trais yn y cartref? OAQ(3)0924(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae gennym strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thrais yn y cartref, a gefnogir gan £3.7 miliwn o gyllid. Ceir amrywiaeth o brosiectau ledled Cymru sydd â'r nod o atal trais yn y cartref neu helpu ei ddiodesfwyr. Darparodd Gweinidogion bapur ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar 16 Ebrill a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am y gefnogaeth honno.

**Sandy Mewies:** Yn sir y Fflint, sefydlwyd llys arbenigol trais yn y cartref lle y mae'r holl asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd i asesu troseddwyd ac i gefnogi diodesfwyr. Mae cyfradd euogfarnau'r llys dros 70 y cant, felly, er fy mod yn sylweddoli na ddaw hyn dan eich cylch gwaith chi, a wnewch ei drafod gyda'ch cyd-aelodau yn San Steffan a rhoi cymaint o gefnogaeth iddo ag y gallwch?

**Y Prif Weinidog:** Mae llawer o'r meysydd hyn yn golygu croesi pont rhwng yr hyn sy'n bennaf yn gyfrifoldebau i San Steffan ac yn bennaf yn gyfrifoldebau i ni—mae rhai ohonynt yn 60:40, eraill yn 70:30, ac yn y blaen. Ac ystyried eich sylwadau, ymrwymaf i gael gan y Gweinidog fynd ar drywydd hynny gyda'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan.

**David Lloyd:** Dan reol trais yn y cartref y

violence rule, a woman who is a spouse or long-term partner of a British national or someone who is settled here can apply to stay in the UK permanently if their relationship breaks down during the two-year probationary period if she can prove that domestic violence was the cause of the break up. However, under the no recourse to public funds requirement, these women have no rights to access local authority housing or the main welfare benefits. Between April 2006 and March 2007, the Black Association of Women Step Out supported 77 women in Wales who had no recourse to public funds. Of those, BAWSO could only accommodate 12 women in its refuges; the other 65 women were offered outreach support services across Wales, although what they really needed was housing provision to allow them to leave the violence. Can the First Minister confirm whether the Assembly Government has had discussions with the UK Government, or intends to have such discussions, regarding reforming or abolishing the no recourse to public funds requirement for these women?

**The First Minister:** May I ask for time to look at that issue in detail, with the relevant Minister, to see whether the BAWSO scheme enables the need to be met? If the need can be met—I have taken on board everything that you said about access to public funds and housing and so on being an important objective—however odd it might seem as a procedure, no recourse to public funds may be seen as so important by the Westminster Government that it does not mind how you get around it, but it would not be willing to simply abolish the rule for any category of person. I will look into the matter and you will receive a letter on it.

**Mark Isherwood:** What is your Government doing to ensure that vital front-line services offered directly to victims and survivors of domestic abuse, such as those provided by the domestic abuse safety unit and other women's aid groups, are securely funded? Will you engage directly with local groups to share their good practice and proposals to

DU, caiff menyw sy'n wraig neu'n bartner hirdymor i ddinesydd Prydeinig, neu rywun sydd wedi setlo yma, wneud cais am gael aros yn y DU yn barhaol os bydd eu perthynas yn chwalu yn ystod y cyfnod prawf o ddwy flynedd os gall brofi mai trais yn y cartref a achosodd i'r berthynas chwalu. Fodd bynnag, dan y gofyniad na cheir gofyn cymorth arian cyhoeddus, nid oes gan y menywod hyn hawl i gael tŷ gan awdurdod lleol nac i gael y prif fudd-daliadau lles. Rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, cefnogodd y Black Association of Women Step Out 77 o fenywod yng Nghymru nad oeddent yn gallu gofyn cymorth arian cyhoeddus. O'r rheini, dim ond i 12 menyw y gallai BAWSO gynnig lle mewn lloches; cynigiwyd gwasanaethau allgymorth i'r 65 o fenywod eraill ledled Cymru, er mai'r hyn yr oedd ei wir angen arnynt oedd darpariaeth tai er mwyn eu galluogi i adael y trais. A all y Prif Weinidog gadarnhau a yw Llywodraeth y DU wedi cynnal trafodaethau ynghylch diwygio neu ddileu'r gofyniad na cheir gofyn cymorth arian cyhoeddus ar gyfer y menywod hyn, neu a yw'n bwriadu cynnal trafodaethau o'r fath?

**Y Prif Weinidog:** A gaf ofyn am amser i edrych ar y mater hwn yn fanwl, gyda'r Gweinidog perthnasol, i weld a yw cynllun BAWSO yn golygu bod modd diwallu'r angen? Os oes modd diwallu'r angen—ac yr wyf yn derbyn popeth yr ydych wedi'i ddweud ynghylch bod mynediad at arian cyhoeddus a thai ac yn y blaen yn amcan pwysig—waeth pa mor rhyfedd y mae'n ymddangos fel gweithdrefn, efallai fod Llywodraeth San Steffan yn meddwl bod y gofyniad na cheir gofyn cymorth arian cyhoeddus mor bwysig nad yw'n malio sut yr ydych yn mynd ati i ymdrin â hynny, ond na fyddai'n fodlon cael gwared ar y rheol yn llwyr ar gyfer pobl o unrhyw gategori. Ymchwiliad i'r mater a chewch lythyr yn ei gylch.

**Mark Isherwood:** Beth y mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen hanfodol sy'n cael eu cynnig yn uniongyrchol i ddiodefswyr a goroeswyr trais yn y cartref, fel y rhai a ddarperir gan yr uned ddiogelwch trais yn y cartref a grwpiau cymorth i fenywod eraill, yn cael eu cyllido'n gadarn? A wnewch

generate better value for money for the funding provided?

**The First Minister:** I have not heard an allegation that this does not offer good value for money. There are a range of projects. I think that you mentioned the Cardiff women's safety unit, which is now pretty famous in terms of taking good preventative action and offering a fast-track court service for victims of domestic abuse; it is regarded as a model. There is also Welsh Women's Aid, of course, which we have now known for a long time, and there are 10 staffing posts and core activities there. You may think that some of these do not offer good value for money, but if you have any allegations on that front, that better value for money could be obtained in another way while answering the same need, I would be very grateful if you would write to me about it.

**Peter Black:** First Minister, the extra money going in to address domestic abuse is to be welcomed, as is the strategy. However, there is still anecdotal evidence of women struggling to find places in hostels when they do suffer from domestic abuse, particularly when those women have issues with drug or alcohol abuse themselves. What is the Welsh Assembly Government doing to tackle that issue?

**The First Minister:** The number of hostel places will be aimed at the average plus a little bit of a margin, so if there is a peak in demand on one weekend, for example, you can never be sure that there will be enough beds; that is where those anecdotes probably come from. I will look at whether there is sufficient provision of beds overall, on average, and whether rules that are over-protective, as I think that you are implying, are denying people who are worthy of assistance of a place in a hostel when a bed is available.

#### Priorities for Dentistry

ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau lleol i rannu eu harferion da a'u cynigion i gael gwell gwerth am arian am y cyllid a ddarperir?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi clywed honiad nad yw hyn yn cynnig gwerth da am arian. Ceir amrywiaeth o brosiectau. Yr wyf yn meddwl ichi grybwyll uned ddiogelwch menywod Caerdydd, sydd yn eithaf enwog erbyn hyn oherwydd ei bod yn cymryd camau ataliol da ac yn cynnig gwasanaeth llys llwybr cyflym ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref; caiff ei hystyried yn fodel. Ceir Cymorth i Fenywod hefyd, wrth gwrs, sy'n hysbys inni ers tro byd bellach, ac mae 10 swydd a gweithgareddau craidd yno. Efallai eich bod yn meddwl nad yw rhai o'r rhain yn cynnig gwerth da am arian, ond os oes gennych unrhyw honiadau i'r perwyl hwnnw, y byddai modd cael gwell gwerth am arian mewn ffordd arall ar yr un pryd â diwallu'r un angen, byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn ysgrifennu ataf ynghylch hynny.

**Peter Black:** Brif Weinidog, rhaid croesawu'r arian ychwanegol a roddir i fynd i'r afael â thrais yn y cartref, ynghyd â'r strategaeth. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth anecdotaidd o fenywod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoedd mewn hosteli pan fyddant yn dioddef trais yn y cartref, yn enwedig pan fydd gan y menywod hynny broblemau cyffuriau neu alcohol eu hunain. Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i fynd i'r afael â'r broblem honno?

**Y Prif Weinidog:** Y nod o ran nifer y lleoedd mewn hosteli fydd y cyfartaledd ac ychydig bach dros ben hynny, felly os bydd cynnydd yn y galw ar benwythnos penodol, er enghraifft, ni allwch fyth fod yn siŵr y bydd digon o welyau; mae'n debyg mai oherwydd hyn y ceir y dystiolaeth anecdotaidd honno. Ymchwiliad i weld a oes digon o welyau'n cael eu darparu'n gyffredinol, ar gyfartaledd, ac a yw rheolau sy'n orfanwl, fel yr wyf yn meddwl eich bod yn awgrymu, yn golygu na roddir gwely i bobl sy'n haeddu cael help pan fydd lle ar gael mewn hostel.

#### Blaenoriaethau ar gyfer Deintyddiaeth

**Q7 Jenny Randerson:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for dentistry in Wales? OAQ(3)0908(FM)

**The First Minister:** The No. 1 priority is to deal with the last, small parts of Pembrokeshire and Anglesey where it is still not possible to get dentistry on the NHS. We also want to strengthen the community dental service, and develop more of a public-health focus for the dental service.

**Jenny Randerson:** You have a rather different view of the dental service in Wales to the one that the statistics suggest to me. One of the ironies is that many people still cannot get an NHS dentist, yet, at the same time, we have qualified dentists, trained in Wales, who cannot get a job here. The new dental practices, as you know, are larger contractors, many of which employ foreign dentists, who may well go home in time. I have a specific case to raise with you of an established dental practice in north Gwynedd, which, contrary to your suggestion, is an area with a severe shortage of NHS dentists. The practice concerned says that it receives about 40 calls a day from people wishing to enrol, so it wished to expand. It was recently turned down for expansion, despite the fact that it had a dentist ready and willing to take up a post. The money instead went to south Gwynedd, which, you will understand, is not easily accessible for people living in the north. What measures is your Government planning to take to ensure that we have a more strategic and long-term approach to the solution to the dentistry crisis of the last decade or so?

**The First Minister:** You seem to be contesting what I said, and you referred to statistics suggesting otherwise, but you did not mention any statistics. I would be grateful if you could write to me with details, and I will try to ensure that your statistics are publicised in the Members' Library; you chose not to mention them, which makes me

**C7 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer deintyddiaeth yng Nghymru? OAQ(3)0908(FM)

**Y Prif Weinidog:** Y flaenoriaeth gyntaf yw delio â'r rhannau bach, olaf o sir Benfro ac Ynys Môn lle nad yw'n bosibl cael deintyddiaeth ar y GIG o hyd. Yr ydym hefyd am gryfhau'r gwasanaethau deintyddol cymunedol, a datblygu gwell ffocws o ran iechyd y cyhoedd ar gyfer y gwasanaeth deintyddol.

**Jenny Randerson:** Mae eich barn chi am y gwasanaeth deintyddol yng Nghymru yn dra gwahanol i'r hyn a awgrymir i mi gan yr ystadegau. Un o'r pethau eironig yw bod llawer o bobl yn dal i fethu cael deintydd GIG, ac eto, ar yr un pryd, mae gennym ddeintyddion cymwysedig, wedi'u hyfforddi yng Nghymru, na allant gael swydd yma. Mae'r practisau deintyddol newydd, fel y gwyddoch, yn gontractwyr mwy, ac mae nifer ohonynt yn cyflogi deintyddion tramor, a all ddychwelyd adref ymhen amser. Mae gennyf achos penodol i'w godi gyda chi ynghylch practis deintyddol yng ngogledd Gwynedd sydd wedi hen ennill ei blwyf ac sydd, yn groes i'ch awgrym chi, mewn ardal lle y ceir prinder difrifol o ddeintyddion GIG. Mae'r practis dan sylw yn dweud ei fod yn cael tua 40 o alwadau bob dydd gan bobl sy'n dymuno cofrestru, felly yr oedd yn dymuno ehangu. Gwrthodwyd ei gais i ehangu yn ddiweddar, er bod ganddo ddeintydd a oedd yn fodlon ac yn barod i lenwi'r swydd. Yn lle hynny aeth yr arian i dde Gwynedd, nad yw, fel yr ydych yn deall, o fewn cyrraedd hwylus iawn i bobl sy'n byw yn y gogledd. Pa gamau y mae eich Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod gennym ddull sy'n fwy strategol a hirdymor o ymdrin â'r ateb i'r argyfwng deintyddiaeth yn ystod y degawd diwethaf?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n ymddangos eich bod yn amau'r hyn a ddywedais, a chyfeiriasoch at ystadegau a oedd yn awgrymu fel arall, ond ni soniasoch am ystadegau. Byddwn yn ddiolchgar petai modd ichi ysgrifennu ataf gyda'r manylion, a cheisiaf sicrhau bod eich ystadegau'n cael eu cyhoeddi yn Llyfrgell yr Aelodau;

ever so slightly suspicious that you do not have any. You mentioned a particular case from Gwynedd; you are right in that it is a big, sprawling county and there is major investment in Dolgellau. However, from the information that we have received from the local health boards, it is in corners of Pembrokeshire and corners of Anglesey that those who want NHS dentistry cannot access an NHS dentist. That is not to say that you might not have an example in a rural county, if we are investing in Whitland or Dolgellau, say, of an offer being made that involves a journey. I think that Edwina Hart last week opened two new dental practices for 14,000 patients in Haverfordwest and Milford Haven, but there are other parts of Pembrokeshire that are a long way from Haverfordwest or Milford Haven. However, every LHB, barring Pembrokeshire and Anglesey, says that you can get an NHS dentist if you want one.

**Lesley Griffiths:** First Minister, earlier this year, the Government initiated a scheme to give all children in Wales aged between three and five free toothbrushes and fluoride toothpaste as part of the fight against tooth decay. It is now widely recognised that fluoride toothpaste brings huge savings to the NHS, because dentists have to perform fewer fillings and extractions on our children. Will you and your Government, therefore, consider supporting me in calling on the Chancellor of the Exchequer to remove value added tax from fluoride toothpaste, to help and encourage parents to join the Government in the fight against tooth decay?

**The First Minister:** We still have above-average tooth decay among Welsh children generally, so we have to undertake a number of special steps to try to bring the oral health of our children up to the UK or European average or better. Undoubtedly, the supply of free toothbrushes and fluoride toothpaste in nursery schools and so on is an important initiative that we hope will help in the battle to bring the oral health of our children up to scratch. On the question of approaching the Chancellor of the Exchequer, if you were to approach me, I would be happy to send a

dewisasoch beidio â'u crybwyll, sydd yn gwneud imi amau nad oes gennych rai. Soniasoch am achos penodol o Wynedd; yr ydych yn iawn bod honno'n sir fawr wasgarog a bod llawer o fuddsoddi yn Nolgellau. Fodd bynnag, yn ôl y wybodaeth yr ydym wedi'i chael gan y byrddau iechyd lleol, mewn corneli yn sir Benfro ac yn Ynys Môn y mae'r ardaloedd lle na all pobl y mae arnynt eisiau deintyddiaeth GIG gael deintydd GIG. Nid yw hynny'n golygu na fyddai gennych enghraifft mewn sir wledig efallai, os ydym yn buddsoddi yn Hendy-gwyn ar Daf neu yn Nolgellau, dyweder, fod cynnig yn cael ei wneud sy'n golygu teithio. Yr wyf yn meddwl bod Edwina Hart wedi agor dau bractis deintyddol newydd yr wythnos diwethaf ar gyfer 14,000 o gleifion yn Hwlfordd ac yn Aberdaugleddau, ond mae rhannau eraill o sir Benfro sydd gryn bellter o Hwlfordd neu Aberdaugleddau. Fodd bynnag, mae pob BILL, ac eithrio sir Benfro ac Ynys Môn, yn dweud y gallwch gael deintydd GIG os oes arnoch eisiau un.

**Lesley Griffiths:** Brif Weinidog, yn gynharach eleni, dechreuodd y Llywodraeth gynllun i roi brwsys dannedd a phast dannedd fflworid am ddim i'r holl blant rhwng tair a phump oed yng Nghymru fel rhan o'r frwydr yn erbyn pydredd dannedd. Caiff ei gydnabod yn eang yn awr fod past dannedd fflworid yn sicrhau arbedion anferth i'r GIG, oherwydd bod yn rhaid i ddeintyddion lenwi llai o ddannedd a thynnu llai o ddannedd ein plant. A wnewch chi a'ch Llywodraeth, felly, ystyried fy nghefnogi wrth imi alw ar Ganghellor y Trysorlys i dynnu treth ar werth oddi ar bast dannedd fflworid, i helpu ac annog rhieni i ymuno â'r Llywodraeth yn y frwydr yn erbyn pydredd dannedd?

**Y Prif Weinidog:** Mae'r pydredd dannedd ymysg plant Cymru'n gyffredinol yn dal yn uwch na'r cyfartaledd, felly rhaid inni gymryd nifer o gamau arbennig i geisio dod ag iechyd y geg ymysg ein plant i fyny at gyfartaledd y DU neu at y cyfartaledd Ewropeaidd neu well. Yn ddiau, mae cyflenwi brwsys dannedd a phast dannedd fflworid am ddim mewn ysgolion meithrin ac yn y blaen yn gynllun pwysig a fydd, gobeithiwn, yn helpu yn y frwydr i wella safon iechyd y geg ymysg ein plant. O ran mynd at Ganghellor y Trysorlys, petaech yn

letter to the Chancellor as soon as possible about the removal of VAT on the key area of better oral health for children.

dod ataf, byddwn yn fodlon anfon llythyr at y Canghellor cyn gynted ag sy'n bosibl ynghylch tynnu TAW oddi ar y maes allweddol hwnnw sef gwell iechyd y geg ar gyfer plant.

2.40 p.m.

**Jonathan Morgan:** First Minister, going back to the answer that you gave to Jenny Randerson, I remember that, when the new dental contract was introduced, you and your Minister for Health and Social Services told the Assembly that everyone in Wales who needed access to an NHS dentist would get it. The fact of the matter is that, in Pembrokeshire, there are now more than 8,000 people on a waiting list to see an NHS dentist. In light of the promise that you made to the people of Wales, are you now going to revise that pledge? If not, will you give people in Pembrokeshire and other parts of Wales an indication of when they can expect access to an NHS dentist, as your party promised?

**The First Minister:** That quotation was not correct, Jonathan. What I said in this exact place—and Jenny Randerson tried to rearrange my words straight away, because she thought, ‘Let us have a little tee-hee moment over this’—was that the service was promising us that the additional money that we put in, the extra £40 million, should be enough to ensure that everyone in Wales who wanted an NHS dentist would get one. It is true that there are still some small corners of Wales where that has not been achieved, which we regret. In Pembrokeshire, I was pleased that Edwina Hart opened two new NHS dentistry centres in Haverfordwest and Milford Haven. We accept that it has not been achieved in Ynys Môn and Pembrokeshire. We share everyone’s disappointment. That is not a broken promise; that was Jenny Randerson playing games by rearranging my words.

### Hybu'r Celfyddydau

**C8 Nerys Evans:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â gwaith y Llywodraeth i hybu'r celfyddydau yng Nghanolbarth a

**Jonathan Morgan:** Brif Weinidog, gan fynd yn ôl at yr ateb a roesoch i Jenny Randerson, cofiaf i chi a'ch Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddweud wrth y Cynulliad, pan gyflwynwyd y contract deintyddol newydd, y byddai pawb yng Nghymru y byddai angen mynediad at ddeintydd GIG arnynt yn cael hynny. Y gwir amdani yn sir Benfro yw bod dros 8,000 o bobl bellach ar restr aros i weld deintydd GIG. Ac ystyried yr addewid a wnaethoch i bobl Cymru, a ydych yn awr am ddiwygio'r addewid hwnnw? Os nad ydych, a roddwch ryw syniad i bobl yn sir Benfro ac mewn rhannau eraill o Gymru pryd y gallant ddisgwyl cael mynd at ddeintydd GIG, fel yr addawodd eich plaid.

**Y Prif Weinidog:** Nid oedd y dyfyniad hwnnw'n gywir, Jonathan. Yr hyn a ddywedais yn yr union leoliad hwn—a cheisiodd Jenny Randerson aildrefnu fy ngeiriau ar unwaith, oherwydd yr oedd hi'n meddwl, ‘Gadewch inni gael cyfle bach i chwerrthin am hyn’—oedd bod y gwasanaeth yn addo inni y dylai'r arian ychwanegol yr ydym yn ei fuddsoddi, y £40 miliwn ychwanegol, fod yn ddigon i sicrhau bod pawb yng Nghymru yr oedd arnynt eisiau deintydd GIG yn cael hynny. Mae'n wir bod ambell gornel fach o Gymru lle na chyflawnwyd hynny, ac mae'n flin gennym am hynny. Yn sir Benfro, yr oeddwn yn falch bod Edwina Hart wedi agor dwy ganolfan deintyddiaeth GIG newydd yn Hwlfordd ac yn Aberdaugleddau. Yr ydym yn derbyn nad yw hyn wedi cael ei gyflawni yn Ynys Môn ac yn sir Benfro. Yr ydym ninnau, fel pawb arall, yn siomedig. Nid addewid sydd wedi'i dorri yw hynny; Jenny Randerson oedd yn chwarae gemau drwy aildrefnu fy ngeiriau.

### Promoting the Arts

**Q8 Nerys Evans:** Will the First Minister make a statement regarding the Welsh Assembly Government's work to promote the

Gorllewin Cymru? OAQ(3)0916(FM)

arts in Mid and West Wales?  
OAQ(3)0916(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gweithio drwy, a chyda, Cyngor Celfyddydau Cymru er mwyn hybu a chefnogi'r celfyddydau ledled Cymru, gan gynnwys yng nghanolbarth a gorllewin Cymru. Yn ôl yr ystadegau diweddaraf sydd gennym, ar gyfer y llynedd, clustnodwyd £5 miliwn i'r pwrpas hwn yng nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

**The First Minister:** We work through and with the Arts Council of Wales in order to promote and support the arts throughout Wales, including in mid and west Wales. According to the latest statistics, for last year, £5 million was earmarked for this purpose in mid and west Wales.

**Nerys Evans:** Mae'r toriadau diweddar yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru a'r effaith ar fudiadau celfyddydol yng ngorllewin Cymru yn benodol yn destun pryder mawr. Mae cwestiynau wedi codi ynglŷn â gallu cyngor y celfyddydau i gyfathrebu yn effeithiol a deall natur cyrff celfyddydol a diwylliannol dwyieithog a chyrrff cefn gwlad. Beth yw eich barn chi ynglŷn â strwythur presennol cyngor y celfyddydau? A ydych yn credu ei fod yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu anghenion celfyddydol a diwylliannol pob rhan o Gymru, yn benodol ein cymunedau Cymraeg eu hiaith a'n cymunedau cefn gwlad?

**Nerys Evans:** The recent cuts in the Arts Council of Wales's budget and the impact on arts organisations are a cause of great concern, specifically in west Wales. Questions have been raised regarding the arts council's ability to communicate effectively and to understand the nature of bilingual arts and culture organisations and rural organisations. What is your opinion on the arts council's current structure? Do you believe that it reflects and serves the artistic and cultural needs of every part of Wales, and specifically our Welsh-speaking communities and rural communities?

**Y Prif Weinidog:** Gobeithiaf fod Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i fod yn sensitif i anghenion Cymru wledig, yn yr un modd â dinasodded a threfi Cymru a'r Cymoedd. Os oes problemau, gobeithiaf fod ganddo'r strwythurau i ganiatáu i bobl herio ei benderfyniadau drwy system apêl. Mae hwnnw'n gwestiwn sensitif ac amserol, gan fod yr apeliadau sydd wedi eu gosod yn cael eu clywed ar 25 Ebrill. Felly, efallai y bydd newyddion da i rai a newyddion drwg i eraill mewn perthynas ag apeliadau yn erbyn y toriadau neu'r penderfyniad i beidio ag ariannu rhai cyrff. Credaf mai pedwar corff ym maes y celfyddydau yn y gorllewin a'r canolbarth sydd heb eu hariannu. Maent wedi apelio, a chawn glywed y dyfarniad mewn ychydig ddiwrnodau.

**The First Minister:** I hope that the Arts Council of Wales continues to be sensitive to the needs of rural Wales, in the same way as it is to the needs of Wales's cities and towns and the Valleys. If there are problems, I hope that it has the structures to enable people to challenge its decisions through an appeal system. That is a sensitive and timely question, since the appeals that have been submitted are to be heard on 25 April. Therefore, there may be good news for some and bad news for others, in relation to appeals against the cuts or the decision not to fund some organisations. I believe that there are four arts organisations in mid and west Wales that have not been given funding. They have appealed, and the ruling will be made in a few days.

**Paul Davies:** Yr wyf yn siŵr fod y Prif Weinidog yn gwybod bod Theatr y Torch yn fy etholaeth i newydd gael gweddnewidiad. Bydd hyn yn help enfawr i hybu'r celfyddydau yn fy ardal i. Mae hybu'r celfyddydau mewn ysgolion hefyd yn hollbwysig i'w dyfodol. Sut mae'r Llywodraeth yn gwneud hyn, a pha

**Paul Davies:** I am sure that the First Minister is aware that the Torch Theatre in my constituency has just been revamped. This will be a huge boost to promote the arts in my area. Promoting the arts in schools is also vital for the future of the arts. How is the Government achieving this, and what specific schemes does it have, particularly for schools

gynlluniau penodol sydd ganddi, yn enwedig in west Wales?  
mewn ysgolion yng ngorllewin Cymru?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n rhaid i mi ystyried pwy sy'n gyfrifol am hybu celf mewn ysgolion—y Gweinidog dros Dreftadaeth ynteu'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Mae'n gallu bod yn agwedd ar y cwricwlwm, sy'n amlwg yn fater i'r Gweinidog dros addysg, ond gall hefyd olygu adloniant a phethau sydd ar ymylon yr ysgol ac sydd y tu allan i'r cwricwlwm; efallai fod hynny'n dod o dan ymbarél diwylliant. Byddaf yn ystyried hynny ac yn gofyn i'r Gweinidog perthnasol ateb eich cwestiwn.

**The First Minister:** I have to consider who is responsible for promoting the arts in schools—the Minister for Heritage or the Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. It can be an aspect of the curriculum, which is clearly a matter for the Minister for education, but it can also mean entertainment and extra-curricular activities on the school fringes; perhaps that would come under the culture umbrella. I will consider that, and I will ask the relevant Minister to reply to your question.

### Priorities for the Transport Portfolio

**Q9 Andrew R.T. Davies:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for the transport portfolio in South Wales Central? OAQ(3)0919(FM)

**The First Minister:** The major priorities are the commencement of the construction of the Church Village bypass, for which £18 million has been put into Rhondda Cynon Taf County Borough Council's budget; improving the frequency of train services between Pontypridd and Merthyr, in which we have invested £19 million; and, although it is only part-funded by us, a large scheme known as the Cardiff area signalling renewal project, which covers the area from Aberthaw through to Caerphilly, via Cardiff Central and Cardiff Queen Street stations.

**Andrew R.T. Davies:** One of the key assets that we have in the South Wales Central area is Cardiff international airport. Last week, the Office for National Statistics released figures that showed that the number of overseas visitors coming to Wales has declined by 10 per cent. We lack a major carrier flying into Cardiff, bringing passengers who would help the tourism industry throughout Wales, and particularly South Wales Central. What efforts is your Government making, through its transport and tourism departments, to work with the airport on this issue? The absence of a major carrier flying to Cardiff is

### Blaenoriaethau ar gyfer y Portffolio Trafnidiaeth

**C9 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y portffolio trafndiaeth yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)0919(FM)

**Y Prif Weinidog:** Y prif flaenoriaethau yw dechrau adeiladu ffordd osgoi Gartholwg, ac mae £18 miliwn wedi cael ei roi yng nghyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer hynny; gwella amllder gwasanaethau trên rhwng Pontypridd a Merthyr Tudful, yr ydym wedi buddsoddi £19 miliwn ar gyfer hynny; a chynllun mawr arall, er mai dim ond rhan ohono y byddwn yn ei gyllido, sef prosiect adnewyddu signalau yn ardal Caerdydd, sy'n cynnwys yr ardal o Aberddawan i Gaerffili, drwy orsafoedd Canol Caerdydd a Stryd y Frenhines.

**Andrew R.T. Davies:** Un o'r asedau allweddol sydd gennym yn ardal Canol De Cymru yw maes awyr rhyngwladol Caerdydd. Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ffigurau a ddangosai fod nifer yr ymwelwyr tramor sy'n dod i Gymru wedi gostwng 10 y cant. Nid oes gennym gwmni awyrennau mawr sy'n hedfan i Gaerdydd, gan gludo teithwyr a fyddai'n helpu'r diwydiant twristiaeth ledled Cymru, a Chanol De Cymru'n benodol. Pa ymdrechion y mae eich Llywodraeth yn eu gwneud, drwy ei hadrannau trafndiaeth a thwristiaeth, i weithio gyda'r maes awyr ar y



not due to any lack of effort on the airport's part, but is the result of severe competition with other regional airports across the UK.

**The First Minister:** We have the route development fund, which could be used for that purpose, and we have had some substantial successes through the use of that fund. However, I doubt whether the number of visitors arriving in Wales is that closely linked to the number of visitors overall, because Wales is not like Majorca, where you can put an airport in Palma, and huge numbers fly in from Germany and the UK. Most overseas visitors who come to Wales do not come via that route; they come via Heathrow or Gatwick and then spend their time doing a kind of run around the UK or Europe. We need Wales to be part of that milk-run, if you like, along with Stratford-upon-Avon, Edinburgh, London, Oxford and Cambridge.

**Christine Chapman:** You will be aware that, not so long ago, Aberdare train station in my constituency received a much-needed platform extension, and trains using the station had an additional five carriages to ease congestion during busy rush-hour periods. That was welcomed by many of my constituents who commute to Cardiff on a daily basis. However, as you know, those additional carriages acquired by Arriva Trains Wales have been leased to First Great Western to provide additional capacity and to ease congestion on the Cardiff to Portsmouth Harbour route. At a time when we are working to regenerate and revitalise the Heads of the Valleys area, the loss of any extra investment in service provision is a great blow, and many of my constituents are concerned. What assurances can you give that the Assembly Government will keep under review capacity needs on the Valleys lines?

**The First Minister:** When you have a

mater hwn? Nid diffyg ymdrech ar ran y maes awyr yw'r rheswm pam nad oes cwmni awyrennau mawr yn hedfan i Gaerdydd, ond yn hytrach mae'n deillio o gystadleuaeth gref gan feysydd awyr rhanbarthol eraill ledled y DU.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r gronfa datblygu llwybrau awyr gennym, y gellid ei defnyddio at y diben hwnnw, ac yr ydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant sylweddol drwy ddefnyddio'r gronfa honno. Fodd bynnag, yr wyf yn amau a oes cysylltiad agos rhwng nifer yr ymwelwyr sy'n glanio yng Nghymru a nifer yr ymwelwyr sy'n dod i Gymru'n gyffredinol, oherwydd nid yw Cymru fel Majorca, lle y gallwch roi maes awyr yn Palma, a bydd niferoedd mawr yn hedfan i mewn o'r Almaen ac o'r DU. Nid yw'r rhan fwyaf o ymwelwyr tramor sy'n dod i Gymru yn defnyddio'r llwybr hwnnw; maent yn dod drwy Heathrow neu Gatwick ac yna'n treulio'u hamser yn teithio o amgylch y DU neu Ewrop. Mae angen inni sicrhau bod Cymru'n rhan o'r gylchdaith honno, os dymunwch, gyda Stratford-upon-Avon, Caeredin, Llundain, Rhydychen a Chaergrawnt.

**Christine Chapman:** Byddwch yn ymwybodol bod gorsaf drenau Aberdâr yn fy etholaeth, beth amser yn ôl, wedi cael estyniad yr oedd gwir angen amdano i'r platform, a chafodd trenau a ddefnyddiai'r orsaf bum cerbyd ychwanegol i leddfu'r tagfeydd yn ystod yr oriau brig prysuraf. Croesawyd hynny gan lawer o'm hetholwyr sy'n teithio i Gaerdydd i'r gwaith yn feunyddiol. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, mae'r cerbydau ychwanegol hynny a brynwyd gan Drenau Arriva Cymru wedi cael eu lesio i First Great Western i gario mwy o deithwyr ac i leddfu tagfeydd ar y rheilffordd rhwng Caerdydd a Harbwr Portsmouth. A ninnau wrthi'n gweithio i adfywio a rhoi bywyd newydd i ardal Blaenau'r Cymoedd, mae colli unrhyw fuddsoddiad ychwanegol yn narpariaeth gwasanaeth yn ergyd drom, ac mae llawer o'm hetholwyr yn poeni. Pa sicrwydd y gallwch ei roi y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gadw golwg ar yr anghenion o ran niferoedd y teithwyr ar reilffyrdd y Cymoedd?

**Y Prif Weinidog:** Pan gewch lwyddiant

roaring success like rail passenger transport in Wales and in the rest of the UK, you hit capacity constraints. You do not have enough carriages, so people living nearer the destination cannot get on the trains. Then, if you put extra carriages on, you find that you do not have long enough platforms, and if you lengthen the platforms, you find that there are signalling restrictions at pinchpoints such as those north of Queen Street station and at Cogan junction. There is that knock-on effect—you have to have more carriages, then longer stations, then signalling improvements. We are providing that because there is demand for rail travel—and it is no surprise with petrol being the price that it is—and that demand will continue to grow for as long as petrol remains as expensive as it is and employment remains as high as it is.

**Chris Franks:** I recently visited Ynysybwl to see the excellent cycling track that runs towards Cardiff. What can the Assembly Government do to encourage that kind of sustainable transport? Would you agree that having SmartBikes in Cardiff would be a good idea for the development of our communities?

**The First Minister:** I am all in favour of any initiative that gets more people onto a bike, because cycling is good for your health, it is a sustainable means of transport, it enables people to bypass traffic jams in commuting areas, and it is great fun.

#### Strategy to Safeguard the Environment

**Q10 Darren Millar:** Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's strategy to safeguard the environment in Wales? OAQ(3)0919(FM)

**The First Minister:** We published our plan in May 2006, and that set out a vision for action on how to enhance the environment. A new action plan has been developed and builds on the significant work that has been undertaken to progress the environment strategy.

ysgubol fel cludo teithwyr ar drenau yng Nghymru ac yng ngweddill y DU, byddwch yn dod ar draws cyfyngiadau o ran niferoedd. Nid oes gennych ddigon o gerbydau, felly ni all pobl sy'n byw'n agosach at ben y daith gael lle ar y trenau. Yna, os ydych yn ychwanegu rhagor o gerbydau, sylweddolwch nad oes gennych blatfformau digon hir, ac os ydych yn ymestyn y platfformau, byddwch yn dod ar draws cyfyngiadau o ran y signalau mewn llecynnau prysur megis y rheini i'r gogledd o orsaf Stryd y Frenhines ac wrth gyffordd Cogan. Ceir effaith ganlyniadol—rhaid ichi gael mwy o gerbydau, yna gorsafod hwy, ac yna gwelliannau i'r signalau. Yr ydym yn darparu hynny oherwydd y mae galw am deithio ar drenau—ac nid oes ryfedd a chofio bod pris petrol fel ag y mae—a bydd y galw hwnnw'n parhau i dyfu os yw pris petrol yn aros yr un mor ddrud ac os yw cyflogaeth yn aros yr un mor uchel.

**Chris Franks:** Ymwelais ag Ynys-y-bwl yn ddiweddar i weld y llwybr seiclo ardderchog sy'n arwain i Gaerdydd. Beth y gall Llywodraeth y Cynulliad ei wneud i annog y math hwnnw o drafnidiaeth gynaliadwy? A fydddech yn cytuno y byddai cael SmartBikes yng Nghaerdydd yn syniad da er mwyn datblygu ein cymunedau?

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf o blaid unrhyw gynllun sy'n denu mwy o bobl ar gefn beic, oherwydd y mae seiclo'n lles i'ch iechyd, mae'n ddull cynaliadwy o deithio, mae'n galluogi pobl i osgoi'r tagfeydd traffig mewn ardaloedd lle y mae pobl yn cymudo, ac mae'n llawer iawn o hwyl.

#### Strategaeth i Ddiogelu'r Amgylchedd

**C10 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru? OAQ(3)0919(FM)

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddassom ein cynllun ym mis Mai 2006, a chyflwynwyd yn y cynllun hwnnw weledigaeth ar gyfer cymryd camau i wella'r amgylchedd. Mae cynllun gweithredu newydd wedi cael ei lunio ac mae'n adeiladu ar y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud i hyrwyddo'r strategaeth amgylcheddol.

2.50 p.m.

**Darren Millar:** One of the pillars of your campaign for the environment in Wales is the proposed environmental protection and waste management legislative competence Order. Will you give an update on the embarrassing row that has broken out between the Welsh Assembly Government and the UK Government at Westminster, and tell us why this legislative competence Order has stalled since November 2007, when the committee finished its scrutiny on the matter?

**The First Minister:** I understand the need to make partisan points when elections are to be held in 10 days' time, but to say that something is embarrassing when it is the subject of negotiation with a Westminster department just shows that you are more interested in making a partisan point than in solving a problem, Darren. We do not hide the fact that we have long, tortuous and sometimes difficult negotiations on some of these legislative competence Orders because two Westminster departments—in this case, because of the regulatory aspects, the Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform, which is the old Department of Trade and Industry, and the Department for Environment, Food and Rural Affairs—have to be persuaded that a package of legislative competence can be put together and transferred to us, which may take months to achieve. However, we are sticking at it and are confident of success. Most of the major blockages have been received. Therefore, if you are interested in the outcome, you do not have to throw in these adjectives to try to double-make a point just because an election is forthcoming. You should try to concentrate on how to solve the problem.

**Leanne Wood:** I do not need to state the importance of allotments to the environment. Rhondda Cynon Taf County Borough Council has badly let down the allotment-holders and the users of the riding school for disabled people at Haigside in Treherbert. The Member of Parliament for Rhondda, who, incidentally, boosts Plaid Cymru's support each time he opens his New Labour

**Darren Millar:** Un o gonglfeini eich ymgyrch ar gyfer yr amgylchedd yng Nghymru yw'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig ynghylch diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff. A wnewch roi'r newyddion diweddaraf am y ffrae chwithig sydd wedi codi rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU yn San Steffan, ac egluro wrthym pam mae'r holl oedi gyda'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol hwn ers mis Tachwedd 2007, pan orffennodd y pwyllgor graffu ar y mater?

**Y Prif Weinidog:** Deallaf yr angen i wneud pwyntiau pleidiol gan fod etholiadau mewn 10 diwrnod, ond wrth i chi ddweud bod rhywbeth yn chwithig ac yntau'n cael ei drafod gydag adran yn San Steffan, mae'n dangos bod eich bryd ar wneud pwynt pleidiol yn hytrach na cheisio datrys problem, Darren. Nid ydym yn celu'r ffaith ein bod yn cynnal trafodaethau hir, llafurus ac anodd ar brydiau ynghylch rhai o'r Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol hyn oherwydd bod angen perswadio dwy adran yn San Steffan—yn yr achos hwn, oherwydd yr agweddau'n ymwneud â rheoleiddio, yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio, sef yr hen Adran Masnach a Diwydiant, ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig—y gellid llunio pecyn o gymhwysedd deddfwriaethol a'i drosglwyddo inni, a all gymryd misoedd i'w gyflawni. Fodd bynnag, yr ydym yn dal ati ac yn hyderus y byddwn yn llwyddo. Mae'r rhan fwyaf o'r prif rwystrau wedi eu derbyn. Felly, os oes gennych ddiddordeb yn y canlyniad, nid oes rhaid ichi daflu'r ansoddeiriau hyn atom i geisio ategu pwynt, a hynny oherwydd bod etholiad ar y gorwel. Dylech geisio canolbwyntio ar sut y mae datrys y broblem.

**Leanne Wood:** Nid oes angen imi dynnu eich sylw at bwysigrwydd rhandiroedd i'r amgylchedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi gwneud tro gwael â deiliaid rhandiroedd a'r rhai sy'n defnyddio'r ysgol farchogaeth i bobl anabl yn Haigside, Treherbert. Mae erthygl yn y *Western Mail* heddiw gan Aelod Seneddol y Rhondda, sydd gyda llaw, yn rhoi hwb i'r

mouth, has an article in today's *Western Mail* claiming that Rhondda Cynon Taf County Borough Council is doing a reasonably good job. Do you think that the Haigside allotment-holders and users of the riding school for the disabled, who face eviction this Friday, will see their MP's remarks as some kind of sick joke?

**The First Minister:** I know that there are elections in which Labour is head to head with Plaid Cymru in one or two parts of Wales, therefore you can have partisan points coming from all directions at this time of the year. Individual matters of policy on allotments and decisions on what land should be allocated to whom are not matters for the Assembly Government but for local government. People will make their minds up locally. As there are elections forthcoming, people can make their points on the doorstep. If you want to go out to support the candidates that you have, that is fine. I am not sure whether it is right to expect it to be debated here.

#### Supporting Higher Education

**Q11 Lesley Griffiths:** What is the Welsh Assembly Government doing to support higher education in Wales?  
OAQ(3)0918(FM)

**The First Minister:** I talked about roaring successes earlier in relation to rail transport. Another roaring success is North East Wales Institute of Higher Education, which we can congratulate on being granted university status, which means the assumption of degree-awarding powers. It is a great move forward. I understand that names are being considered by the Privy Council and by NEWI. That comes on top of the great success in further education, at Yale College, which Lesley Griffiths and I visited last week.

**Lesley Griffiths:** I also invite you to join me in congratulating Professor Mike Scott, his staff and the academic board of governors on securing this great achievement. Do you agree that not only is it an achievement for Wrexham, but for the whole of Wales?

gefnogaeth dros Blaid Cymru bob tro y mae'n agor ei geg dros Lafur Newydd, yn honni bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwneud gwaith eithaf da. A ydych yn credu y bydd deiliaid rhandiroedd a defnyddwyr yr ysgol farchogaeth i bobl anabl, sy'n cael eu troi allan ddydd Gwener, yn teimlo bod sylwadau eu Haelod Seneddol yn jôc ddi-chwaeth?

**Y Prif Weinidog:** Gwn fod etholiadau lle y mae Llafur yn mynd benben â Phlaid Cymru mewn un neu ddwy o rannau o Gymru, felly gallwch glywed pwyntiau pleidiol o bob cyfeiriad yr adeg hon o'r flwyddyn. Nid mater i Lywodraeth y Cynulliad yw materion unigol sy'n ymwneud â pholisi ar randiroedd ac â phenderfyniadau ynghylch pa dir a ddylai gael ei ddyrannu i bwy. Mater i lywodraeth leol ydyw. Bydd pobl yn gwneud eu penderfyniad yn lleol. Gan fod etholiadau ar y gorwel, gall pobl wneud eu pwyntiau ar garreg y drws. Os ydych am fynd allan i gefnogi eich ymgeiswyr, yna mae hynny'n iawn. Nid wyf yn siŵr a yw'n briodol disgwyl i hynny gael ei drafod yma.

#### Cefnogi Addysg Uwch

**C11 Lesley Griffiths:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi addysg uwch yng Nghymru?  
OAQ(3)0918(FM)

**Y Prif Weinidog:** Soniais yn gynharach am llwyddiant ysgubol trafndiaeth rheilffyrdd. Llwyddiant ysgubol arall yw Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru, y gallwn ei longyfarch am gael statws prifysgol, sy'n golygu y bydd yn cael pwerau i ddyfarnu graddau. Mae'n gam da iawn ymlaen. Deallaf fod y Cyfrin Gyngor a NEWI yn ystyried enwau. Daw hynny ar ben y llwyddiannau rhagorol mewn addysg bellach, yng Ngholeg Iâl, yr ymwelais ag ef yr wythnos diwethaf gyda Lesley Griffiths.

**Lesley Griffiths:** Hoffwn eich gwahodd hefyd i ymuno â mi i longyfarch yr Athro Mike Scott, ei staff a'r bwrdd llywodraethwyr academiaidd ar gyflawni'r llwyddiant gwych hwn. A ydych yn cytuno nad llwyddiant i Wrecsam yn unig yw hyn, ond llwyddiant i Gymru gyfan?

**The First Minister:** It is the most recent institution in Wales to be granted university status. It is located in one part of Wales that has never had a university. Now that the institute has been granted university status, I am sure that NEWI will go from strength to strength. It has been a matter of considerable priority for us and for the Higher Education Funding Council for Wales to get NEWI over the humps so that it could reach that quality of teaching that enables it to have taught-degree-awarding powers. Now that the college has finally achieved that, it needs to be congratulated. It can then market itself and recruit students and staff as a degree-awarding institution, which will be good for north-east Wales. It also completes the missing link in the university system in Wales.

**Mark Isherwood:** We join you in your congratulations, which I was happy to deliver in person to Mike Scott yesterday and frequently before that. We must all look forward to the Privy Council decision on full university status coming as soon as is practicable.

I will call it 'the new university' because the name, although we all know it, cannot be spoken until it is formally approved. The new university aspires to be a university not just for Wrexham, but for the region. Will your Government engage with Professor Mike Scott and his team on their detailed proposals for curriculum, infrastructure and management in Flintshire and other parts of the region?

**The First Minister:** To be truly effective, every university must reach out beyond the town or city in which it is located, and I am sure that Wrexham will be conscious of the need to recruit students from over the border in Cheshire, because more than a million people live there. It is one of the largest and most populous counties in England, and it has a high number of people aged 18 or 19 who are potential university material. It is a big recruiting ground. I hope that people will realise that the chances of getting a good degree at Wrexham are good. One of the reasons why they are good is the strong

**Y Prif Weinidog:** Dyma'r sefydliad diweddaraf yng Nghymru i gael statws prifysgol. Mae ei leoliad mewn rhan o Gymru na chafodd brifysgol erioed. Gan fod y sefydliad bellach wedi cael statws prifysgol, yr wyf yn siŵr y bydd NEWI yn mynd o nerth i nerth. Mae hwn wedi bod yn fater yr ydym ni a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi rhoi cryn flaenoriaeth iddo er mwyn rhoi hwb i NEWI fel y gallai gyrraedd yr ansawdd hwnnw o addysgu er mwyn cael pwerau i ddyfarnu graddau. Gan fod y coleg bellach wedi cyflawni hynny o'r diwedd, mae angen ei longyfarch. Yna, gall farchnata ei hun a recriwtio myfyrwyr a staff fel sefydliad sy'n dyfarnu graddau, a fydd yn fuddiol i'r gogledd-ddwyrain. Mae hefyd yn llenwi'r bwlch yn y gadwyn yn y system prifysgolion yng Nghymru.

**Mark Isherwood:** Ymunwn â chi yn eich llongyfarchiadau, sef rhywbeth yr oeddwn wrth fy modd yn eu cyfleu i Mike Scott ddoe a droeon cyn hynny. Rhaid inni i gyd edrych ymlaen at benderfyniad y Cyfrin Gyngor i gyflwyno statws prifysgol llawn cyn gynted ag sy'n ymarferol.

Galwaf y brifysgol 'y brifysgol newydd' oherwydd, er bod pob un ohonom yn gwybod beth fydd yr enw, ni allwn ei ddatgan ar goedd nes caiff ei gymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r brifysgol newydd yn ymgyrraedd at fod yn brifysgol nid yn unig ar gyfer Wrecsam, ond ar gyfer y rhanbarth. A wnaiff eich Llywodraeth ymgysylltu â'r Athro Mike Scott a'i dîm ar eu cynigion manwl ar gyfer y cwricwlwm, y seilwaith a rheolaeth yn sir y Fflint ac mewn rhannau eraill o'r rhanbarth?

**Y Prif Weinidog:** I fod yn hollol effeithiol, rhaid i bob prifysgol ymestyn allan y tu hwnt i'r dref neu'r ddinas lle y caiff ei lleoli, ac yr wyf yn siŵr y bydd Wrecsam yn ymwybodol o'r angen i recriwtio myfyrwyr dros y ffin yn Swydd Gaer, oherwydd y mae dros filiwn o bobl yn byw yn y fan honno. Mae Swydd Gaer yn un o'r siroedd mwyaf yn Lloegr o ran maint a phoblogaeth, gyda nifer uchel o bobl ifanc 18 neu 19 oed sy'n ddarpar fyfyrwyr prifysgol. Mae'n gronfa anferth ar gyfer recriwtio. Gobeithiaf y bydd pobl yn sylweddoli bod cyfleoedd da i gael gradd dda yn Wrecsam. Un o'r rhesymau pam y maent

connections that NEWI has with local business. For example, the work that it does in aeronautical engineering with Airbus is tremendous, and people who want opportunities in that field may come from a much wider area. In fact, when I gave out degrees in NEWI last year, I was amazed at the number of degrees in aeronautical engineering that were awarded to students from all over Europe, particularly from Spain. Every university needs that sprinkling of students from all over the world in order to provide a really good experience for the home-grown students.

**Michael German:** We obviously wish to congratulate NEWI too, but this question is about support for higher education. What do you make of the figures issued by HEFCW a few days ago that show that the funding gap between higher education in Wales and higher education in England has grown from £40 million to £61 million? Perhaps you could also say why, since your Minister had this information last autumn, this was not worthy of a press release then?

**The First Minister:** I have not seen those figures in detail. We have our own priorities, and among those in recent years has been the additional investment in NEWI to ensure that it got over that hump from being unable to achieve university status to, finally, achieving it. There is no such priority in England. Sometimes, we will have our own priorities, and that is the reason for investment being made where it is. From my memory of the pattern of university education, if you look at the like-for-like comparisons between institutions, you find a varied pattern. Cardiff University and others got less than institutions in their peer groups, while Bangor University, the University of Glamorgan and Trinity College Carmarthen got more than other institutions in their peer groups. That is what you must look at: how are we funding particular universities relative to institutions in their peer groups in the rest of the UK?

**Michael German:** First Minister, if these

yn dda yw'r cysylltiadau cryf rhwng NEWI a busnesau lleol. Er enghraifft, mae'r gwaith a wna ym maes peirianeg awyrennol gydag Airbus yn wych, ac mae'n bosibl y bydd pobl sy'n chwilio am gyfleoedd yn y maes hwnnw'n dod o ardal lawer ehangach. Yn wir, pan oeddwn yn cyflwyno graddau y llynedd yn NEWI, yr oeddwn yn synnu sawl gradd mewn peirianeg awyrennol a roddwyd i fyfyrwyr o bob cwr o Ewrop, yn enwedig o Sbaen. Mae ar bob prifysgol angen y dyrnaid hwnnw o fyfyrwyr o bedwar ban byd er mwyn darparu profiad gwerth chweil i'r myfyrwyr brodorol.

**Michael German:** Yn amlwg, yr ydym ninnau am longyfarch NEWI hefyd, ond mae a wnelo'r cwestiwn hwn â chymorth i addysg uwch. Beth yw eich barn am y ffigurau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru y diwrnod o'r blaen sy'n dangos bod y bwlch cyllido rhwng addysg uwch yng Nghymru ac addysg uwch yn Lloegr wedi tyfu o £40 miliwn i £61 miliwn? Efallai y gallech hefyd egluro, oherwydd yr oedd y wybodaeth hon gan eich Gweinidog yr hydref diwethaf, pam nad oedd hyn yn teilyngu cyhoeddi datganiad i'r wasg bryd hynny?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf wedi gweld y ffigurau hynny'n fanwl. Mae gennym ein blaenoriaethau ein hunain, ac ymhlith y rheini dros y blynyddoedd diwethaf oedd rhoi buddsoddiad ychwanegol i NEWI er mwyn rhoi hwb iddo o sefyllfa lle nad oedd yn gallu cyrraedd statws prifysgol i gyflawni hynny, yn y pen draw. Nid oes blaenoriaeth o'r fath yn Lloegr. Weithiau, bydd gennym ein blaenoriaethau ein hunain, a dyna pam mae buddsoddiad yn cael ei wneud yn y meysydd hynny. Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei gofio am batrwm addysg prifysgol, os ydych yn edrych ar y cymariaethau ar sail debyg rhwng sefydliadau, bydd patrwm amrywiol yn ymddangos. Cafodd Prifysgol Caerdydd ac eraill lai na sefydliadau tebyg, tra cafodd Prifysgol Bangor, Prifysgol Morgannwg a Choleg y Drindod Caerfyrddin fwy na sefydliadau eraill sy'n debyg iddynt. Dyna y mae'n rhaid ichi edrych arno: sut yr ydym yn cyllido prifysgolion penodol mewn perthynas â sefydliadau tebyg yng ngweddill y DU?

**Michael German:** Brif Weinidog, petai'r

were my figures, I could understand your wanting to complain about them, but these are HEFCW's figures and they are on its website. I am told that the gap has now grown from £40 million to £61 million, on its analysis of a like-for-like comparison from one year to the next. Your Minister had these figures last October or November, so I cannot understand why she did not tell you about them if they are so important. Perhaps they are not that important.

**The First Minister:** This is the same point I made to Jenny Randerson on dentistry. You are now saying that I complained about my own statistics. I made no such complaint. I am totally baffled about how you can possibly interpret my words as a complaint about the statistics. All I was saying was that the relevant statistics are those that make like-for-like comparisons. That is a standard principle in statistics. We should compare the funding for an institution of a particular character in Wales with that of the nearest similar institution in England. As I remember, it is a terribly varied pattern. Cardiff University is not as well funded as the University of Bristol or the University of Birmingham. Trinity College Carmarthen is better funded than institutions in its peer group, as is the University of Glamorgan and Bangor University. Others are probably not as well funded as their peer group institutions. I repeat that that is not a complaint about the statistics. As far as I know, the statistics actually demonstrate what I am saying.

rhain yn ffigurau a gyhoeddwyd gennyf fi, byddwn yn deall eich bod am gwyno amdanynt, ond ffigurau CCAUC yw'r rhain ac maent ar gael ar eu gwefan. Dywedir wrthyf fod y bwlch erbyn hyn wedi tyfu o £40 miliwn i £61 miliwn, ar sail ei ddadansoddiad wrth gymharu pethau tebyg o flwyddyn i flwyddyn. Yr oedd y ffigurau hyn gan eich Gweinidog fis Hydref neu fis Tachwedd diwethaf, felly ni allaf ddeall pam na soniodd wrthyfch amdanynt os ydynt mor bwysig. Efallai nad ydynt mor bwysig â hynny.

**Y Prif Weinidog:** Yr un pwynt yw hyn â'r pwynt a wneuthum i Jenny Randerson ynghylch deintyddiaeth. Yr ydych yn dweud yn awr fy mod wedi cwyno am fy ystadegau fy hun. Ni wneuthum gŵyn o'r fath. Mae'n ddirgelwch i mi sut y gallech ddehongli fy ngeiriau fel cwyn am yr ystadegau. Y cwbl yr oeddwn yn ei ddweud oedd mai'r ystadegau perthnasol yw'r rhai sy'n gwneud cymhariaeth rhwng pethau tebyg. Mae hynny'n egwyddor sylfaenol mewn ystadegau. Dylem gymharu'r cyllid ar gyfer sefydliad o natur benodol yng Nghymru â sefydliad mor debyg â phosibl yn Lloegr. Yn ôl y cof sydd gennyf, mae'r patrwm yn amrywiol dros ben. Nid yw Prifysgol Caerdydd yn cael ei chyllido cystal â Phrifysgol Bryste neu Brifysgol Birmingham. Mae Coleg y Drindod Caerfyrddin yn cael ei gyllido'n well na sefydliadau tebyg, ac mae'r un peth yn wir am Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Bangor. Mae'n debygol nad yw sefydliadau eraill yn cael eu cyllido cystal â sefydliadau tebyg. Dywedaf eto nad cwyn am yr ystadegau yw hyn. Hyd y gwn, mae'r ystadegau'n ategu'r hyn yr wyf yn ei ddweud mewn gwirionedd.

### **Cwestiwn Brys Urgent Question**

#### **Colli Swyddi yn Nhrostre Job Losses in Trostre**

**Alun Davies:** Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's response to job losses announced in Trostre on Friday? EAQ(3)0478(ECT)

**Alun Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r colli swyddi a gyhoeddwyd yn Nhrostre ddydd Gwener? EAQ(3)0478(ECT)

**The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones):** Following difficult tinplate markets, Corus announced its intention to reduce production capacity at Trostre, affecting 290 employees. Formal consultation processes are under way. We will meet Corus and the trade unions, and I will ensure that the Assembly is kept informed of developments.

**Alun Davies:** Many of us were profoundly disappointed to hear the news at the end of last week that 290 jobs are to be lost in the Trostre plant in Llanelli.

3.00 p.m.

You will be aware that the workforce and the management have worked hard to make Trostre a world-class facility for producing tinplate products, and it is an asset not only to Llanelli as a town, but to the economy of south-west Wales. It is a central part of the economic foundation of Carmarthenshire, and the wider part of south-west Wales. I know that the Corus management has worked with the First Minister, you, and your predecessor Minister for economic development. In the past, the Welsh Assembly Government has provided Corus with substantial help and support, as has Carmarthenshire County Council, to ensure that this plant not only survives in the town, but continues to grow and to flourish.

Given last week's announcement, and the 90-day consultation period that we now have, would you be prepared to form a taskforce or working group to bring together the local authority, the workforce, the unions, the management, and the Welsh Assembly Government, to look at how we can put together a package that will underpin the success of Trostre, will make Trostre the centre of a growing tinplate and steel industry in south-west Wales, and will continue to guarantee a highly skilled, highly paid workforce that deserves success after the work that it has put in to creating such a world-class facility in Llanelli?

**Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Yn sgîl marchnadoedd tunplat anodd, cyhoeddodd Corus ei fwriad i leihau'r gallu i gynhyrchu yn Nhrostre, gan effeithio ar 290 o weithwyr. Mae prosesau ymgynghori ffurfiol eisoes ar y gweill. Byddwn yn cwrdd â Corus a'r undebau llafur, a sicrhaf y bydd y Cynulliad yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau.

**Alun Davies:** Cafodd llawer ohonom ein siomi'n enbyd o glywed y newyddion ddiwedd yr wythnos diwethaf y bydd 290 o swyddi'n cael eu colli yn ffatri Trostre yn Llanelli.

Byddwch yn ymwybodol bod y gweithlu a'r rheolwyr wedi gweithio'n galed i wneud Trostre yn gyfleuster o safon fyd-eang ar gyfer cynhyrchu cynhyrchion tunplat, ac mae'n ased nid yn unig i Lanelli fel tref, ond i economi de-orllewin Cymru. Mae'n rhan ganolog o sylfaen economaidd sir Gaerfyrddin, a de-orllewin Cymru yn ehangach. Gwn fod rheolwyr Corus wedi gweithio gyda'r Prif Weinidog, chi, a'r Gweinidog dros ddatblygu economaidd a'ch rhagflaenodd. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi help a chymorth sylweddol i Corus, fel y mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi gwneud, i sicrhau bod y gwaith hwn nid yn unig yn goroesi yn y dref, ond yn parhau i dyfu a ffynnu.

O ystyried y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf, a'r cyfnod ymgynghori o 90 diwrnod sydd gennym yn awr, a fyddech yn barod i greu tasglu neu weithgor i ddwyn ynghyd yr awdurdod lleol, y gweithlu, yr undebau, y rheolwyr, a Llywodraeth Cynulliad Cymru, i weld sut y gallwn roi pecyn at ei gilydd a fydd yn rhoi sylfaen i lwyddiant Trostre, a fydd yn gwneud Trostre yn ganolfan diwydiant tunplat a dur sy'n tyfu yn ne-orllewin Cymru, ac a fydd yn parhau i warantu gweithlu tra chreffftus, sy'n cael cyflogau da, sy'n haeddu llwyddiant ar ôl y gwaith y mae wedi'i wneud i greu cyfleuster mor ardderchog yn Llanelli?



**The Deputy First Minister:** Thank you for those questions, Alun. We share the disappointment that Corus has announced its intention to reduce its output at Trostre, which, as we know, will affect 290 employees as part of the restructuring of its Packaging Plus operations. Corus tells us that it made this announcement following continuing market difficulties in the European tinplate market, exacerbated by large volumes of overproduction. We understand that that relates to 1 million tonnes of overcapacity.

However, we are aware that it is necessary to continue to work closely with the management, the trade unions, and Corus executives, because, despite this announcement, Trostre will remain an important part of the Llanelli economy, and more than 460 jobs will remain at the plant. We will do everything that we can to work with the management and the unions to ensure that there is a viable future for Trostre, and some of the ideas that you have put forward today will form a part of our discussions.

I do not want to be too prescriptive today about the measures that we want to put in place, because the First Minister and I will be meeting the managing director of Corus, and there will be other meetings. I want to listen to what people have to say, and then respond. However, I do wish to say that the Government stands ready to work with the management and the unions to secure a viable future for Corus at Trostre.

**Helen Mary Jones:** I associate myself with everything that has been said about the importance of the Trostre plant, not only to the Llanelli area, but to the wider economy of south-west Wales. In discussing the immediate job losses, we also need to think of the effects on those jobs that are ancillary to the Trostre plant, for example, in transport and supply. There is a risk, therefore, of a knock-on effect if the future of the plant is not secured.

Do you agree, Deputy First Minister, that, despite this not being good news, we should congratulate the management and staff at

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Diolch ichi am y cwestiynau hynny, Alun. Yr ydym ninnau'n siomedig bod Corus wedi cyhoeddi ei fwriad i leihau ei gynnyrch yn Nhrostre, a fydd, fel y gwyddom, yn effeithio ar 290 o weithwyr fel rhan o ailstrwythuro'i weithrediadau Packaging Plus. Dywed Corus wrthym iddo wneud y cyhoeddiad hwn yn sgîl yr anawsterau parhaus ym marchnad dunplat Ewrop, a'r rheini wedi'u gwaethygu gan lefel sylweddol o orgynhyrchu. Deallwn fod hynny'n gyfwerth ag 1 filiwn o dunelli o orgynhyrchu.

Fodd bynnag, yr ydym yn ymwybodol bod yn rhaid parhau i weithio'n agos gyda'r rheolwyr, yr undebau llafur a swyddogion Corus oherwydd, er gwaethaf y cyhoeddiad hwn, bydd Trostre'n parhau'n rhan bwysig o economi Llanelli, a bydd 460 o swyddi yn aros ar y safle. Gwnawn bopeth a allwn i weithio gyda'r rheolwyr a'r undebau i sicrhau dyfodol hyfyw i Drostre, a bydd rhai o'r syniadau a gyflwynwyd gennych heddiw yn rhan o'n trafodaethau.

Nid wyf am fod yn rhy ddeddfol heddiw ynghylch y mesurau yr ydym am eu gweithredu, oherwydd bydd y Prif Weinidog a minnau'n cwrdd â rheolwr gyfarwyddwr Corus, a bydd cyfarfodydd eraill. Mae arnaf eisiau gwranddo ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud, ac yna ymateb. Fodd bynnag, yr wyf yn awyddus i ddweud bod y Llywodraeth yn barod i weithio gyda'r rheolwyr a'r undebau i sicrhau dyfodol dichonadwy i Corus yn Nhrostre.

**Helen Mary Jones:** Yr wyf yn cyd-fynd â'r cyfan sydd wedi'i ddweud am bwysigrwydd safle Trostre, nid yn unig i ardal Llanelli, ond i economi ehangach de-orllewin Cymru. Wrth drafod y swyddi sydd ar fin cael ei colli, mae angen inni feddwl hefyd am yr effeithiau ar y swyddi hynny sy'n ategol i safle Trostre, er enghraifft, ym maes trafndiaeth a chyflenwi. Ceir perygl, felly, y bydd effaith ganlyniadol oni sicrheir dyfodol y safle.

A gytunwch, Ddirprwy Brif Weinidog, er nad yw hyn yn newyddion da, y dylem longyfarch y rheolwyr a'r staff yn Nhrostre ar

Trostre on their flexibility and on how they have achieved high levels of productivity in the face of the competitive market? Would you also agree that that is why, despite some job losses, the future of the plant is still positive, and we can look forward to a future for steel making in the Llanelli area? I am glad that you are making plans to meet the management and the trade unions. It is important that we get the perspective of the workforce, which has made huge efforts and sacrifices to keep the plant viable, as well as that of the management. Therefore, I am grateful that you are making arrangements to meet the trade unions.

The losses last week were seen as part of an emerging pattern of losses in manufacturing across Wales, but particularly in Llanelli, where the sector remains important. What consideration is the Government giving to developing a national strategy for jobs in the manufacturing industry, and how can we ensure that that delivers protection for manufacturing workers in the Llanelli area? Will you ensure that your officials give a high priority to any bids that come to the Government for broader support for manufacturing businesses in the Llanelli area, to enable jobs to be retained and new jobs to be created there?

**The Deputy First Minister:** You have taken a keen interest in what has been happening at Trostre, and we can respond on some of the arrangements later this week.

We all recognise the knock-on effects that a downsizing of this size are bound to have on the local community, and we need to work with all the agencies involved, including the local authority, to ensure that we minimise those effects as much as possible. You stressed that the future remains positive, and we must bear in mind that Corus announced the complete closure of one of its tinplate works in Norway as part of the wider package, with the loss of 260 jobs, and, although we are losing more jobs in numerical terms, we are also retaining a substantial workforce at Trostre. When we meet the management and the unions, it is our job to ensure that we work with them to

eu hyblygrwydd ac ar sut y maent wedi llwyddo i gyrraedd lefelau uchel o gynhyrchiant yn wyneb y farchnad gystadleuol? A gytunech hefyd mai dyna pam, er bod rhai swyddi'n cael eu colli, y mae dyfodol y safle'n parhau'n gadarnhaol, a'n bod yn gallu edrych ymlaen at ddyfodol i gynhyrchu dur yn ardal Llanelli? Yr wyf yn falch eich bod yn bwriadu cwrdd â'r rheolwyr a'r undebau llafur. Mae'n bwysig inni glywed safbwynt y gweithlu, sydd wedi ymdrechu ac aberthu'n aruthrol i gadw'r safle'n ddichonadwy, yn ogystal â'r rheolwyr. O'r herwydd, yr wyf yn ddiolchgar eich bod yn trefnu i gwrdd â'r undebau llafur.

Bernid bod y colli swyddi yr wythnos diwethaf yn rhan o batrwm cynyddol o golli swyddi ym maes gweithgynhyrchu ledled Cymru, ond yn enwedig yn Llanelli, lle y mae'r sector yn bwysig o hyd. Pa ystyriaeth y mae'r Llywodraeth yn ei rhoi i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer swyddi yn y diwydiant gweithgynhyrchu, a sut y gallwn sicrhau bod honno'n cynnig gwarchodaeth i weithwyr gweithgynhyrchu yn ardal Llanelli? A wnewch sicrhau bod eich swyddogion yn rhoi blaenoriaeth uchel i unrhyw geisiadau a ddaw gerbron y Llywodraeth am gymorth ehangach i fusnesau gweithgynhyrchu yn ardal Llanelli, er mwyn galluogi cadw swyddi a chreu swyddi newydd yno?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Yr ydych wedi cymryd diddordeb byw yn yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn Nhrostre, a gallwn ymateb ynghylch rhai o'r trefniadau yn ddiweddarach yn yr wythnos.

Yr ydym oll yn cydnabod yr effeithiau canlyniadol y mae cwtogi o'r raddfa hon yn sicr o'u cael ar y gymuned leol, ac mae angen inni weithio gyda phob asiantaeth sy'n gysylltiedig â hyn, gan gynnwys yr awdurdod lleol, i sicrhau ein bod yn lleihau cymaint ag sy'n bosibl ar yr effeithiau hynny. Pwysleisiasoch fod y dyfodol yn parhau'n gadarnhaol, a rhaid inni gofio bod Corus wedi cyhoeddi ei fod yn cau un o'i safleoedd tunplat yn Norwy yn llwyr fel rhan o'r pecyn ehangach, gan golli 260 o swyddi, ac, er ein bod yn colli mwy o swyddi o ran niferoedd, yr ydym hefyd yn cadw gweithlu sylweddol yn Nhrostre. Pan fyddwn yn cwrdd â'r rheolwyr a'r undebau, ein gwaith ni yw

ensure that Trostre has a viable future.

I have two points to make on the wider situation for the manufacturing industry. First, manufacturing retains a higher importance in Wales than elsewhere in the United Kingdom, and that is why the ministerial advisory group that advises me is considering how we can develop certain sectors of manufacturing. Secondly, there is a manufacturing forum that works closely with the Government. I am often reminded of the importance of retaining and enhancing the manufacturing sector, as we go forwards.

**Joyce Watson:** I join everyone in paying tribute to the workers of Trostre, who have worked hard and been flexible to make this an efficient and productive plant that has exceeded its targets. In the face of that, this must be a real blow to all those people. However, it is not only the Llanelli economy that might suffer the effects of this blow, but the south-west Wales economy as a whole, given that Trostre provides well paid and highly skilled jobs.

I am pleased that there are no compulsory job losses at the moment, as I understand it, and that there is some scope for a third of those affected to be relocated. I am also pleased to hear the announcement that the Assembly is looking at the best way to retrain and make work available to those who find themselves in this difficult position. I am also pleased that you, Deputy First Minister, and the First Minister are working with the trade unions and Corus to find some solutions. I know that my colleague, Nia Griffith, the Member of Parliament for Llanelli, is working closely with all the stakeholders on this important issue. Will you give me an undertaking, Deputy First Minister, that you will keep all those concerned informed of any progress?

**The Deputy First Minister:** As I have said, I will ensure that Assembly Members are kept informed of developments going forward. I also pay tribute to the workforce for working

sicrhau ein bod yn gweithio gyda hwy i sicrhau bod gan Drostre ddyfodol dichonadwy.

Mae gennyf ddau bwynt i'w gwneud am sefyllfa ehangach y diwydiant gweithgynhyrchu. Yn gyntaf, erys gweithgynhyrchu yn bwysicach yng Nghymru nag mewn lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig, a dyna pam mae grŵp cynghori'r Gweinidog sy'n fy nghynghori yn ystyried sut y gallwn ddatblygu sectorau gweithgynhyrchu penodol. Yn ail, ceir fforwm gweithgynhyrchu sy'n gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth. Byddaf yn cael fy atgoffa yn aml o bwysigrwydd cynnal a gwella'r sector gweithgynhyrchu, wrth inni symud ymlaen.

**Joyce Watson:** Ymunaf â phawb i dalu teyrnged i weithwyr Trostre, sydd wedi gweithio'n galed ac wedi bod yn hyblyg i wneud hwn yn safle effeithiol a chynhyrchiol sydd wedi rhagori ar ei dargedau. O gofio hynny, rhaid bod hon yn ergyd galed i'r holl bobl hynny. Fodd bynnag, nid dim ond economi Llanelli a allai ddiodef yn sgîl effeithiau'r ergyd hon, ond economi de-orllewin Cymru yn ei gyfanrwydd, gan fod Trostre'n darparu swyddi tra chrefftus sy'n talu'n dda.

Yr wyf yn falch nad oes swyddi'n cael eu colli'n orfodol ar hyn o bryd, yn ôl a ddeallaf, a bod peth bosibilrwydd y bydd traean y rhai yr effeithir arnynt yn cael eu hadleoli. Yr wyf yn falch hefyd o glywed y cyhoeddiad bod y Cynulliad yn chwilio am y ffordd orau o ail-hyfforddi a chanfod gwaith i'r rhai sy'n cael eu hunain yn y sefyllfa anodd hon. Yr wyf yn falch hefyd eich bod chi, Ddirprwy Brif Weinidog, a'r Prif Weinidog yn gweithio gyda'r undebau llafur a Corus i ganfod rhai atebion. Gwn fod fy nghyd-aelod, Nia Griffith, yr Aelod Seneddol dros Lanelli, yn gweithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid ar y mater pwysig hwn. A wnewch addo imi, Ddirprwy Brif Weinidog, y gwnewch yn siŵr fod pawb sy'n gysylltiedig yn cael gwybod am unrhyw gynnydd?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Fel y dywedais, sicrhaf y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau wrth fwrw ymlaen. Yr wyf finnau'n talu teyrnged i'r

extremely hard to be flexible and to meet all the demands placed on them. I am pleased to note that it is unlikely, as we understand it, that there will be compulsory redundancies and most of those affected will have an opportunity to gain employment at other Corus works. I had a meeting with the senior management of Corus in November, and they said that they saw a good future for their part of the steel industry in Wales. They told me of their substantial commitment. For example, Corus has invested more than £300 million in its Welsh steel products and, recently, as I think you are aware, it announced another £69 million of investment at Port Talbot. Nevertheless, we understand—and this is an important point—that the loss of these jobs is a loss to Llanelli and to south-west Wales. My officials and I will work hard to minimise the impact of these job losses, and to work with the local community to enhance the manufacturing sector in that part of Wales.

3.10 p.m.

**Nick Bourne:** I associate myself with what has been said about the impact of the job losses, and we extend our thoughts and concerns to those who have lost or are about to lose their jobs, as well as to their families. It is a significant loss. It was described as 'some jobs' being lost, but 290 represents 40 per cent of the workforce.

I am grateful that the Deputy First Minister has said that he will keep the Assembly informed of progress, and I hope that he will do so by oral statement, or certainly by a written statement. There is a degree of urgency about this, not least in relation to the remaining jobs at Trostre, given that many manufacturing jobs have been lost in the vicinity recently, as Members will be aware—around 450. However, what makes this case so different from many of the others is that these jobs have not been lost to the sub-continent of India, the far east or even to eastern Europe; the remaining concentration of Corus's steel jobs is in Holland.

gweithlu am weithio'n hynod o galed i fod yn hyblyg a bodloni'r holl ofynion a wynebasant. Yr wyf yn falch o nodi ei bod yn annhebygol, yn ôl a ddeallwn, y bydd diswyddo gorfodol a bydd y rhan fwyaf o'r rhai yr effeithir arnynt yn cael cyfle i gael gwaith mewn safleoedd eraill gan Corus. Cefais gyfarfod ag uwch reolwyr Corus ym mis Tachwedd, a dywedasant eu bod yn credu bod gan eu cyfran hwy o'r diwydiant dur yng Nghymru ddyfodol da. Soniasant wrthyf am eu hymrwymiad sylweddol. Er enghraifft, mae Corus wedi buddsoddi dros £300 miliwn yn ei gynhyrchion dur yng Nghymru ac, yn ddiweddar, fel y credaf eich bod yn sylweddoli, cyhoeddodd ei fod yn buddsoddi £69 miliwn arall ym Mhort Talbot. Fodd bynnag, yr ydym yn deall—ac mae hwn yn bwynt pwysig—fod colli'r swyddi hyn yn golled i Lanelli ac i ddeorllewin Cymru. Bydd fy swyddogion a minnau'n gweithio'n galed i leihau effaith colli'r swyddi hyn, ac i weithio gyda'r gymuned leol i wella'r sector gweithgynhyrchu yn y rhan honno o Gymru.

**Nick Bourne:** Yr wyf yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedwyd am effaith colli'r swyddi hyn, ac mae ein meddyliau a'n pryderon gyda'r rhai sydd wedi colli neu sydd ar fin colli eu swyddi, yn ogystal â chyda'u teuluoedd. Mae'n golled sylweddol. Fe'i disgrifiwyd fel colli 'rhai swyddi', ond mae 290 yn 40 y cant o'r gweithlu.

Yr wyf yn ddiolchgar bod y Dirprwy Brif Weinidog wedi dweud y bydd yn sicrhau bod y Cynulliad yn clywed am unrhyw gynnydd a wneir, a gobeithio y gwnaiff hynny drwy ddatganiad llafar, neu'n sicr drwy ddatganiad ysgrifenedig. Mae rhywfaint o frys yn perthyn i hyn, yn enwedig yng nghyswllt y swyddi sydd ar ôl yn Nhrostre, o ystyried yr holl swyddi gweithgynhyrchu sydd wedi'u colli yn y cyffiniau yn ddiweddar, fel y gwyr yr Aelodau—tua 400. Fodd bynnag, yr hyn sy'n gwneud yr achos hwn mor wahanol i lawer o'r lleill yw nad yw'r swyddi hyn wedi eu colli i is-gyfanidir India, y dwyrain pell na hyd yn oed i ddwyrain Ewrop; yn yr Iseldiroedd y mae gweddill swyddi dur Corus.

The Trostre workforce has been well led and has consistently met its performance targets; it is excellent. I just hope that the Deputy First Minister will represent these points at his meetings, to find out why the job losses impact on Wales as opposed to Holland, where the costs must be at least as high as they are here—although I appreciate the impact on Norway, that is not our concern. It is a relevant point to be making, not least because of the money that has been invested at the Trostre plant and the commitment shown by the Assembly and the management. I hope that the Deputy First Minister will come back to the Assembly to report on the important point of the remaining jobs that must be safeguarded.

**The Deputy First Minister:** I would be happy to report back. Perhaps we can leave the precise way in which I report for the time being, but I promise to update Members on the progress of those discussions.

As I indicated, the First Minister and I will meet the managing director of Corus next week to discuss this. A host of matters will be discussed, primarily to ensure the maintenance of the Trostre plant and the continuing investment there. While acknowledging that this is a blow to Llanelli and the area because of the loss of so many jobs, I understand that most people will be given an offer to relocate, primarily to Port Talbot. Nevertheless, this is a loss for Llanelli, and we must regard it as such. I understand from Corus that it has considered this to be a business decision, and it recognises that Trostre will remain an important part of its plans going forward, which is an important point to make.

**Kirsty Williams:** Thank you for your assurances and the actions that you have outlined to date. The house I grew up in overlooked the Trostre works, and so I know that the works are important to those who live in the area, as they are seen as a symbol of Llanelli's vibrant future. The news also comes on the back of announcements of job losses at Avon Inflatables Ltd in Dafen, so it is a tough time for the manufacturing industry.

Mae gweithlu Trostre wedi cael ei arwain yn dda, ac wedi cyrraedd ei dargedau perfformiad yn gyson; mae'n ardderchog. Yr wyf yn taer obeithio y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cyfleu'r pwyntiau hyn yn ei gyfarfodydd, i ganfod pam mae colli'r swyddi hyn yn effeithio ar Gymru yn hytrach na'r Iseldiroedd, lle y mae'n rhaid bod y costau o leiaf cyfuwch ag y maent yma—er fy mod yn cydnabod yr effaith ar Norwy, nid yw hynny'n ymwneud â ni. Mae'n bwynt perthnasol i'w wneud, yn enwedig oherwydd yr arian sydd wedi'i fuddsoddi yn safle Trostre a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan y Cynulliad a'r rheolwyr. Gobeithio y daw'r Dirprwy Brif Weinidog yn ôl i'r Cynulliad gydag adroddiad am y pwynt pwysig bod yn rhaid gwarchod y swyddi sydd ar ôl.

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Byddwn yn barod i adrodd yn ôl. Efallai y gallwn adael union ffurf fy adroddiad am y tro, ond yr wyf yn addo dod â'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ynglŷn â chynnydd y trafodaethau hynny.

Fel y dywedais, bydd y Prif Weinidog a minnau'n cwrdd â rheolwr gyfarwyddwr Corus yr wythnos nesaf i drafod hyn. Trafodir llu o faterion, yn bennaf i sicrhau cynnal safle Trostre a'r buddsoddiad sy'n parhau yno. Er cydnabod bod hon yn ergyd i Lanelli a'r ardal oherwydd colli cynifer o swyddi, yr wyf yn deall y bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael cyfle i adleoli, i Bort Talbot yn bennaf. Er hynny, mae hon yn golled i Lanelli, a rhaid inni ei hystyried felly. Caf ar ddeall gan Corus mai penderfyniad busnes oedd hyn yng ngolwg y cwmni, ac mae'n cydnabod y bydd Trostre'n parhau'n rhan bwysig o'i gynlluniau wrth fwrw ymlaen, sy'n bwynt pwysig i'w wneud.

**Kirsty Williams:** Diolch ichi am eich geiriau o sicrwydd a'r camau yr ydych wedi'u hamlinellu hyd yma. Yr oedd y cartref lle y'm magwyd yn edrych dros waith Trostre, ac felly gwn fod y gwaith yn bwysig i'r rhai sy'n byw yn yr ardal, gan ei fod yn cael ei ystyried yn symbol o ddyfodol ffyniannus Llanelli. Yn ogystal yr ydym yn clywed y newyddion yn fuan wedi cyhoeddi bod colli swyddi'n digwydd yn Avon Inflatables Cyf yn Nafen, felly mae'n gyfnod anodd i'r

diwydiant gweithgynhyrchu.

I do not know when you were last at Trostre, Deputy First Minister, but it is ironic that the factory is surrounded by a big new retail development. That exemplifies what is wrong with the Welsh economy: we are seeing traditional manufacturing jobs lost while jobs in the service and retail sectors are created. That is great for those who have found employment in those new shops, but when our economy is at risk, opportunities for people working in the service sector are also under threat. Could you give us a timescale on when you expect to firm up your proposals to develop a strategy to safeguard manufacturing jobs across Wales? When do you expect to give us some hard-and-fast news on what that strategy will entail? What actions will your Government take to ensure that we do not see the further haemorrhaging of manufacturing job losses, as in recent weeks?

**The Deputy First Minister:** The immediate priority is to work with the Corus management and trade unions to secure the future of the Trostre works, and to minimise the impact on the local community as a result of the job losses at Llanelli. That is our immediate task, and that is what the First Minister and I will be doing next week and in other meetings that we will have with the trade unions. I will shortly be in a position to make a statement on the recommendations that I have received from the ministerial advisory group as to how we could take some of these measures forward in relation to manufacturing. I am also consulting with the Manufacturing Forum, because it will also have some ideas about how we need to do that. It is not possible for us to be insulated against what is happening in other parts of Britain and other parts of the world, but we recognise the importance of manufacturing going forward. It is an important part of the Welsh economy and we will do everything that we can to maintain and enhance it.

Ni wn pryd yr oedd y tro diwethaf ichi ymweld â Throstre, Ddirprwy Brif Weinidog, ond mae'n eironig bod y ffatri wedi'i hamgylchynu â datblygiad manwerthu newydd mawr. Mae hynny'n cyfleu'r hyn sydd o'i le ar economi Cymru: yr ydym yn gweld swyddi gweithgynhyrchu traddodiadol yn cael eu colli tra mae swyddi yn y sectorau gwasanaethu a manwerthu'n cael eu creu. Mae hynny'n wych i'r rhai sydd wedi cael gwaith yn y siopau newydd hynny, ond pan fydd ein heconomi mewn perygl, mae cyfleoedd ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y sector gwasanaethu hefyd dan fygythiad. A allech roi amserlen inni ynghylch pryd yr ydych yn disgwyl cadarnhau eich cynigion i ddatblygu strategaeth i ddiogelu swyddi gweithgynhyrchu ledled Cymru? Pryd yr ydych yn disgwyl rhoi newyddion pendant inni am yr hyn y bydd y strategaeth honno'n ei olygu? Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau na welwn fflyd o swyddi gweithgynhyrchu'n cael eu colli eto, fel yn yr wythnosau diwethaf?

**Y Dirprwy Brif Weinidog:** Y flaenoriaeth gyntaf yw gweithio gyda rheolwyr Corus a'r undebau llafur i sicrhau dyfodol gwaith Trostre, ac i sicrhau y ceir cyn lleied o effaith ag sy'n bosibl ar y gymuned leol yn sgîl colli'r swyddi yn Llanelli. Dyna'n tasg gyntaf, a dyna y bydd y Prif Weinidog a minnau'n ei wneud yr wythnos nesaf ac mewn cyfarfodydd eraill a gynhaliwn gyda'r undebau llafur. Cyn bo hir, byddaf yn gallu gwneud datganiad am yr argymhellion yr wyf wedi eu cael gan grŵp cynghori'r Gweinidog ynglŷn â sut y gallem fwrw ymlaen â rhai o'r mesurau hyn ar gyfer gweithgynhyrchu. Yr wyf yn ymgynghori hefyd â'r Fforwm Gweithgynhyrchu, oherwydd bydd gan hwnnw hefyd rywfaint o syniadau ynglŷn â sut y mae angen inni wneud hynny. Nid oes modd inni gael ein gwarchod rhag yr hyn sy'n digwydd mewn rhannau eraill o Brydain ac mewn rhannau eraill o'r byd, ond sylweddolwn mor bwysig ydyw gweithgynhyrchu wrth fwrw ymlaen. Mae'n rhan bwysig o economi Cymru a gwnawn bopeth a allwn i'w gynnal a'i gryfhau.

## Pwynt o Drefn Point of Order

**Nick Bourne:** This relates to what I consider to be offensive language, and a point made by Eleanor Burnham, who is, in fairness, not usually inflammatory and is generally a generous person. She made a comparison that I thought was wholly invalid and offensive, comparing the situation between England and Wales with that between China and Tibet. She subsequently sought to qualify it by saying that it was formerly the case, but it is important that we do not inflame relations between the constituent parts of the United Kingdom by making such comparisons. I think that her comparison would be regarded as offensive by most people living in Wales and England, but also, importantly, it belittles what is happening in Tibet in terms of the denial of religious and human freedoms and the attitude that we see displayed everyday by China in relation to the people of Tibet.

**The Presiding Officer:** Normally, our points of order refer to conduct in the Chamber relating to remarks that have been made about other Members. The leader of the opposition invites me to look at the more general issue of whether or not certain remarks relating to history and relations between nationalities would be regarded as offensive by the people of Wales. My reaction is that I wish to study this further—I think that it is a bit too deep to go into immediately after I have heard it in questions; after all, we are dealing with 800 years of history. I take the point that comparisons between current situations of oppression, which I believe was the word used, and other situations may or may not be appropriate. However, I would not want to set a precedent that no comment may be made about the history of Wales, and, indeed, no comment made about the history of other countries would be regarded as disorderly. So, if the leader of the opposition will forgive me for not making my normal rapid response in these matters, I will consider the matter further.

**Nick Bourne:** Mae hyn yn ymwneud â'r hyn yr wyf yn ei ystyried yn iaith sarhaus, a phwynt a wnaeth Eleanor Burnham. A bod yn deg, nid yw'n ymfflamychol fel rheol ac, yn gyffredinol mae'n hael. Gwnaeth gymhariaeth a oedd, yn fy marn i, yn gwbl annilys ac yn sarhaus, gan gymharu'r sefyllfa rhwng Cymru a Lloegr â'r sefyllfa rhwng Tibet a Tsieina. Wedyn, ceisiodd ymhelaethu drwy ddweud mai dyna'r sefyllfa ers talwm, ond mae'n bwysig nad ydym yn corddi'r berthynas rhwng gwahanol rannau'r Deyrnas Gyfunol drwy lunio cymariaethau o'r fath. Credaf y byddai'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yng Nghymru ac yn Lloegr yn ystyried ei chymhariaeth yn sarhaus, ond hefyd, ac mae hyn yn bwysig, mae'n bychanu'r hyn sy'n digwydd yn Tibet o ran gwadu rhyddid crefyddol a rhyddid dynol ac o ran yr agwedd a welwn yn cael ei harddel bob dydd gan Tsieina at bobl Tibet.

**Y Llywydd:** Gan amlaf, bydd ein pwyntiau o drefn yn cyfeirio at ymddygiad yn y Siambr ac yn ymwneud â sylwadau sydd wedi'u gwneud am Aelodau eraill. Mae arweinydd yr wrthblaid yn fy ngwahodd i edrych ar fater mwy cyffredinol, sef, a fyddai pobl Cymru'n ystyried rhai sylwadau ynglŷn â hanes a'r cysylltiadau rhwng cenhedloedd yn sarhaus. Fy ymateb yw fy mod am feddwl mwy am hyn—credaf ei fod braidd yn rhy ddyrys imi ei ystyried yn syth ar ôl imi ei glywed yn ystod y cwestiynau; wedi'r cyfan, yr ydym yn ymwneud ag 800 mlynedd o hanes. Derbyniaf y pwynt y gall cymariaethau rhwng sefyllfaoedd lle y ceir gorthrwm ar hyn o bryd, sef y gair a ddefnyddiwyd, yr wyf yn credu, a sefyllfaoedd eraill fod yn briodol neu'n amhriodol. Fodd bynnag, ni fyddwn am osod cynsail drwy ddweud na cheir gwneud dim sylwadau am hanes Cymru, ac, yn wir, na fyddai dim sylwadau am hanes gwledydd eraill yn cael eu hystyried yn afreolus. Felly, os gwnaiff arweinydd yr wrthblaid faddau imi am beidio ag ymateb mor gyflym ag arfer yn y materion hyn, fe'i hystyriaif ymhellach.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business Statement and Announcement

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** I have no changes to report to this week's planned Government business. Business for the next three weeks is as set out in the draft business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Nick Bourne:** I thank the Leader of the House for the statement. An important matter, which was touched upon in questions but which deserves far more analysis—the Assembly has looked at it over the years in considerable detail, not least in the second Assembly—relates to the higher education funding gap, which the First Minister, in fairness, did not seek to rubbish in dealing with questions. The Higher Education Funding Council for Wales report, published on 22 April, demonstrates an increase in the funding gap of 53 per cent in a year: there is now a gap of £61 million between institutions in Wales and in England. That is the position when England is compared with Wales, and not when individual institutions are compared with each other. I know that the First Minister regularly tries to say that Aberystwyth University does better than the bird-watching college in Teesside, as if that were somehow the answer. We are looking at national figures, and I ask you to allow a debate during Government time on this important issue, which affects us all. We have heard comments today about our new university in Wrexham, which we applaud, but it is important that we are able to move forward as a nation on a competitive basis with England. There is a yawning gap that is getting wider, and it must be addressed. I hope that Members will be granted an opportunity to discuss this in Government time as it is, effectively, a report to the Government by HEFCW.

3.20 p.m.

**Carwyn Jones:** It is the case in the National Assembly that opposition parties are awarded generous time for their own debates. That

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Nid oes gennyf newidiadau i sôn amdanynt ym musnes arfaethedig y Llywodraeth yr wythnos hon. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y mae wedi'i nodi yn y datganiad a chyhoeddiad busnes drafft, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

**Nick Bourne:** Diolchaf i Arweinydd y Tŷ am y datganiad. Mater pwysig a grybwyllwyd yn ystod y cwestiynau ond sy'n haeddu mwy o ddadansoddi o lawer—mae'r Cynulliad wedi edrych arno dros y blynyddoedd a hynny'n eithaf manwl, yn ystod yr ail Gynulliad yn anad dim—yw hwnnw sy'n ymwneud â'r bwllch cyllido mewn addysg uwch. A bod yn deg, ni cheisiodd y Prif Weinidog fychanu'r mater wrth ymdrin â'r cwestiynau. Mae adroddiad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a gyhoeddwyd ar 22 Ebrill, yn dangos bod y bwllch cyllido wedi cynyddu 53 y cant mewn blwyddyn: erbyn hyn mae bwllch o £61 miliwn rhwng sefydliadau Cymru a sefydliadau Lloegr. Dyna'r sefyllfa wrth gymharu Cymru â Lloegr, ac nid wrth gymharu sefydliadau unigol â'i gilydd. Gwn fod y Prif Weinidog yn ceisio dweud yn rheolaidd fod Prifysgol Aberystwyth yn gwneud yn well na'r coleg gwyllo adar yn Teesside, fel petai hynny rywsut yn cynnig ateb. Yr ydym yn edrych ar ffigurau cenedlaethol, a gofynnaf ichi ganiatáu dadl yn ystod amser y Llywodraeth ynglŷn â'r mater pwysig hwn, sy'n effeithio arnom i gyd. Yr ydym wedi clywed sylwadau heddiw am ein prifysgol newydd yn Wrecsam, a chymeradwywn hynny, ond mae'n bwysig inni allu symud ymlaen fel cenedl ar sail gystadleuol â Lloegr. Mae bwllch mawr wedi agor a hwnnw'n lledu, a rhaid mynd i'r afael ag ef. Gobeithiaf y rhoddir cyfle i'r Aelodau drafod hyn yn amser y Llywodraeth, oherwydd, mewn gwirionedd, adroddiad i'r Llywodraeth gan CCAUC yw hwn.

**Carwyn Jones:** Yn y Cynulliad Cenedlaethol, rhoddir amser hael i'r gwrthbleidiau gynnal eu dadleuon eu hunain.



practice is different from that of legislatures elsewhere, and I am sure that the Conservative Party will be well able to use some of its time to have a debate on this matter if it believes that the debate is important enough.

**Alun Ffred Jones:** David Higgins of the Olympic Delivery Authority was recently quoted as saying that:

‘75p of every £1 we are spending is for long-term regeneration’.

This is a sensitive issue, and it has been discussed in this Chamber several times. I therefore ask for a statement on the Welsh Assembly Government’s endeavours to ensure that Wales gets the Barnett consequential from this spending. After all, if we are talking about regeneration in London, surely there should be a consequential for us in Wales, and we are talking about very substantial sums of money. I would welcome a statement on this issue in the near future.

**Carwyn Jones:** As you know, Alun Ffred, this matter has been raised many times in Plenary, and the First Minister has given answers to this question and he has made the case along the lines that you have suggested. However, I see no reason why the appropriate Minister cannot keep Members informed by correspondence or by other means.

**Kirsty Williams:** I note the comments made by the Leader of the House about opposition time and how opposition parties choose to use that time for debates, but not even the generous amount of time that is given to opposition debates could encompass the problems that your Government is stacking up with regard to the funding of education. The Liberal Democrats used an hour of our time last week to debate the failure of local government to fund the foundation phase. We have just heard about the problems in the higher education sector, and similar problems are creeping up on the Government in further education. The Government gave FE colleges a below-inflation increase this year, and certain high-performing colleges will see huge cuts in their budgets, and yet the colleges do not want to talk about it prior to

Mae’r arfer hwnnw’n wahanol i arfer deddfwrfeydd mewn manau eraill, ac yr wyf yn siŵr y gall y Blaid Geidwadol ddefnyddio rhywfaint o’i hamser i gynnal dadl am hyn os yw’n credu bod y ddadl yn ddigon pwysig.

**Alun Ffred Jones:** Dywedwyd yn ddiweddar fod David Higgins o Awdurdod Gweithredu’r Gemau Olympaidd wedi dweud bod:

75c o bob £1 yr ydym yn ei gwario ar gyfer adfywio hirdymor.

Mae hwn yn fater sensitif ac fe’i trafodwyd yn y Siambr hon droeon. Felly, gofynnaf am ddatganiad ynglŷn ag ymdrechion Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod Cymru’n cael arian canlyniadol Barnett yn sgîl y gwariant hwn. Wedi’r cyfan, os sôn am adfywio yn Llundain yr ydym, oni ddylai fod arian canlyniadol inni yng Nghymru, ac yr ydym yn sôn am symiau sylweddol iawn o arian? Byddwn yn croesawu datganiad am hyn yn y dyfodol agos.

**Carwyn Jones:** Fel y gwyddoch, Alun Ffred, mae’r mater hwn wedi’i godi lawer gwaith yn y Cyfarfod Llawn, ac mae’r Prif Weinidog wedi rhoi atebion i’r cwestiwn hwn ac wedi cyflwyno dadl debyg i’r un yr ydych wedi’i hawgrymu. Fodd bynnag, ni welaf pam na all y Gweinidog priodol sicrhau bod yr Aelodau’n cael y wybodaeth ddiweddaraf drwy ohebiaeth neu drwy ddulliau eraill.

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn sylwi ar y sylwadau a wnaeth Arweinydd y Tŷ am amser y gwrthbleidiau a sut y mae’r gwrthbleidiau’n dewis defnyddio’r amser hwnnw ar gyfer dadleuon, ond ni allai hyd yn oed yr amser hael a ganiateir ar gyfer dadleuon y gwrthbleidiau gwmpasu’r problemau y mae eich Llywodraeth yn eu pentyrru ym maes cyllido addysg. Defnyddiodd y Democratiaid Rhyddfrydol awr o’n hamser yr wythnos diwethaf i ddadlau ynglŷn â methiant llywodraeth leol i ariannu’r cyfnod sylfaen. Yr ydym newydd glywed am y problemau yn y sector addysg uwch, ac mae problemau tebyg ar warthaf y Llywodraeth ym maes addysg bellach. Rhoddodd y Llywodraeth gynnydd is na chwyddiant i golegau AB eleni, a bydd toriadau anferth yng nghyllidebau rhai

the elections, because they are frightened of the consequences that might be wreaked upon them. There is industrial action because colleges are not able to fund staff pay rises properly. There is no progress on three-year funding for FE colleges, despite it being included in the 'One Wales' agreement, and there are huge uncertainties over capital funding for FE if the Government is to pursue the agenda outlined in Sir Adrian Webb's report. Perhaps, if you cannot find time to debate the crisis in higher education funding, you can find time to debate the growing crisis in the FE sector.

**Carwyn Jones:** I think that Kirsty Williams gave away the reason for her request somewhat when she mentioned the word 'elections'. There are no elections in the Assembly, of course, but the word was clearly used. What she said was flimsy on fact, high on rhetoric and without basis.

Governments have to prioritise. Opposition parties have time in which to hold their debates, and they have to learn to prioritise as well. If the Liberal Democrats feel that this matter is important enough to warrant a debate in the Assembly, then it is for them to provide us with a motion to debate.

**Brynle Williams:** Given the present climate, with the cost of fuel and its effect on the economy and every other aspect of life, it is time that this institution held a debate, possibly in Government time, to discuss the effects of fuel costs on not just the rural economy but the whole of the Welsh economy. It affects everything from transport to home heating for senior citizens to food going on to supermarket shelves. Can you find time for us to debate this matter?

**Carwyn Jones:** The problem that you describe is a global one. I noticed today that the price of Brent crude at one point touched \$115 a barrel. That is beyond the control not just of us here, but of many national Governments. A number of factors have been driving it, including the weakness of the

colegau sy'n perfformio'n dda'n. Eto i gyd, nid yw'r colegau am sôn am hynny cyn yr etholiadau, oherwydd y mae arnynt ofn y canlyniadau a allai ddod i'w rhan. Mae gweithredu diwydiannol ar y gweill am na all y colegau dalu'n iawn am godiadau cyflog i'w staff. Nid oes cynnydd i'w weld o ran yr ariannu tair blynedd ar gyfer y colegau AB, er bod hynny wedi'i gynnwys yng nghytundeb 'Cymru'n Un', ac mae ansicrwydd anferth ynglŷn â chyllid cyfalaf ar gyfer AB os yw'r Llywodraeth yn bwriadu dilyn yr agenda sydd yn adroddiad Syr Adrian Webb. Oni allwch ddod o hyd i amser i gynnal dadl am yr argyfwng ym maes ariannu addysg uwch, efallai y gallwch ddod o hyd i amser i gynnal dadl am yr argyfwng sy'n gwaethygu yn y sector AB.

**Carwyn Jones:** Credaf fod Kirsty Williams wedi gollwng y gath o'r cwd braidd drwy grybwyll y gair 'etholiadau' wrth wneud ei chais. Nid oes etholiadau yn y Cynulliad, wrth gwrs, ond defnyddiwyd y gair yn glir. Yr oedd yr hyn a ddywedodd yn brin o ffeithiau, yn llawn rhethreg ac yn ddi-sail.

Rhaid i Lywodraethau flaenoriaethu. Mae gan y gwrthbleidiau amser i gynnal eu dadleuon, a rhaid iddynt hwythau ddysgu blaenoriaethu hefyd. Os yw'r Democratiaid Rhyddfrydol yn teimlo bod y mater hwn yn ddigon pwysig i warantu dadl yn y Cynulliad, yna mae rhwydd hynt iddynt roi cynnig inni ddadlau yn ei gylch.

**Brynle Williams:** O ystyried yr hinsawdd bresennol, gyda chost tanwydd ac effaith hynny ar yr economi ac ar bob agwedd arall ar fywyd, mae'n bryd i'r sefydliad hwn gynnal dadl, yn amser y Llywodraeth o bosibl, i drafod effeithiau costau tanwydd, nid dim ond ar economi cefn gwlad, ond ar holl economi Cymru. Mae'n effeithio ar bopeth o gynhesu cartrefi'r henoed i roi bwyd ar silffoedd yr archfarchnadoedd. A allwch ddod o hyd i amser inni ddadlau ynglŷn â hyn?

**Carwyn Jones:** Mae'r broblem a ddisgrifiwch yn broblem fyd-eang. Sylwais heddiw fod pris olew crai Brent ar un adeg wedi cyrraedd \$115 y gasgen. Mae hynny nid yn unig y tu hwnt i'n rheolaeth ni yma, ond y tu hwnt i reolaeth llawer o Lywodraethau cenedlaethol. Mae nifer o ffactorau wedi bod

dollar and the speculation in oil—oil is seen as a commodity that is worth investing in, and so people buy oil and keep it, which adds to the price of oil as it is taken off the market with a consequent reduction in the amount of oil available for use.

A number of factors are at play here, but I will just refer back to what I said last week. Our economy is far too dependent on oil—the whole of western Europe is in that situation. We know that there are technologies that could be used to lessen our dependence on oil: we know about hydrogen-cell technology and we know of biofuels, but there are many pros and cons to those. The overall message to all western European economies, and those in north America, must be that the time has now come to start thinking seriously about non-oil alternatives, because I cannot see the price of oil dropping. I noticed today that the Organization of the Petroleum Exporting Countries is saying that it does not plan to increase the supply of oil until 2012, which is some way away. While OPEC is able to determine the supply of oil, we will always be in a position where we are, effectively, at OPEC's mercy. Until we learn to look at developing new technologies across the whole of western Europe, that will continue to be the case.

**Jenny Randerson:** I wish to return to the issue of the higher education funding gap and to press you, again, on finding time to discuss it. I was particularly interested in your replies on this issue, which I can sum up as follows: if we were interested in this issue, we should put in a debate on it. That is fair enough. However, I was particularly interested in your second reply, that Governments must prioritise. Can we conclude therefore, from your reply, that the higher education funding gap is not a priority for the One Wales Government?

**Carwyn Jones:** Higher education is a very strong priority for the One Wales Government. The knowledge exploitation fund is one example of that. We want to see a world-class higher education sector in Wales, but, unlike the opposition parties, we operate

yn sbarduno hyn, gan gynnwys gwendid y doler a'r hapfasnachu ym myd olew—ystyrr olew'n nwydd y mae'n werth buddsoddi ynddo, ac felly, bydd pobl yn prynu olew ac yn ei gadw. Mae hynny'n ychwanegu at bris yr olew wrth iddo'i gael ei dynnu oddi ar y farchnad ac yn sgîl hynny, mae llai o olew ar gael i'w ddefnyddio.

Mae nifer o ffactorau ar waith yma, ond cyfeirïaf yn ôl at yr hyn a ddywedais yr wythnos diwethaf. Mae ein heconomi'n dibynnu gormod o lawer ar olew—mae gorllewin Ewrop i gyd yn y sefyllfa honno. Gwyddom fod technolegau ar gael y gellid eu defnyddio i leihau'n dibyniaeth ar olew: gwyddom am dechnoleg celloedd hydrogen a gwyddom am fiodanwyddau, ond mae llawer o bethau o blaid ac yn erbyn y rheini. Y neges gyffredinol i holl economïau gorllewin Ewrop, a'r rhai yng nngledd America, mae'n rhaid, yw ei bod bellach yn bryd inni ddechrau meddwl o ddifrif am ddewisiadau amgen yn lle olew, oherwydd ni allaf weld pris olew'n gostwng. Sylwais heddiw fod Sefydliad y Gwledydd sy'n Allforio Petrolewm yn dweud nad yw'n bwriadu cynyddu'r cyflenwad olew tan 2012, ac mae tipyn o amser tan hynny. Tra bydd OPEC yn gallu rheoli'r cyflenwad olew, byddwn ni bob amser mewn sefyllfa lle'r ydym, a dweud y gwir, ar drugaredd OPEC. Nes inni ddysgu edrych ar ddatblygu technolegau newydd ledled gorllewin Ewrop, felly y bydd hi.

**Jenny Randerson:** Hoffwn ddychwelyd at y bwlch cyllido mewn addysg uwch a phwyso arnoch, eto, i ddod o hyd i amser i'w drafod. Yr oedd gennyf ddiddordeb arbennig yn eich atebion ynglŷn â'r mater hwn, a gallaf eu crynhoi fel a ganlyn: petai gennym ddiddordeb yn y mater hwn, dylem gyflwyno dadl yn ei gylch. Digon teg. Fodd bynnag, yr oedd gennyf ddiddordeb arbennig yn eich ail ateb, sef bod yn rhaid i Lywodraethau flaenoriaethu. A gawn gasglu felly, yn ôl eich ateb, nad yw'r bwlch cyllido mewn addysg uwch yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru'n Un?

**Carwyn Jones:** Mae addysg uwch yn flaenoriaeth gref iawn i Lywodraeth Cymru'n Un. Un enghraifft o hynny yw'r gronfa datblygu gwybodaeth. Dymunwn weld sector addysg uwch yng Nghymru sydd gyda'r gorau yn y byd, ond, yn wahanol i'r

within the financial settlement and we do not draw figures down from thin air. Once again, as we prioritise, so should they.

**Mark Isherwood:** I will ask about just one item. Will the Assembly Government find time to make a statement on the community engagement project that it funded? It was to look at barriers to accessing drug treatment services in north Wales, based on a survey of substance misusers that found that 51 per cent of respondents in treatment said that they did not have a care plan, for example, and that care plans were not being reviewed with service users. I would be grateful if you would give this issue your consideration and confirm in what manner the Assembly Government will be responding to it.

**Carwyn Jones:** I suggest that you take the matter up with the appropriate Minister. What I can say is that, as announced by Brian Gibbons this week, an extra £9.6 million has been allocated to deal with substance misuse over the next three years. We are currently consulting on a new 10-year strategy to tackle substance misuse in Wales. A great deal of progress has been made and I hope that the Assembly will welcome that.

gwrthbleidiau, yr ydym yn gweithredu o fewn y setliad ariannol ac nid ydym yn dyfeisio ffigurau'n ddi-sail. Unwaith eto, dylent hwythau flaenoriaethu, fel yr ydym ni'n gwneud.

**Mark Isherwood:** Gofynnaf ynghylch un eitem yn unig. A wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ddod o hyd i amser i wneud datganiad am y prosiect ymgysylltu â'r gymuned a ariannwyd ganddi. Ei ddiben oedd edrych ar y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gwasanaethau trin cyffuriau yn y gogledd, ar sail arolwg ymhlith camddefnyddwyr sylweddau a ganfu fod 51 cant o'r rhai a atebodd a oedd yn cael triniaeth yn dweud nad oedd ganddynt gynllun gofal, er enghraifft, ac nad oedd cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu gyda defnyddwyr y gwasanaethau. Byddwn yn ddiolchgar petaech yn ystyried y mater hwn ac yn cadarnhau sut y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb iddo.

**Carwyn Jones:** Awgrymaf eich bod yn codi'r mater gyda'r Gweinidog priodol. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fel y cyhoeddodd Brian Gibbons yr wythnos hon, yw bod £9.6 miliwn yn ychwanegol wedi'i ddyrannu i ymdrin â chamddefnyddio sylweddau dros y tair blynedd nesaf. Yr ydym wrthi'n ymgynghori ar strategaeth 10 mlynedd newydd i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud a gobeithiaf y bydd y Cynulliad yn croesawu hynny.

### **Pwynt o Drefn Point of Order**

**Nick Bourne:** I am grateful, Llywydd, for the opportunity to raise this point of order. I have given you advance notice of it. I also gave advance notice to the First Minister that I would raise this issue on 22 April—I believe that you have seen that notice. I wanted to give him the opportunity to clarify and perhaps put straight something that he said two weeks ago in relation to Health Commission Wales. In answer to me, he referred to the Government's intention being to change the structure of Health Commission Wales, when the matter is out for review. The review was ordered by the Government, and

**Nick Bourne:** Yr wyf yn ddiolchgar, Lywydd, am y cyfle i godi'r pwynt o drefn hwn. Yr wyf wedi rhoi gwybod ichi yn ei gylch ymlaen llaw. Rhoddais wybod ymlaen llaw hefyd i'r Prif Weinidog y byddwn yn codi'r mater hwn ar 22 Ebrill—credaf ichi weld y rhybudd hwnnw. Yr oeddwn am roi cyfle iddo egluro ac, o bosibl, cywiro rhywbeth a ddywedodd bythefnos yn ôl ynglŷn â Chomisiwn Iechyd Cymru. Wrth fy ateb, dywedodd mai bwriad y Llywodraeth oedd newid strwythur Comisiwn Iechyd Cymru, er bod y mater yn destun adolygiad. Gorchmynnwyd yr adolygiad gan y

is under the chairmanship of Professor Mansel Aylward. This has caused concern. I know that members of Health Commission Wales, for example, and others, are concerned about the misleading impression that the First Minister gave that this is already a done deal, when it is out for review. That is why I thought that he would value the opportunity to correct the misleading impression that I think that he gave on that occasion.

**The Counsel General and Leader of the House (Carwyn Jones):** Further to that point of order, Llywydd, the consultation that Nick Bourne refers to is the consultation on health reconfiguration. He would know, having read it, of course, that Health Commission Wales is specifically identified as being subject to a different exercise, with a report to be produced by Professor Mansel Aylward shortly. That is a separate review and, at the appropriate time, the Minister will take forward that report's recommendations, specifically with regard to Health Commission Wales.

**Nick Bourne:** Further to that point of order, with respect, that is not the point that I was making. The point that I was making was that the First Minister appeared to have decided in advance the outcome of the review. I think that the words that he used indicated what the intention was, although the review is going on. If a review is going on, you should wait for the outcome of that review before you announce what you are going to do.

**Carwyn Jones:** That is normal practice, and is the practice that we will be following on this occasion.

**The Presiding Officer:** Order. As is self-evident, this is not directly a matter for me, other than that I am keenly interested in the outcome. I am also keenly interested in ensuring that all answers, which are the responsibility of Ministers, are clear at all times. If leading Members of the Assembly, such as the leader of the opposition, have concerns, in view of the flexible attitude that I take towards points of order, which I

Llywodraeth ac fe'i cadeirir gan yr Athro Mansel Aylward. Mae hyn wedi peri pryder. Gwn fod aelodau Comisiwn Iechyd Cymru, er enghraifft, ac eraill, yn poeni am y camargraff a roddodd y Prif Weinidog fod hyn wedi'i benderfynu eisoes, er bod y mater yn destun adolygiad. Dyna pam y tybiais y byddai'n gwerthfawrogi'r cyfle i gywiro'r camargraff y tybiaf iddo'i roi bryd hynny.

**Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ (Carwyn Jones):** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, Lywydd, yr ymgynghoriad y mae Nick Bourne yn cyfeirio ato yw'r ymgynghoriad ar ailgyflunio iechyd. Byddai'n gwybod, ac yntau wedi'i ddarllen, wrth gwrs, fod Comisiwn Iechyd Cymru wedi'i nodi'n benodol yn gorff sy'n destun ymarferiad gwahanol, gydag adroddiad i'w baratol gan yr Athro Mansel Aylward cyn bo hir. Mae hwnnw'n adolygiad ar wahân, ac ar yr adeg briodol, bydd y Gweinidog yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr adroddiad hwnnw, gyda golwg yn benodol ar Gomisiwn Iechyd Cymru.

**Nick Bourne:** Ymhellach i'r pwynt o drefn hwnnw, gyda phob parch, nid hynny yw'r pwynt yr oeddwn yn ei wneud. Y pwynt yr oeddwn yn ei wneud oedd bod y Prif Weinidog, i bob golwg, wedi penderfynu ymlaen llaw beth fydd canlyniad yr adolygiad. Credaf fod y geiriau a ddefnyddiodd yn awgrymu beth oedd y bwriad, er bod yr adolygiad yn mynd rhagddo. Os oes adolygiad ar y gweill, dylech ddisgwyl am ganlyniad yr adolygiad hwnnw cyn cyhoeddi'r hyn y bwriadwch ei wneud.

**Carwyn Jones:** Dyna'r arfer, a dyna'r arfer y byddwn yn ei ddilyn y tro hwn.

**Y Llywydd:** Trefn. Fel y gwelir, nid yw hyn yn fater i mi'n uniongyrchol, heblaw i'r graddau fy mod yn ymddiddori'n fawr yn y canlyniad. Yn ogystal mae'n bwysig iawn gennyf sicrhau bod pob ateb, sy'n gyfrifoldeb i Weinidogion, yn glir bob amser. Os yw Aelodau blaenllaw o'r Cynulliad, fel arweinydd yr wrthblaid, yn pryderu am hyn, o gofio am fy agwedd hyblyg at bwyntiau o drefn, rhywbeth yr wyf yn edifar yn ei gylch

sometimes regret—but not today—it is appropriate that these matters should be raised for the purpose of record. This might be continued by correspondence, if there is any further doubt.

weithiau—ond nid heddiw—mae'n briodol codi'r materion hyn er mwyn iddynt fod ar glawr. Gellid parhau â hyn drwy ohebu, os oes unrhyw amheuaeth bellach.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.30 p.m.  
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.30 p.m.*

### **Y Strategaeth Pysgodfeydd The Fisheries Strategy**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Cynigiad fod

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** I propose that

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*the National Assembly for Wales:*

*yn nodi'r ymgynghoriad ar strategaeth pysgodfeydd Cymru sy'n anelu at sicrhau diwydiant pysgota hyfyw a chynaliadwy i Gymru. (NDM3912)*

*notes the consultation on the Wales fisheries strategy which aims to secure a viable and sustainable fishing industry for Wales. (NDM3912)*

Wrth gyflwyno'r cynnig hwn y prynhawn yma, yr wyf am dynnu sylw pawb at bwysigrwydd y diwydiant pysgota i economi Cymru, ac i'r economi wledig yn arbennig, ac yr wyf yn annog Aelodau i rannu eu barn ar strategaeth pysgodfeydd ddrafft Cymru. Cafodd copïau o'r strategaeth eu rhoi yn Llyfrgell yr Aelodau adeg lansio'r ymgynghoriad ar 6 Rhagfyr. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Mawrth, ac yr wyf yn awyddus heddiw i glywed barn Aelodau a'u dyheadau ar gyfer y diwydiant pysgota yng Nghymru.

In proposing this motion this afternoon, I want to highlight the importance of the fishing industry to the Welsh economy, to the rural economy in particular, and also to engage Members in the consultation exercise that I am undertaking on a draft Wales fisheries strategy. Copies of the Strategy were placed in the Members' Library at the launch of the consultation on 6 December. The consultation closed in March and today I would welcome the views of Members on their aspirations for the fishing industry in Wales.

Dyma'r strategaeth gyffredinol gyntaf erioed ar gyfer pysgodfeydd Cymru. Ffrwyth gwaith yw'r ddogfen ymgynghori hon gan Lywodraeth y Cynulliad, ei phartneriaid a rhanddeiliaid y pysgodfeydd, i ddatblygu ffordd ymlaen ar gyfer y diwydiant yn y dyfodol. Mae'n grynodedb o anghenion datblygu sectorau'r pysgodfeydd, ond mae'n ystyried hefyd ein hymrwymiaidau a'n hamcanion o ran gwarchod bioamrywiaeth a datblygu a chynnal ein hamgylchedd, a hynny oll mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r agweddau hyn yn sylfaenol wrth inni ddatblygu cynlluniau ar gyfer dyfodol ein

This is the first ever overarching fisheries strategy for Wales and the consultation document represents the work undertaken by the Welsh Assembly Government, its partners and fisheries stakeholders in developing a way forward for the industry. It represents a summary of the identified development needs of the fisheries sectors but also considers our obligations and objectives for the sustainable development, maintenance and biodiversity of our environment. These issues will be fundamental as the plans for the future of fisheries are developed. The strategy's aim is

pysgodfeydd. Nod y strategaeth yw sicrhau diwydiant sy'n gynaliadwy, sy'n hyfyw yn ariannol ac sy'n cael ei reoleiddio'n effeithiol.

Mae pysgodfeydd Cymru wedi eu rhannu'n dri sector, sef y sector môr masnachol, y sector hamdden a'r sector dyframaethu masnachol. Pysgota môr yw un o'r diwydiannau hynaf. Mae pysgodfeydd y glannau, yn arbennig, yn dod â chyfleoedd gwaith pwysig i gefn gwlad. Mae ansawdd pysgod cregyn Cymru, yn enwedig, gyda'r gorau, ac mae digon o farchnadoedd iddynt ledled Ewrop a thu hwnt. Manteision uniongyrchol pysgota i'r economi yw tua 3,500 o swyddi ac incwm o £200 miliwn, ac, o gynnwys twristiaeth hamdden, mae'r ffigurau hynny yn cynyddu'n aruthrol. Mae twristiaeth yn un rhan o'r economi wledig sy'n tyfu'n fwyfwy pwysig, ac mae ein harfordir a'n hafonydd yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau pysgota hamdden. Dyma ichi weithgaredd amser hamdden iach i bawb, sydd ar gael i bob sector yn y gymuned, ac sydd yn denu miloedd ar filoedd o ymwelwyr i Gymru bob blwyddyn.

Yr oedd y strategaeth hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y sector dyframaethu, neu ffermio pysgod, yng Nghymru. Mae'r sector hwn yn tyfu'n gyflym ac mae ganddo sylfaen sgiliau a gwybodaeth sydd ar flaen y gad. Mae gwledydd datblygol yn y dwyrain pell, y dwyrain canol a de America wedi dangos diddordeb yn ein busnesau. Mae'r diddordeb hwnnw wedi arwain at fewnfuddsoddi, yn enwedig i Ynys Môn, ac mae'r argoelion yn dda y daw mwy o fewnfuddsoddi i Gymru yn y dyfodol.

Bydd yn rhaid gwireddu'r datblygiad hwn yng nghyd-destun pryderon byd-eang difrifol am gadwraeth pysgod, a phryderon am yr angen i sicrhau nad oes amharu ar gyfanrwydd yr amgylchedd dŵr. Dyma'r ddau fater pwysicaf inni eu cadw mewn cof wrth inni ddatblygu a gweithredu ein cynlluniau i'r dyfodol, ac yr ydym yn gweithio'n rhyngweithiol gyda'r diwydiant i sicrhau ein bod yn gallu wynebu'r her hon. Yn wahanol i ddiwydiannau pysgota llawer o wledydd eraill yn Ewrop, mae 90 y cant o gychod pysgota Cymru yn defnyddio dulliau ecogyfeillgar o bysgota. Serch hynny, yr

to secure an industry that is sustainable, financially viable and effectively regulated.

There are three main fisheries sectors in Wales: the commercial sea sector, the recreational sector and the commercial aquaculture sector. Sea fishing is one of the oldest industries. Our inshore fisheries, in particular, provide important employment opportunities in rural areas. The quality of Welsh shellfish, in particular, is of a high standard and readily finds markets across Europe and beyond. The direct benefit of fishing to the economy is approximately 3,500 jobs and £200 million in income; these figures increase dramatically when you factor in recreational tourism. Tourism is an increasingly important element of the rural economy, and our coastline and many inland waterways offer a diverse range of recreational fishing opportunities. Recreational fishing offers a healthy pastime, which is available to all sectors of the community and attracts many thousands of visitors to Wales each year.

The strategy also recognized the importance of a Welsh aquaculture, or fish farming, sector. This sector is rapidly developing and has attained a skill and knowledge base that is widely recognized as being at the cutting edge. Developing countries in the far east, middle east and south America have taken an interest in our businesses. This interest has resulted in inward investment, particularly to Anglesey, and there are real prospects of further inward investment.

This development has to be achieved against the backdrop of serious global concerns about fish conservation and about the need to ensure that the integrity of the aquatic environment is not compromised. These two issues will be foremost in our mind as we develop and implement our plans for the future, and we are proactively working with the industry to ensure that, together, we can face the challenge. Unlike many other fleets around Europe, almost 90 per cent of the Welsh fleet engages in environmentally friendly fishing methods. Nevertheless, we work closely with environmental agencies

ydym yn gweithio'n glòs gydag asiantaethau a grwpiau amgylcheddol er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygu yn y sector hwn, neu yn wir, yn y sectorau hamdden a dyframaethu, yn rhoi ystyriaeth lawn i'r rheoliadau diweddaraf o ran pysgodfeydd a'r amgylchedd.

Mae iechyd economaidd y diwydiant hefyd yn fater pwysig ac yr ydym yn gweithio'n galed gyda'n partneriaid i wneud y gorau o botensial marchnadoedd ar gyfer y cynnyrch a'r pysgod o'r radd flaenaf y gallwn eu cynnig i'r byd. Er enghraifft, yr ydym yn cydweithio'n glòs â Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru i ystyried pynciau fel arallgyfeirio a physgota tymhorol, hynny yw, pysgota am fecryll ar lein, dal pysgod cregyn mewn cewyll a physgota am gorgimychiaid ym mae Ceredigion.

Yn ogystal, mae'r diwydiant pysgota masnachol a rhai elfennau o'r diwydiant dyframaethu yn ystyried y cyfleoedd i werthu cynnyrch ein pysgodfeydd i farchnadoedd lleol, gan gynnwys ysgolion lleol, drwy fentrau caffael lleol sy'n annog prynu cynnyrch iach o bysgodfeydd lleol. Mae angen mesurau rheoli a rheoleiddio effeithiol ar ddiwydiant pysgota cynaliadwy a hyfyw. Tan yn ddiweddar, nid oedd trefn ffurfiol ar gyfer cynrychioli diwydiant pysgota Cymru. Mae hwn bellach yn fater yr ydym ni a'n partneriaid wedi mynd i'r afael ag ef.

Gydag arian o'r offeryn ariannol ar gyfer cyfarwyddo pysgodfeydd ac arian cyfatebol gan Lywodraeth y Cynulliad, yr ydym wedi gallu helpu i sefydlu rhwydwaith o gymdeithasau pysgotwyr Cymru, a sefydlu Ffederasiwn Cymdeithasau Pysgotwyr Cymru, sy'n cynrychioli diwydiant pysgota Cymru ar lefel genedlaethol a Phrydeinig.

Yn ogystal, ym Mhorth Penrhyn ar y Fenai ym mis Ionawr, lansiais ffurfio Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaethu Cymru. Mae'r grŵp yn dod â phob rhan o'r diwydiant dyframaethu ynghyd ar gyfer siarad â'r Llywodraeth, ond mae hefyd yn chwilio am ffyrdd i ddatblygu technoleg a photensial marchnadoedd y diwydiant.

and groups to ensure that any development of this sector or, indeed, of the recreational and aquaculture sectors fully takes account of current fisheries and environmental regulations.

The economic viability of the industry is also an important issue and we are actively working with partners to maximize the market potential for the quality products, fish quality, fishing activities, which we undoubtedly possess. For example, we are working closely with the Welsh Federation of Fishermen's Associations on issues such as diversification and seasonal fishing—hand lining for mackerel, potting for shellfish, and fishing for prawns in Cardigan bay.

In addition, both the commercial fishing industry and some elements of the aquaculture industry are exploring opportunities for supplying fisheries' products to local markets, including local schools, through local procurement initiatives that encourage buying healthy products from local fisheries. A sustainable and viable fishing industry needs to be effectively managed and regulated. Until recently, the Welsh fishing industry lacked any co-ordinated representational structure. This is an issue on which we and our partners have already made progress.

Using money from the financial instrument for fisheries guidance and Welsh Assembly Government matched funding, we have been able to facilitate the establishment of a network of fishermen's associations and an overarching Welsh Federation of Fishermen's Associations, which represents the Welsh fishing industry at both national and UK level.

In addition, at Port Penrhyn on the Menai Straits in January, I launched the formation of the Welsh Aquaculture Producers Association. This group brings together all parts of the aquaculture industry, as a focal point for discussions with Government, but is also looking at ways of developing the technology and market potential of the industry.



Wrth ystyried sut orau i reoleiddio'r diwydiant pysgota môr yn effeithiol, yr wyf wedi bod yn pwysu a mesur nifer o bosibiliadau. Yn arbennig, yr wyf yn edrych ar y dewis ar gyfer rheoli a gorfodi yn y pysgodfeydd môr.

Ar hyn o bryd, mae pysgodfeydd glannau Cymru yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio drwy gydweithrediad Llywodraeth y Cynulliad, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, dau bwyllgor pysgodfeydd môr awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar 1 Ebrill, cymerodd Llywodraeth y Cynulliad yr awenau ar gyfer rheoli a gorfodi pysgodfeydd o fewn y môr tiriogaethol hyd at 12 milltir morol o'r lan; DEFRA a fu'n gyfrifol cyn hynny.

Yn ogystal â chyfrifoldebau Llywodraeth y Cynulliad a DEFRA, mae dau bwyllgor pysgodfeydd môr yn rheoli pysgodfeydd lleol hyd at 6 milltir morol o'r lan drwy ddefnyddio deddfau lleol. Y pwyllgorau hyn yw pwyllgor pysgodfeydd môr y de, sy'n gyfrifol am y môr o Gaerdydd i Aberteifi, a phwyllgor pysgodfeydd môr y gogledd a gogledd-orllewin Lloegr, sy'n gyfrifol am y pysgodfeydd rhwng Aberteifi a sir Gaerhirfryn yn Lloegr.

Yr wyf fi wrthi ar hyn o bryd yn meddwl a allai'r pwyllgorau hyn ac Asiantaeth yr Amgylchedd—sy'n gweithredu fel pwyllgor pysgodfeydd môr yn aber afon Dyfrdwy ac aber yr afon Hafren—wneud eu gwaith yn fwy effeithiol. Yr wyf yn bwriadu gwneud cyhoeddiad ar hyn ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol.

Yr wyf yn cynnig hefyd ein bod yn sefydlu parth pysgodfeydd Cymru i ymestyn ein cyfrifoldebau am bysgodfeydd y tu hwnt i'r terfyn o 12 milltir morol a hyd at derfynau dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Gyfunol. Gallai hynny roi cyfrifoldebau inni am reoli a gorfodi mewn pysgodfeydd hyd at y man canol rhwng Cymru a'n cymdogion ym môr Iwerddon a môr Hafren. DEFRA sy'n gyfrifol am y rhan hon o'r môr ar hyn o bryd a byddai'r cynnig yn arwain at glytwaith llai cymhleth o ddeddfwriaeth i reoli'r pysgodfeydd ar lannau Cymru. Byddai gwaith gorfodi hefyd yn haws a byddai'n

In considering how best to ensure the effective regulation of the sea fishing industry I have been exploring a number of possibilities. In particular, I am currently considering options for the management and enforcement of sea fisheries.

At present, fisheries off the Welsh coast are managed and enforced by a combination of the Welsh Assembly Government, DEFRA, two local authority sea fisheries committees and the Environment Agency. On 1 April, the Assembly Government assumed direct control of the fisheries management and enforcement capability, within the territorial sea out to 12 nautical miles; DEFRA was previously responsible.

In addition to the Welsh Assembly Government and DEFRA responsibilities, two sea fisheries committees manage local fisheries out to 6 nautical miles through the use of byelaws. These are the south Wales sea fisheries committee with responsibility for the coastal area from Cardiff to Cardigan and the north western and north Wales sea fisheries committee, which is responsible for fisheries from Cardigan to Lancashire in England.

I am currently considering whether the activities undertaken by both these committees, and the Environment Agency—acting as sea fisheries committee in the Dee estuary and in the Bristol channel—could be more effectively undertaken. I propose making an announcement on this after the local government elections.

I am also proposing the establishment of a Welsh fisheries zone to extend competence for fisheries beyond the territorial sea limit of 12 nautical miles and up to the UK limits. This would give us responsibility for fisheries management and enforcement functions off the Welsh coast up to the half-way point, with our neighbours in the Irish sea and in the Bristol channel. At present, DEFRA is responsible for this area of sea and the proposal would provide a far less complex patchwork of fisheries legislation off the Welsh coast. It would also make enforcement far easier and would give

gliriach i bysgotwyr pwy sy'n gyfrifol am beth. Mae adrannau San Steffan wedi ymateb yn galonogol hyd yn hyn i'n syniadau a bydd fy swyddogion yn ysgrifennu at grwpiau'r diwydiant yn yr wythnos nesaf i ymgynghori ar y cynigion hyn. Gallem roi'r cynnig hwn ar waith drwy Fesur Morol y Deyrnas Gyfunol neu drefn arall bosibl.

Mae'r ffrwd ariannu Ewropeaidd ar fin dod i ben, ond mae'n bleser cyhoeddi fy mod wedi gallu sicrhau €15.6 miliwn o gyllid parhaol sylweddol o'r gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd newydd. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi arian cyfatebol ac os ydych yn cynnwys arian preifat hefyd, yr ydym yn rhagweld y caiff €30 miliwn ei fuddsoddi yn niwydiant pysgota Cymru dros y saith mlynedd nesaf.

Gan droi at y gwelliannau, mae'r gwelliant cyntaf yn enw William Graham yn gofyn i Lywodraeth y Cynulliad beidio â chyflwyno trwyddedau pysgota môr fel rhan o strategaeth pysgodfeydd Cymru. Yr oedd trwyddedu pysgotwyr môr hamdden yn un o ystod o gynigion yn 'Net Benefits: A Sustainable and Profitable Future for UK Fishing', sef strategaeth Swyddfa'r Cabinet ar gyfer pysgodfeydd y Deyrnas Gyfunol dros y 15 mlynedd nesaf. Mae Llywodraeth y Cynulliad a DEFRA wedi bod yn trafod y pwnc hwn â chynrychiolwyr pysgotwyr hamdden, ac nid yw'r Mesur Morol mwyach yn cynnwys cynnig i gyflwyno trwydded o'r fath. Felly, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r gwelliant hwn.

3.40 p.m.

Mae'r ail welliant yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i ddiogelu dulliau pysgota hanesyddol a thraddodiadol, gan gynnwys pysgota â rhwydi gafl. Yr wyf yn cefnogi'r teimladau y tu ôl i'r gwelliant a byddaf fi a fy swyddogion yn cydweithio'n glòs â'r diwydiant a chydag Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n gyfrifol am reoli'r pysgodfeydd hyn o ddydd i ddydd. Wedi dweud hynny, rhaid cofio'r angen i ddiogelu stociau pysgod. Mae hon yn broblem sy'n wynebu llawer o wledydd eraill sy'n ffinio â gogledd yr Iwerydd. Enghraifft o'r broblem yw Norwy, lle ceir un o'r diwydiannau

fishermen clarity on who was responsible for what. Initial responses to our proposals from Whitehall departments have been positive and my officials will write to industry groups next week outlining the proposals. This proposal could be realised via the UK Marine Bill or other possible mechanisms.

The European funding stream is about to come to an end but I am pleased to say that I have been able to secure substantial continuing funding of €15.6 million under the new European fisheries fund. The Welsh Assembly Government will provide match funding and, if you include private investment, there will be an expected investment into the Welsh fishing industry of approximately €30 million over the next seven years.

Turning to the amendments, the first amendment in the name of William Graham asks the Welsh Assembly Government not to introduce sea angling licences as part of the Wales fisheries strategy. The licensing of recreational sea anglers was one of a large number of proposals put forward by the Cabinet Office in 'Net Benefits: A Sustainable and Profitable Future for UK Fishing', which was a strategy for UK fisheries for the next 15 years. The Welsh Assembly Government and DEFRA have had discussions with recreational interests on the issue and the Marine Bill no longer includes a proposal to introduce such a licence. The Assembly Government can support the amendment.

The second amendment calls on the Welsh Assembly Government to safeguard historic and traditional fishing methods, such as lave net fishing. I fully support this aspiration and my officials and I will be working very closely with stakeholders and with the Environment Agency, which has responsibility for the day-to-day management of these fisheries. We must, of course, bear in mind the need to conserve fish stocks. This is a problem facing many other north Atlantic countries. An example of the problem can be seen in Norway, which has one of the largest angling tourism industries in Europe. Norway

twristiaeth pysgota mwyaf yn Ewrop. Mae Norwy yn ystyried gwahardd pysgota am eogiaid yn ei holl aberoedd ac afonydd. Bydd gwarchod eogiaid yn bryder o hyd, ond yr wyf yn barod i dderbyn yr ail welliant.

Amcan strategaeth pysgodfeydd Cymru yw helpu'r diwydiant i foderneiddio ac arallgyfeirio tra'n parhau i fod yn gynaliadwy a hyfyw. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau gan fy nghyd-Aelodau y prynhawn yma er mwyn clywed eu dymuniadau ynglŷn â'r diwydiant arwyddocaol hwn.

**Brynle Williams:** I propose amendments 1 and 2 in the name of William Graham. Amendment 1: add at the end of the motion:

*seeks an assurance that the Welsh Assembly Government will not introduce sea angling licenses as part of the Wales fisheries strategy.*

Amendment 2: add at the end of the motion:

*calls on the Welsh Assembly Government to ensure historic and traditional fishing methods, such as lave net fishing, will be allowed to continue.*

Thank you, Minister for such a comprehensive statement. Wales's fisheries deserve a sustainable future, and without a holistic approach that rationalises the decades of piecemeal legislation and regulation, it is difficult to see how this is possible. This consultation does not do Wales justice, and is hardly the sound foundation on which to build a 20-year strategy.

It is worth recognising that many of the Minister's problems have been inherited from her predecessor. The consultation document was—quite bluntly—poorly constructed, unbalanced in the material that it covered, and lacking the most important detail that is essential for stakeholders. For example, there was no detail on the relative economic contribution of each fisheries sector, no information on the state of current stocks, or the long-term picture of their numbers. Likewise, for a 20-year strategy, it is surprising that there is no specific timetable for it to be reviewed and updated, nor are

is considering a ban on the taking of salmon in all its estuaries and rivers. Salmon conservation will be a continuing concern but I am, however, happy to support the second amendment.

The aim of the Wales fisheries strategy is to aid continuing diversity and modernisation of the industry, while ensuring the sustainability and viability of the industry. I look forward to hearing the contributions of fellow Members this afternoon in order to ascertain their aspirations for this crucial industry.

**Brynle Williams:** Cynigiau y gwelliannau canlynol yn enw William Graham. Gwelliant 1: ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

*yn ceisio sicrwydd na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno trwyddedau genweirio môr fel rhan o strategaeth pysgodfeydd Cymru.*

Gwelliant 2: ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caniateir i ddulliau pysgota hanesyddol a thraddodiadol, megis pysgota â rhwydi gaffl, barhau.*

Diolch i chi, Weinidog, am ddatganiad mor gynhwysfawr. Mae pysgodfeydd Cymru'n haeddu dyfodol cynaliadwy, ac os na cheir dull cyfannol o weithredu sy'n rhesymoli'r degawdau o ddeddfu a rheoleiddio tameidiog, mae'n anodd gweld sut y mae hyn yn bosibl. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn gwneud chwarae teg â Chymru, a phrin ei fod yn sylfaen gadarn i strategaeth 20 mlynedd.

Mae'n werth cydnabod bod y Gweinidog wedi etifeddu llawer o'i phroblemau gan ei rhagflaenydd. Yr oedd y ddogfen ymgynghori—a dweud y gwir yn blaen—wedi'i llunio'n wael, yr oedd ei chynnwys yn anghybwys, ac nid oedd ynddi'r manylion pwysicaf sy'n hanfodol i randdeiliaid. Er enghraifft, nid oedd manylion am gyfraniad economaidd cymharol pob un o'r sectorau pysgodfeydd, nid oedd gwybodaeth am gyflwr y stociau presennol, na rhagolwg hirdymor ar eu niferoedd. Yn yr un modd, o gofio ei bod yn strategaeth 20 mlynedd, mae'n rhyfeddol nad oes amserlen benodol ar

there clear, defined targets to deliver results, or a specific timescale to achieve them.

The consultation, quite rightly, stresses the importance of sustainable and holistic management of fisheries. This overall view is crucial. The reason that this is all that the Welsh Assembly Government could produce is that it did not provide the resources to see through the detailed and accurate strategy that it originally had in mind when the consultation was announced in 2006. Now, the staff who should be measuring the outputs in the strategy are all leaving, thanks to your Government's moving the fisheries section to Aberystwyth, which has also resulted in the added consequence of fishery Orders expiring in some of the locations stressed as important in the Minister's consultation.

The amendments tabled by the Welsh Conservatives address some of the most fundamental issues at risk within the strategy. I will concentrate on the first of those—the potential to introduce rod licences for recreational sea angling—and my colleague William Graham will address the second amendment in support of historical and traditional fishing. At its most basic level, this is an issue of a fundamental right, exercised freely by people of all ages and backgrounds across Wales; a right that the Welsh Assembly Government should not even consider taking away.

The Minister has confirmed to me in writing that, as is the case in England, rod licences will be excluded in Wales from the Marine Bill. However, I am disturbed that she apparently intends to keep the option open in Wales as part of this fisheries strategy. It is all very well using the argument that money generated by the licence would fund improved access and better marine habitat for fish, but, as the Assembly Government well knows, a single commercial trawler will trawl vastly more fish in one go than any number of hobby anglers in an entire year.

gyfer ei hadolygu a'i diweddarau, ac nad oes ychwaith dargedau clir a phendant i sicrhau canlyniadau, nac amserlen benodol ar gyfer eu cyrraedd.

Mae'r ymgynghoriad, yn gwbl briodol, yn rhoi pwys ar reoli pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy a chyfannol. Mae'r safbwynt cyffredinol hwn yn hollbwysig. Y rheswm mai hyn yw'r cwbl y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gynhyrchu yw na ddarparodd ddigon o adnoddau i gwblhau'r strategaeth fanwl a chywir a oedd ganddi mewn golwg yn wreiddiol pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad yn 2006. Yn awr, mae'r staff a ddylai fesur canlyniadau'r strategaeth i gyd yn gadael, diolch i'r ffaith bod eich Llywodraeth yn symud y gangen bysgodfeydd i Aberystwyth, ac oherwydd hynny hefyd mae Gorchmynion pysgodfeydd wedi dod i ben yn rhai o'r manau y pwysleisiwyd eu bod yn bwysig yn ymgynghoriad y Gweinidog .

Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig yn ymdrin â rhai o'r materion mwyaf sylfaenol sydd yn y fantol yn y strategaeth. Canolbwyntiaf ar y cyntaf o'r rheini—y posibilrwydd y cyflwynir trwyddedau pysgota â gwialen ar gyfer pysgota hamdden yn y môr—a bydd fy nghyd-Aelod William Graham yn trafod yr ail welliant o blaid pysgota hanesyddol a thraddodiadol. Ar ei symlaf, mae hyn yn fater o hawl sylfaenol, a arferir yn ddirwystr gan bobl o bob oed a chefnidir ledled Cymru; hawl na ddylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hyd yn oed ystyried ei dileu.

Mae'r Gweinidog wedi rhoi cadarnhad i mi drwy lythyr y bydd trwyddedau pysgota â gwialen yn cael eu gadael allan yng Nghymru o'r Mesur Morol, yn yr un modd ag yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'n ofid i mi ei bod, yn ôl pob golwg, yn bwriadu cadw'r dewis hwn yng Nghymru fel rhan o'r strategaeth pysgodfeydd hon. Digon hawdd yw dadlau y byddai arian a godid drwy'r drwydded yn talu am well mynediad a gwell cynefinoedd morol i bysgod, ond, fel y gŵyr Llywodraeth y Cynulliad yn iawn, bydd un dreill-long fasnachol yn treillio mwy o lawer o bysgod ar un tro nag y bydd llu o bysgotwyr hamdden mewn blwyddyn gyfan.

Enforcement would also be practically impossible. It is already so badly underfunded that, on occasion, it has taken days for the Environment Agency to respond to reports of poaching on the Dee estuary. I brought this to your predecessor's attention many times, Minister.

However, above all, sea angling is one of the few activities that is accessible to people of all backgrounds and means, and has been so for over 100 years. You will be aware that more people go fishing on a Saturday afternoon than attend football matches nationally. If this coalition Government intends to introduce a rod licence, and risk turning sea angling into a rich man's sport, it should have the courage to say so. If not, the Minister has an opportunity to rule out, once and for all, any threat of a rod licence being brought in for sea anglers, and I would encourage her to do so.

**Joyce Watson:** Thank you for your announcement, Minister. I am sure that it will be welcomed by the aquaculture industry, and viewed as an important long-term commitment from the Welsh Assembly Government to securing a financially and environmentally viable future for the industry.

Fishing is at the heart of many of our coastal communities; it is the cultural hearth of coastal towns and villages. It supports in the region of 3,000 jobs, and brings in around £20 million to the Welsh economy. It boosts the tourism sector, with an estimated 400,000 visitors making fishing a part of their holiday experience in Wales. Therefore, I welcome the fact that the strategy that you have announced responds to all aspects of the industry, including the contribution that it makes to community identity, its impact on, and sensitivity to, environmental change, and the framework that it provides for developing and managing healthy fish stocks and a healthy ecosystem.

Today's announcement can be seen as a further boost to the industry, following the

Byddai bron yn amhosibl gorfodi hyn hefyd. Mae eisoes yn cael ei dangyllido i'r fath raddau fel ei bod, ar adegau, wedi cymryd diwrnodau i Asiantaeth yr Amgylchedd ymateb i adroddiadau am botsian yn aber afon Dyfrdwy. Tynnais sylw eich rhagflaenydd at hyn droeon, Weinidog.

Fodd bynnag, yn anad dim, mae pysgota môr yn un o'r gweithgareddau prin y gall pobl o bob cefndir a modd ymwneud ag ef, ac mae wedi bod felly ers dros 100 mlynedd. Byddwch yn ymwybodol bod mwy o bobl yn mynd i bysgota ar brynhawn Sadwrn nag sy'n mynd i gemau pêl-droed drwy'r wlad. Os yw'r Llywodraeth glymblaid hon yn bwriadu cyflwyno trwydded pysgota â gwialen, a'r perygl yn sgîl hynny y caiff pysgota môr ei droi'n gamp i'r dyn cyfoethog, dylai fod yn ddigon dewr i ddweud hynny. Os nad ydyw, mae gan y Gweinidog gyfle i ymwrthod, unwaith ac am byth, ag unrhyw fygythiad y caiff trwydded pysgota â gwialen ei chyflwyno i bysgotwyr môr, a byddwn yn ei hannog i wneud hynny.

**Joyce Watson:** Diolch ichi am eich cyhoeddiad, Weinidog. Yr wyf yn siŵr y caiff ei groesawu gan y diwydiant dyframaeth, a'i ystyried yn ymrwymiad hirdymor pwysig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau dyfodol i'r diwydiant sy'n ddichonadwy yn ariannol ac yn amgylcheddol.

Mae pysgota'n ganolog mewn llawer o'n cymunedau arfordirol; hynny yw aelwyd ddiwylliannol ein trefi a'n pentrefi arfordirol. Mae'n cynnal tua 3,000 o swyddi, ac mae'n dod â thua £20 miliwn i economi Cymru. Mae'n hybu'r sector twristiaeth, ac amcangyfrifir bod 400,000 o ymwelwyr yn gwneud pysgota'n rhan o'u profiad gwyliau yng Nghymru. Felly, yr wyf yn croesawu'r ffaith bod y strategaeth yr ydych wedi'i chyhoeddi yn ymateb i bob agwedd ar y diwydiant, gan gynnwys y cyfraniad a wna tuag at hunaniaeth gymunedol, ei heffaith ar newid amgylcheddol a'i sensitifedd i hynny, a'r fframwaith y mae'n ei ddarparu ar gyfer datblygu a rheoli cyflenwadau pysgod iach ac ecosystem iach.

Gellir barnu bod y cyhoeddiad heddiw yn hwb pellach i'r diwydiant, yn dilyn y gwerth

£11 million worth of European grants that will be available to fishing and aquaculture industries from this year. Today, there is huge scope for diversification and commercial growth, given the trends in the market towards more sustainable, locally sourced, seasonal produce. Those markets will be especially important for the 400 or 500 smaller vessels that make up Wales's thriving inshore fishing sector. How does unregulated fishing fit into this strategy? The impact of this activity—especially fishing aboard leisure boats—goes unchecked.

**William Graham:** When I was in school, one form of punishment for those who transgressed was to write out large sections of varying publications. For those of us on the classical side, rather than the modern side, we would have to copy out large sections, principally, of Virgil's *Georgics*. The interesting point about that was that it was written at least 50 years before the Christian era. One of the passages that I particularly remember described a form of lave net fishing in Italy; I witnessed this myself a few years ago off the coast of Sicily, at Agrigento. Lave net fishing continues in the Severn estuary—just—and it is a type of fishing that has been pursued by man for well over 2,000 years.

In living memory, a range of methods once used in Wales, such as using putcher ranks, stopping boats, putts and drift-nets, are no longer practised along the Severn estuary. Lave net fishing is the only traditional method to have survived into the twenty-first century. Using this method, fish are caught at low tide, using a hand-held net, which is cast into the water. Fishing only takes place during the months of June, July and August, and, depending on weather conditions, it can only take place for about 90 minutes on each tide. Fishermen tell me that, over the past 10 years, they have caught an average of 11 fish per season.

3.50 p.m.

£11 miliwn o grantiau Ewropeaidd a fydd ar gael i'r diwydiannau pysgota a dyframaethu o eleni ymlaen. Heddiw, mae posibilidau enfawr o ran arallgyfeirio a thwff economaidd, o ystyried y tueddiadau yn y farchnad tuag at gynnyrch tymhorol, mwy cynaliadwy, o ffynonellau lleol. Bydd y marchnadoedd hynny'n arbennig o bwysig i'r 400 neu'r 500 o gychod llai sydd yn y sector llewyrchus hwnnw, sector pysgota'r glannau. Pa berthynas sydd gan bysgota nad yw'n cael ei reoleiddio â'r strategaeth hon? Nid oes neb yn cadw golwg ar effaith y gweithgaredd hwn—yn enwedig pysgota oddi ar fwrdd cychod hamdden.

**William Graham:** Pan oeddwn yn yr ysgol, un math o gosb i'r rhai a oedd yn camweddu oedd gorfod ysgrifennu darnau helaeth o wahanol gyhoeddiadau. I'r rhai ohonom ar yr ochr glasurol, yn hytrach na'r ochr fodern, byddai'n rhaid inni gopïo darnau helaeth o *Georgics* Fyrsil, yn bennaf. Y pwynt diddorol am hynny yw iddo gael ei ysgrifennu o leiaf 50 o flynyddoedd cyn y cyfnod Cristnogol. Yr oedd un o'r darnau yr wyf yn ei gofio yn arbennig yn disgrifio math o bysgota â rhwydi gafl yn yr Eidal; bûm yn dyst i hyn fy hun rai blynyddoedd yn ôl ger arfordir Sisili, yn Agrigento. Mae pysgota â rhwydi gafl yn dal i fynd rhagddo yn aber afon Hafren—er mai cael a chael ydyw—ac mae'n fath o bysgota y mae dyn wedi ymgymryd ag ef ers ymhell dros 2,000 o flynyddoedd.

O fewn cof, nid yw amryw o ddulliau a ddefnyddid ar un adeg yng Nghymru, megis defnyddio cewyll *putcher*, cychod stopio, pytiau a rhwydi drifft, yn cael eu harfer mwyach ar hyd aber afon Hafren. Pysgota â rhwydi gafl yw'r unig ddull traddodiadol sydd wedi goroesi i'r unfed ganrif ar hugain. Wrth ddefnyddio'r dull hwn, caiff pysgod eu dal ar y distyll, gan defnyddio rhwyd a gaiff ei dal â llaw, sy'n cael ei bwrw i'r dŵr. Dim ond yn ystod misoedd Mehefin, Gorffennaf ac Awst y maent yn pysgota, a, chan ddibynnu ar y tywydd, ni all ddigwydd ond am ryw 90 munud ar bob llanw. Dywed pysgotwyr wrthyf eu bod, dros y 10 mlynedd diwethaf, wedi dal 11 pysgodyn y tymor ar gyfartaledd.

The Black Rock Lave Net Fishermen's Association carries on a tradition that has a unique cultural and historical significance in south-east Wales. It has given assurances on the maximum number fish to be caught each season, namely 16, and on the fact that it will not sell those fish. It will also work with all agencies to promote tourism and heritage.

Lave net fishing is one of the fishing methods used in Wales. Like seine netting and coracle fishing on the Teifi and Tywi rivers, which are undoubtedly well known to the Minister, lave net fishing defines our heritage and we must ensure that it continues.

I am grateful to the Minister for accepting these amendments and I trust that the representation, and this debate, will help in the negotiations with the Environment Agency.

**Alun Ffred Jones:** Croesawaf ddatganiad y Gweinidog. Er bod y diwydiant pysgota yn gymharol fach, mae'n rhyfeddol o bwysig, fel y dywedwyd, i rannau o Gymru lle y ceir pysgotwyr llawn amser yn ogystal â physgotwyr rhan amser sy'n cyfuno pysgota gyda gwaith arall, megis amaethu.

Mae'r amcanion a grybwyllir yma yn gwbl dderbyniol ac i'w croesawu'n fawr. Mae gwarchod y stoc bysgod yn hanfodol am resymau amgylcheddol, ac i sicrhau diwydiant pysgota i'r dyfodol. Gobeithiaf fod y Gweinidog yn cytuno bod rhaid cydbwysu'r angen hwn gyda'r angen i gefnogi ein pysgotwyr lleol ac i ddatblygu diwydiant a'r ffordd o fyw sy'n cyd-fynd â'r diwydiant hwnnw. Yr oedd yn dda clywed y gefnogaeth i'r Gweinidog a'i chynlluniau, gan bysgotwyr ar y radio y bore yma, a oedd yn croes-ddweud yr hyn a awgrymodd Brynle Williams yn ei araith.

Yr wyf am dynnu sylw at ddwy agwedd eithriadol o bwysig. Yn gyntaf, mae angen inni ddatblygu'r diwydiant prosesu, sydd ynghlwm â'r diwydiant pysgota, ar dir Cymru. Mae miloedd o dunelli o bysgod cregyn yn cael eu glanio ar lannau'r Fenai bob blwyddyn ac yn cael eu cludo'n syth dros

Mae Cymdeithas Pysgotwyr Rhwydi Gafll Black Rock yn cynnal traddodiad sydd ag arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol unigryw yn y de-ddwyrain. Mae wedi rhoi sicrwydd o ran y nifer mwyaf o bysgod a gaiff eu dal bob tymor, sef 16, ac o ran y ffaith na fydd yn gwerthu'r pysgod hynny. Bydd hefyd yn gweithio gyda phob asiantaeth i hyrwyddo twristiaeth a threftadaeth.

Un o'r dulliau pysgota a ddefnyddir yng Nghymru yw pysgota â rhwydi gafll. Megis rhwydi sân a physgota â chwryglau ar afonydd Teifi a Thywi, y mae'r Gweinidog yn sicr yn gyfarwydd iawn â nhw, mae pysgota â rhwydi gafll yn un o nodweddion ein treftadaeth a rhaid inni sicrhau ei fod yn parhau.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am dderbyn y gwelliannau hyn a hyderaf y bydd y sylwadau, a'r ddadl hon, yn help yn y trafodaethau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.

**Alun Ffred Jones:** I welcome the Minister's statement. Although the fishing industry is relatively small, it is extremely important, as has been said, to parts of Wales where there are full-time fishermen as well as part-time ones who combine fishing with other activities, such as farming.

The objectives mentioned here are entirely acceptable and are to be warmly welcomed. Protecting fish stocks is vital for environmental reasons, and to ensure a future for the fishing industry. I hope that the Minister agrees that we must balance this need with the need to support our local fishermen and to develop an industry and a way of life that is compatible with that industry. It was pleasing to hear fishermen on the radio this morning giving their support to the Minister and her plans, which contradicted what Brynle Williams suggested in his speech.

I will draw attention to two exceptionally important aspects. First, we need to develop the processing industry in Wales, which is linked to the fishing industry. Thousands of tonnes of shellfish are landed on the banks of the Menai every year and are immediately shipped overseas to continental Europe. One

y dŵr i gyfandir Ewrop. Mae un agwedd ar y fasnach hon yn peri tipyn o benbleth i mi; nid yw rhai o archfarchnadoedd Prydain yn fodlon derbyn y cynnyrch hwn oherwydd ansawdd y dŵr. Fodd bynnag, unwaith yr aiff dros y dŵr i'r Iseldiroedd, caiff ei becynnu a'i anfon yn ôl i Brydain i'w werthu. Felly, mae lle i ni ystyried sut y gallwn ddatblygu'r diwydiant prosesu a fydd yn cynnig ac yn ychwanegu gwerth at yr hyn sy'n digwydd eisoes.

Yr ail agwedd yw cryfhau'r cyswllt rhwng pysgod lleol a'r diwydiant twristiaeth. Eisoes, mae tai bwyta blaengar yn defnyddio'r cynnyrch ac yn hysbysebu hynny ar eu bwydlenni. Serch hynny, mae angen inni newid arferion pob bwyty yng Nghymru fel bod ymwelwyr yn cael profiad cyflawn Cymreig. Byddai hynny yn rhoi hwb i'r diwydiant twristiaeth.

Croesawaf eich sylwadau ynglŷn â helaethu ffiniau moroedd Cymru i gyfeiriad Iwerddon. Pwy a wŷr? Hwyrach, rhyw dro yn y dyfodol, bydd hynny'n fodd inni adennill Cantre'r Gwaelod a ddiflannodd rai blynyddoedd yn ôl, yn ôl pob sôn. Pwy a wŷr pa fanteision eraill a all ddod i ni fel Cymry?

**Michael German:** I am pleased that we are having this debate today and that the strategy has been brought forward, although not without some undue delay. That is no criticism of the Minister. Perhaps she can reflect upon the delay when she replies.

On 3 March 2003, I announced that the Welsh Assembly Government would complete an all-Wales fishing strategy by the end of that year. However, there was an intervening election. Since May 2003, we have been in somewhat of a limbo. I congratulate the Minister on picking up the baton and running with it and moving ahead, but will the Minister reflect, in her response, on what happened in the intervening four years? It is just as vital today that we have this strategy as it was in 2003. However, I welcome the fact that progress has been made, although somewhat belatedly.

We had a discussion during the debate in 2003 on lave net fishing and on aquaculture.

aspect of this market is something of a puzzle to me; some of Britain's supermarkets are unwilling to accept this produce because of the water quality. However, once it has been shipped overseas to the Netherlands, it is packaged and sent back to Britain to be sold. Therefore, we should consider how we can develop the processing industry, which will provide and add value to what is already happening.

The second aspect is to strengthen the link between local fish and the tourism industry. Innovative restaurants are using the produce and are advertising this on their menus. Even so, we need to change the practices of every restaurant in Wales so that visitors get a complete Welsh experience. That would give the tourism industry a boost.

I welcome your comments on expanding Wales's sea borders towards Ireland. Who knows? Perhaps, in the future, it will enable us to reclaim Cantre'r Gwaelod, which, rumour has it, disappeared a few years ago. Who knows what other benefits it could bring to us in Wales?

**Michael German:** Yr wyf yn falch ein bod yn cael y ddadl hon heddiw a bod y strategaeth wedi cael ei chyflwyno, er na fu hynny heb oedi gormodol. Nid beirniadaeth ar y Gweinidog yw hynny. Efallai y gall hi ystyried yr oedi pan fydd yn ateb.

Ar 3 Mawrth 2003, cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cwblhau strategaeth bysgota i Gymru gyfan erbyn diwedd y flwyddyn honno. Fodd bynnag, bu etholiad yn y cyfamser. Ers mis Mai 2003, yr ydym wedi bod mewn rhyw fath o limbo. Llongyfarchaf y Gweinidog ar ailafael yn y mater a bwrw ymlaen ag ef, ond a wnaiff y Gweinidog ystyried, yn ei hymateb, beth a ddigwyddodd yn y pedair blynedd a aeth heibio yn y cyfamser? Mae yr un mor hanfodol heddiw inni gael y strategaeth hon ag a oedd yn 2003. Fodd bynnag, croesawaf y ffaith bod cynnydd wedi cael ei wneud, er bod hynny braidd yn hwyr.

Cawsom drafodaeth yn ystod y ddadl yn 2003 am bysgota â rhwydi gafl a



In fact, it was Brian Gibbons who raised the issue of aquaculture and said how important it was. It is crucial that that is reflected in the strategy.

What does the Minister consider is the importance of a holistic approach, which Brynle referred to earlier? You have three separate sectors, all of which have an interest. The difficulty, as we always find, is in bringing the economic, environmental and leisure and tourism interests together, as you have to ensure that all three are satisfied. The environmental aspects are about conservation and so on. You must balance those with the other concerns.

I welcome the announcement in the Minister's statement of the structural review of the organisation of the fisheries committees and the various pieces of legislation, which are a historical muddle. We have grown up with a whole set of different pieces of legislation and different structures that must now be matched to the times that we are in. However, in matching the structure of governance to the times, we must bear in mind the three, not necessarily competing but certainly different, interests in our fisheries. Most of Wales's commercial fishing is inshore fishing, and most of the deep-sea fishing licences were sold off to boats from countries in other parts of the European Union. Therefore, we lost most of our deep-sea fishing a decade ago. For commercial reasons, we must ensure the survival of our inshore fishing. At the same time, we must balance that with the management of fish stocks.

I echo what William said earlier about traditional lave net fishing. In fact, I think that the figures that William gave for the number of fish that they would catch in a season were optimistic. It may be more likely that we would be talking about catching five fish using a traditional fishing method that is so old that it now merits a visitor centre and tourism in its own right. However, it is unlikely that you would see the fishing taking place because it is limited to certain months

dyframaethu. Yn wir, Brian Gibbons oedd yr un a gododd fater dyframaethu gan ddweud mor bwysig ydoedd. Mae'n dyngedfennol i hynny gael ei adlewyrchu yn y strategaeth.

Beth ym marn y Gweinidog yw pwysigrwydd dull cyfannol o ymdrin â hyn, rhywbeth y cyfeiriodd Brynle ato'n gynharach? Mae gennych dri sector ar wahân, ac mae gan bob un ohonynt fuddiant. Yr anhawster, fel yr ydym yn canfod bob amser, yw dod â'r buddiannau economaidd, amgylcheddol a hamdden a thwristiaeth ynghyd, gan fod yn rhaid ichi sicrhau bod pob un o'r tri yn fodlon. Mae a wnelo'r agweddau amgylcheddol â chadwraeth ac yn y blaen. Rhaid ichi gydbwyso'r rheini â'r pryderon eraill.

Croesawaf y cyhoeddiad yn natganiad y Gweinidog am yr adolygiad strwythurol o drefniadaeth y pwyllgorau pysgodfeydd a'r gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth, sy'n ddryswch hanesyddol. Yr ydym wedi tyfu i fyny gyda set gyfan o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth a gwahanol strwythurau y mae'n rhaid inni yn awr sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'n hoes ni. Fodd bynnag, wrth sicrhau bod y strwythur llywodraethu yn cyd-fynd â'r oes sydd ohoni, rhaid inni gadw mewn cof y tri buddiant yn ein pysgodfeydd, nad ydynt yn cystadlu yn erbyn ei gilydd o reidrwydd ond sy'n wahanol yn sicr. Pysgota ar hyd y glannau yw'r rhan fwyaf o bysgota masnachol Cymru, a chafodd y rhan fwyaf o'r trwyddedau pysgota cefnfor eu gwerthu i gychod o wledydd mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd. Felly, collasom y rhan fwyaf o'n pysgota cefnfor ddegawd yn ôl. Am resymau masnachol, rhaid inni sicrhau bod pysgota ar hyd ein glannau yn goroesi. Ar yr un pryd, rhaid inni gydbwyso hynny â rheoli'r cyflenwadau o bysgod.

Adleisiaf yr hyn a ddywedodd William yn gynharach am bysgota traddodiadol â rhwydi gafl. Yn wir, credaf fod y ffigurau a roddodd William am nifer y pysgod y byddent yn eu dal mewn tymor yn optimistaidd. Efallai ei bod yn fwy tebygol y byddem yn siarad am ddal pum pysgodyn drwy ddefnyddio dull pysgota traddodiadol sydd mor hen fel ei fod ynddo'i hun erbyn hyn yn haeddu canolfan ymwelwyr a thwristiaeth. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddech yn gweld y

of the year and certain times. I am grateful that the Minister accepted that point.

On aquaculture, can the Minister tell us whether the level of support coming into the country through European grant aid will be sufficient to ensure that we can take this wholesale development forward? It was seen as a potential new food-stock processing route for the Welsh fishing industry. I am not certain that we have seen that grow as fast as we would have liked—perhaps in the way that it has grown in Scotland.

Although we are pleased to have the strategy before us, we feel that there is a lack of clarity and detail. We need to see more detail to back up the document. As Brynle rightly pointed out, there are some critical questions that remain unanswered. Provided that we can achieve the right balance between the three competing aspects and get the detail into the strategy, this has the potential to be a successful strategy for the future.

**Paul Davies:** Yr wyf yn ddiolchgar o gael y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl, oherwydd mae'r diwydiant pysgota yn chwarae rôl bwysig yn fy ardal i. Yn anffodus, mae'r diwydiant pysgota wedi dirywio'n sylweddol yn fy etholaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Croesawaf yr ymgynghoriad a'r strategaeth pysgodfeydd—bu gwir angen amdanynt ers blynyddoedd. Mae diffyg strategaeth holistaidd wedi bod yn fygythiad i gynaliadwyedd pysgodfeydd Cymru, ac mae hyn hefyd wedi effeithio ar gynllunio ac ar fuddsoddi yn y diwydiant.

Croesawaf fod y strategaeth hon dros gyfnod o 15 i 20 mlynedd, a bod y cynlluniau'n cynnwys sut i ddatblygu a rheoli pysgodfeydd mewn perthynas â'r amgylchedd, yn ogystal â sicrhau bod gan y gymuned gyfraniad positif i'w wneud.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i ddyfodol y diwydiant pysgota. Mae pysgodfeydd yn ganolog i lawer o gymunedau, yn enwedig o amgylch arfordir

pysgota'n digwydd oherwydd y mae wedi'i gyfyngu i rai misoedd o'r flwyddyn a rhai adegau. Yr wyf yn ddiolchgar bod y Gweinidog wedi derbyn y pwynt hwnnw.

O ran dyframaethu, a all y Gweinidog ddweud wrthym a fydd lefel y cymorth sy'n dod i'r wlad drwy gymorth grant Ewropeaidd yn ddigon i sicrhau y gallwn fwrw ymlaen â'r datblygiad hwn yn ei grynsyth? Ystyrid hyn yn ffordd newydd bosibl o brosesu cyflenwadau bwyd i ddiwydiant pysgota Cymru. Nid wyf yn siŵr a ydym wedi gweld hynny'n tyfu cyn gyflymed ag y byddem wedi dymuno—yn y ffordd y mae wedi tyfu yn yr Alban, efallai.

Er ein bod yn falch o gael y strategaeth ger ein bron, teimlwn fod diffyg eglurder a manylion. Mae angen inni weld rhagor o fanylion i ategu'r ddogfen. Fel y dywedodd Brynle yn gwbl gywir, mae rhai cwestiynau tyngedfennol nad ydynt byth wedi cael eu hateb. Cyhyd ag y gallwn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng y tair agwedd sy'n cystadlu â'i gilydd a chynnwys y manylion yn y strategaeth, mae'n bosibl y gall hon fod yn strategaeth lwyddiannus ar gyfer y dyfodol.

**Paul Davies:** I am grateful for the opportunity to participate in the debate, because the fishing industry plays an important role in my area. Unfortunately, the fishing industry in my constituency has deteriorated substantially over recent years. I welcome the consultation and the fisheries strategy, which has been much-needed for many years. The lack of a holistic strategy has been a threat to the sustainability of fisheries in Wales, which has affected investment and planning for the industry too.

I welcome the fact that this strategy is for a period of 15 to 20 years and that the plans include detail on how to develop the management of fisheries in relation to the environment and how to ensure that the community has a positive role to play.

Working in partnership is crucial to the future of the fishing industry. Fisheries are central to many communities, particularly around the coastline of Wales, where the fishing industry

Cymru. Yno, y diwydiant pysgota yw un o'r prif gyflogwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at yr economi wledig.

is one of the main employers. It contributes substantially to the economy of rural Wales.

4.00 p.m.

Mae pysgota hamdden hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn rhai economïau lleol, ac, er mwyn cwrdd ag anghenion y dyfodol, mae angen gwella seilwaith y diwydiant, a gwelaf fod y strategaeth yn cynnwys hynny. Bydd yn hollbwysig i sicrhau dyfodol y diwydiant.

Leisure fishing also plays an essential role in some economies, and, in order to fulfil the needs of the future, the infrastructure of the industry needs to be improved, and I see that the strategy includes that. This will be crucial to safeguard the future of the industry.

Mae'r strategaeth yn sôn am bwysigrwydd cydweithio ymysg pysgotwyr er mwyn sicrhau marchnadoedd, er enghraifft, ac yr wyf yn falch o weld bod y strategaeth yn sôn am hyn. Efallai y bydd y Gweinidog yn fodlon ehangu yn ei hymateb ar sut y bydd y cydweithio hwn rhwng pysgotwyr yn gweithio, oherwydd, yn draddodiadol, bu cystadleuaeth ffyrnig rhyngddynt. Sonnir yn y strategaeth am farchnata'r diwydiant, sy'n hanfodol, yn enwedig gan nad yw saith o bob 10 o bobl ym Mhrydain yn bwyta pysgod o gwbl. Mae'n bwysig bod y strategaeth yn canolbwyntio ar ehangu marchnadoedd a fydd, gobeithio, yn cynnwys hybu pysgod fel bwyd iachus.

The strategy mentions the importance of co-operation among fishermen in order to safeguard markets, for example, and I am glad to see that the strategy mentions this. Perhaps the Minister will be willing to expand in her reply on how this co-operation between fishermen will work, because, traditionally, there has been fierce competition between them. The strategy mentions marketing the industry, which is crucial, particularly since seven out of 10 people in Britain do not eat fish at all. It is important that the strategy focuses on how to expand markets which, hopefully, will include the promotion of fish as a healthy food.

Gobeithiaf y bydd fersiwn olaf y strategaeth yn cynnwys newid strwythurau'r diwydiant, oherwydd, ar hyn o bryd, mae gennym yma yng Nghymru, fel y dywedodd y Gweinidog, ddau bwyllgor sy'n edrych ar ôl ein harfordir: sef Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. Fodd bynnag, fel y dywedodd Mike German, gall hyn greu dryswch a chroesawaf y ffaith y bydd y Gweinidog yn edrych ar hyn. Gobeithiaf y bydd hefyd yn cynnal trafodaethau â Gweinidogion Prydain i symleiddio'r strwythurau hyn.

Hopefully, the final version of the strategy will include a change to the structure of the industry, because, at present, we have in Wales, as the Minister mentioned, two committees that look after our coastline: namely North Western and North Wales Sea Fisheries Committee and the South Wales Sea Fisheries Committee. However, as Mike German mentioned, this can create confusion and I welcome the fact that the Minister will be looking at this issue. I hope that she will also hold discussions with UK Ministers to simplify these structures.

Deallaf nad yw Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu eto a yw am ofyn am bwerau fframwaith ym Mesur Morol arfaethedig San Steffan, sy'n cynnwys darpariaethau i foderneiddio'r pwyllgorau pysgodfeydd môr. Byddai hyn, yn fy marn i, yn rhoi cyfle i reoli'r pysgodfeydd yn fwy effeithiol, a dywedaf hyn gan imi dderbyn cwynion ynghylch rheoli pysgodfeydd yn ddiweddar, gan gynnwys enghraifft o un o'r

I understand that the Assembly Government has not yet decided whether it wants to request framework powers in the draft Marine Bill at Westminster, which includes provisions to modernise sea fisheries committees. In my opinion, this would provide an opportunity to manage fisheries more effectively, and I say this because I have received complaints regarding the management of fisheries recently, including

pwyllgorau yn rhoi trwydded i un o'm hetholwyr ar ddechrau'r flwyddyn, ond yn ei diddymu'n sydyn, ymhell cyn i'r tymor ddod i ben, gan fod y stociau yn gwacáu. Hyderaf y bydd y Gweinidog yn cytuno nad dyna'r ffordd i sicrhau diwydiant cynaliadwy. Y mae'n glir yn yr achos hwnnw y cafodd gormod o drwyddedau eu darparu, ac, wedi siarad â swyddogion y pwyllgorau, deallaf nad oes ganddynt bwerau ar hyn o bryd i gyfyngu ar nifer y trwyddedau y maent yn eu darparu. Nid yw hyn yn gwneud llawer o synnwyr i mi, a gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd y strategaeth yn cynnwys cynlluniau manwl i ddelio ag achosion tebyg.

Yn sgîl yr ymgynghoriad hwn, efallai y gall y Gweinidog roi rhyw fath o amserlen ar ba bryd y mae'n credu y caiff fersiwn olaf y strategaeth ei chyhoeddi, ac felly pa bryd y mae'r Llywodraeth yn gobeithio gweithredu ar hyn. Gobeithiaf hefyd y bydd y Llywodraeth yn sicrhau, pan weithredir y fersiwn derfynol, y caiff y strategaeth ei hariannu'n ddigonol.

Croesawaf y strategaeth eto, a gobeithiaf y bydd yn sicrhau diwydiant pysgota hyfyw a chynaliadwy i Gymru.

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Diolch i bawb am eu cyfraniadau i'r ddadl. Nid wyf yn siŵr a yw Paul Davies a Brynle Williams yn perthyn i'r un blaid, oherwydd cafodd y strategaeth groeso gan y siaradwr olaf, Paul Davies, ond ni chafodd unrhyw fath o groeso gan Brynle Williams, sef llefarydd y Torïaid ar faterion gwledig. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'r strategaeth wedi cael cymeradwyaeth frwd gan y diwydiant pysgota yn ei holl amrywiaeth. Mae'n bosibl na chlywodd Brynle Williams fy mod wedi derbyn gwelliant 1, a minnau wedi dweud hynny yn fy araith gyflwyno. Felly, cadarnhaf unwaith eto fy mod yn derbyn gwelliant 1, a phwysleisiaf nad oes unrhyw fwriad gan y Llywodraeth i gyflwyno trwyddedau pysgota hamdden ar y môr.

William Graham has quoted Einstein to me in the past; today, it was Virgil. I cannot attempt to challenge him on that, and so I am only glad that I accept the amendment that he

an example of one of the committees granting a licence to one of my constituents at the beginning of the year, but withdrawing it suddenly, long before the term expired, because the stocks were diminishing. I am sure that the Minister agrees that that is not the way to safeguard a sustainable industry. It is clear in that case that too many licences had been granted, and, having spoken to the committee officials, I understand that they do not currently have the powers to limit the number of licences that are granted by them. This does not make much sense to me, and I hope that the Minister will ensure that the strategy will include detailed plans to deal with such cases.

In the light of this consultation, perhaps the Minister can give us some sort of timetable as to when she thinks the final version of the strategy will be announced, and therefore when the Government hopes to take action on this. I also hope that the Government will ensure that, when the final version is implemented, the strategy will be sufficiently funded.

Once again, I welcome the strategy, and I hope that it will safeguard a viable and sustainable fishing industry for Wales.

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** Thank you all for your contributions to the debate. I am not sure whether Paul Davies and Brynle Williams belong to the same party, because the strategy was welcomed by the final speaker, Paul Davies, but it did not receive any sort of welcome by Brynle Williams, the Conservative spokesperson on rural affairs. However, on the whole, the strategy has been warmly welcomed by the fishing industry in its various forms. It is possible that Brynle Williams had not heard that I had accepted amended 1, although I had said so in my introductory speech. Therefore, I confirm once again that I have accepted amendment 1, and I emphasise that the Government has no intention to introduce recreational sea angling licences.

Mae William Graham wedi dyfynnu geiriau Einstein wrthyf yn y gorffennol; heddiw, rhai Fyrsil oeddent. Ni allaf geisio'i herio ar hynny, ac felly yr wyf yn falch iawn fy mod

spoke to this afternoon. His speech concentrated on the amendment and particularly on the Black Rock lave net fishermen, as did Mike German's. When I met the Black Rock fishermen with John Griffiths, Mohammad Asghar and Jocelyn Davies, I gave them a commitment to support their way of fishing, and I maintain an interest in the negotiations between the Black Rock fishermen and the Environment Agency, although it is not a ministerial decision to make.

**Mohammad Asghar:** On fish stocks, as William just said, they catch 11 fish a year in Black Rock through lave net heritage fishing. The number of licences issued for that type of fishing should be different from those for commercial fishing. It has been going on for centuries and the heritage aspect should be considered sympathetically.

**Elin Jones:** I share your sympathy and that of other Members with the heritage aspect of lave net fishing in Black Rock. I hope that, in negotiations between the Black Rock fishermen and the Environment Agency, there is a proportionate response to the various issues at stake.

Cododd Alun Ffred, Joyce Watson a Paul Davies bwyntiau tebyg iawn ynghylch pwysigrwydd y diwydiant pysgota, a phwysleisiwyd pwysigrwydd achub ar gyfleoedd newydd i'r diwydiant. Cyfeiriodd Alun Ffred yn benodol at yr angen i ddatblygu'r isadeiledd ar y ceiau wrth lanio'r pysgod a'r bwyd môr, er mwyn caniatáu i'r sector pysgota gyflenwi bwyd môr yn fwy lleol nag a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft i'r sector cyhoeddus, megis ysgolion, ac i westai a thai bwyta lleol.

Cyfeiriodd Paul Davies hefyd at yr angen i sefydlu strwythur rheoleiddio newydd yng Nghymru, gan gyfeirio at strwythur presennol Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Fel y dywedais yn fy araith gychwynnol, byddaf yn gwneud cyhoeddiad am y materion

yn derbyn y gwelliant y siaradodd o'i blaidd y prynhawn yma. Canolbwyntiodd ei araith ar y gwelliant ac yn enwedig ar bysgotwyr rhwydi gafl Black Rock, fel y gwnaeth un Mike German. Pan gyfarfûm â physgotwyr Black Rock gyda John Griffiths, Mohammad Asghar a Jocelyn Davies, addewais iddynt y byddwn yn cefnogi eu dull o bysgota, ac yr wyf yn dal i ymddiddori yn y negodiadau rhwng pysgotwyr Black Rock ac Asiantaeth yr Amgylchedd, er nad yw'n benderfyniad i'r Gweinidog.

**Mohammad Asghar:** Ynghylch stociau pysgod, fel y mae William newydd ddweud, maent yn dal 11 o bysgod y flwyddyn yn Black Rock drwy bysgota yn hen ddull y rhwydi gafl. Dylai nifer y trwyddedau a roddir ar gyfer pysgota o'r math hwnnw fod yn wahanol i'r nifer ar gyfer pysgota masnachol. Mae'n digwydd ers canrifoedd a dylid ystyried yr agwedd ar hyn sy'n ymwneud â threftadaeth gyda chydymdeimlad.

**Elin Jones:** Fel chithau ac Aelodau eraill, yr wyf yn cydymdeimlo â'r agwedd ar bysgota â rhwydi gafl yn Black Rock sy'n ymwneud â threftadaeth. Yr wyf yn gobeithio bod ymateb cymesur yn y negodiadau rhwng pysgotwyr Black Rock ac Asiantaeth yr Amgylchedd i'r gwahanol faterion sydd yn y fantol.

Alun Ffred, Joyce Watson and Paul Davies made very similar points regarding the importance of the fishing industry, and emphasised the importance of identifying new opportunities for the industry. Alun Ffred made specific reference to the need to develop the infrastructure on the quays for landing fish and shellfish, in order to allow the fisheries sector to provide seafood on a more local basis than it has done in recent years to the public sector, for example, such as schools and local hotels and restaurants.

Paul Davies also referred to the need for establishing a new regulatory framework in Wales, making particular reference to the current structure of the South Wales Sea Fisheries Committee and the North Western and North Wales Sea Fisheries Committee. As I said in my opening remarks, I will be making an announcement on those structural

strwythurol hyn yn dilyn etholiadau llywodraeth leol wythnos nesaf.

Mike German referred to his having announced the prospect of a fisheries strategy in March 2003 and asked me to reflect on that. I quickly reflected that he was out of his job by May 2003. It is not for me to comment on what happened in the intervening period, but the time is now opportune to develop this fisheries strategy in advance of our access to the funding available to us through the European fisheries fund. The potential of aquaculture in all its forms, as suggested by Mike German, will feature significantly in the European fisheries fund allocation to Wales.

I thank everyone for their comments. My officials and industry stakeholders will now take forward the comments from this debate and the wider public consultation, and will form a detailed implementation plan to use the funding now at our disposal from European, Assembly Government and private sector sources.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that you do not. In accordance with Standing Order No. 7.35, therefore, amendment 1 is carried.

*Derbyniwyd gwelliant 1.  
Amendment 1 carried.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that you do not. In accordance with Standing Order No. 7.35, therefore, amendment 2 is carried.

*Derbyniwyd gwelliant 2.  
Amendment 2 carried.*

Motion NDM3912 as amended: that  
*the National Assembly for Wales:*

*1. notes the consultation on the Wales fisheries strategy which aims to secure a viable and sustainable fishing industry for Wales;*

issues following the local government elections next week.

Cyfeiriodd Mike German at y ffaith ei fod wedi cyhoeddi'r posibilrwydd o gael strategaeth pysgodfeydd ym Mawrth 2003 a gofynnodd imi ystyried hynny. Cofiais yn sydyn ei fod wedi gadael ei swydd erbyn Mai 2003. Nid fy lle i yw gwneud sylwadau am yr hyn a ddigwyddodd yn y cyfamser, ond mae bellach yn amserol datblygu'r strategaeth pysgodfeydd hon cyn inni gael mynediad at y cyllid sydd ar gael i ni drwy'r gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd. Bydd lle amlwg i botensial dyframaethu o bob math yn y dyraniad i Gymru o'r gronfa pysgodfeydd Ewropeaidd, fel yr awgrymodd Mike German.

Diolchaf i bawb am eu sylwadau. Bydd fy swyddogion a rhanddeiliaid o'r diwydiant yn awr yn ystyried y sylwadau yn sgîl y ddadl hon a'r ymgynghori cyhoeddus ehangach, a byddant yn llunio cynllun gweithredu manwl i ddefnyddio'r cyllid sydd bellach ar gael i ni o ffynonellau Ewropeaidd ac o ffynonellau Llywodraeth y Cynulliad a'r sector preifat.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw derbyn gwelliant 1. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw derbyn gwelliant 2. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

Cynnig NDM3912 fel y'i diwygiwyd: bod  
*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*1. yn nodi'r ymgynghoriad ar strategaeth pysgodfeydd Cymru sy'n anelu at sicrhau diwydiant pysgota hyfyw a chynaliadwy i Gymru;*

2. *seeks an assurance that the Welsh Assembly Government will not introduce sea angling licenses as part of the Wales fisheries strategy;*

3. *calls on the Welsh Assembly Government to ensure historic and traditional fishing methods, such as lave net fishing, will be allowed to continue.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion as amended. Does any Member object? I see that no-one does. In accordance with Standing Order No. 7.35, therefore, the motion as amended is carried.

*Derbyniwyd cynnig NDM3912 fel y'i diwygiwyd.  
Motion NDM3912 as amended carried.*

### **Oedi wrth Drosglwyddo Gofal Delayed Transfers of Care**

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendment 1 in the name of William Graham.

**The Minister for Health and Social Services (Edwina Hart):** I propose that

*the National Assembly for Wales:*

*notes the publication of the report of the independent review of delayed transfers of care, as commissioned by the National Assembly for Wales in November 2006. (NDM3913)*

The independent review of delayed transfers of care was commissioned following a minority party motion in November 2006. The study was carried out by the Welsh Institute for Health and Social Care, and its report was published last week. It has some helpful things to say about delayed transfers of care. My view is that considerably more effort is needed by local government and the national health service to manage this problem. We know that, in too many areas, social services and the NHS are not planning and managing services effectively, resulting in patients being delayed in inappropriate settings because the required services are not available to them. When patients are not

2. *yn ceisio sicrwydd na fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno trwyddedau genweirio môr fel rhan o strategaeth pysgodfeydd Cymru;*

3. *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau y caniateir i ddulliau pysgota hanesyddol a thraddodiadol, megis pysgota â rhwydi gafl, barhau.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig sydd gerbron yw derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig fel y'i diwygiwyd ei dderbyn.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw William Graham.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Cynigaf fod

*Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*yn nodi bod adroddiad yr adolygiad annibynnol o'r oedi wrth drosglwyddo gofal, fel y'i comisiynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Tachwedd 2006, wedi cael ei gyhoeddi. (NDM3913)*

Comisiynwyd yr adolygiad annibynnol o oedi wrth drosglwyddo gofal yn sgîl cynnig gan blaid leiafrifol yn Nhachwedd 2006. Cyflawnwyd yr astudiaeth gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, a chyhoeddwyd ei hadroddiad yr wythnos diwethaf. Mae ganddi rai pethau buddiol i'w dweud am oedi wrth drosglwyddo gofal. Fy marn i yw bod angen ymdrech fwy o lawer gan lywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd gwladol i reoli'r broblem hon. Gwyddom fod gormod o ardaloedd lle nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG yn cynllunio ac yn rheoli gwasanaethau'n effeithiol, a bod cleifion, o ganlyniad, yn cael eu dal yn ôl mewn lleoliadau amhriodol am

provided with the services that they require in the community, their needs often escalate and they end up unnecessarily in hospital. Patients then quickly lose independence, and often require more intensive support when they eventually leave hospital.

4.10 p.m.

Partnerships between the national health service and social services are often immature, failing to address problems from the patient's perspective. Partnerships are too often subject to the whims of individuals, rather than recognising the imperative to work together for patients. Some organisations are still working in their own silos, furthering their own narrow interests, rather than being truly citizen-centred. Pooled funds and other flexibilities have been made available since 1999, yet social services and the NHS have made limited use of these provisions in developing joined-up solutions.

Within the NHS, effective discharge planning is patchy. Inadequate progress has been made in this basic activity, despite much guidance and support. Weaknesses in this area lead to confusion, delay and disputes at patient level.

Therefore, much still needs to be done to address delays. The key is to view the matter from the perspective of the citizen. I want to see local organisations getting a real grip on what people need from health and social care, so that the right services are available when they are needed in the community and in hospitals. In taking forward their health, social care and wellbeing strategies, local bodies need to address the core gaps that exist, and these strategies provide an obvious way for health and social services to work together to put the necessary services in place.

The national health service must do

nad yw'r gwasanaethau sy'n ofynnol ar gael iddynt. Os na roddir i gleifion y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen yn y gymuned, bydd eu hanghenion yn dwysáu'n aml a byddant yn mynd i'r ysbyty yn y diwedd heb fod angen hynny. Bydd cleifion yn colli eu hannibyniaeth yn fuan wedyn, ac yn aml bydd arnynt angen gofal dwysach wedi iddynt adael yr ysbyty yn y diwedd.

Mae'r partneriaethau rhwng y gwasanaeth iechyd gwladol a'r gwasanaethau cymdeithasol yn anaeddfed yn aml, a hwythau'n methu â delio â phroblemau o safbwynt y claf. Yn rhy aml, mae partneriaethau'n agored i fympwyon unigolion, yn hytrach na'u bod yn cydnabod y rheidrwydd i gydweithio er mwyn cleifion. Mae rhai cyrff yn dal i weithio ar eu pennau eu hunain, gan hyrwyddo'u buddiannau cyfyng eu hunain, yn hytrach na chanolbwyntio o ddifrif ar y dinesydd. Mae cronfeydd ar y cyd a dulliau hyblyg eraill ar gael ers 1999, ac eto nid yw gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG wedi defnyddio llawer ar y darpariaethau hyn wrth ddatblygu atebion cydgyssylltiedig.

O fewn y GIG, mae bylchau o ran cynllunio effeithiol i ryddhau cleifion. Ni wnaethpwyd digon o gynnydd o ran y gweithgarwch sylfaenol hwn, er bod llawer o arweiniad a chefnogaeth ar gael. Mae gwendidau yn y maes hwn yn arwain at ddryswch, oedi ac anghydfodau ar lefel y cleifion.

Felly, mae angen gwneud llawer o hyd i ddelio ag oedi. Yr allwedd i hyn yw edrych ar y mater o safbwynt y dinesydd. Dymunaf weld cyrff lleol yn deall yn iawn yr hyn y mae ar bobl ei angen gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, fel y bydd y gwasanaethau priodol ar gael pan fydd galw amdanynt yn y gymuned ac mewn ysbytai. Wrth iddynt roi eu strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles ar waith, mae angen i gyrff lleol roi sylw i'r bylchau yn eu gwasanaethau craidd, ac mae'r strategaethau hyn yn fodd amlwg i wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gydweithio i roi'r gwasanaethau angenrheidiol ar waith.

Rhaid i'r gwasanaeth iechyd gwladol wneud



everything it can to ensure that frail older patients are appropriately supported while in hospital, so that they do not lose their independence. Social services and the NHS need to commit fully to partnership working at all levels. The Government has taken a positive approach to the development of partnership working in Wales. We have rejected the punitive charging arrangements for delayed transfers of care in place in England, because we want organisations to work together rather than fight over money. Partner organisations must do everything they can to take advantage of this positive approach, for the good of the citizen who is at the heart of our services.

Pooled funds and other flexibilities can help to overcome some of the practical difficulties at the root of delayed transfers of care. There are encouraging signs in some areas, but so much more could be done. The Government is providing further support in this area through road shows and practical guidance.

Inadequate discharge planning must be addressed. National health service staff and social workers need to make sure that every discharge is handled with the interests of the patient at heart. Arrangements must be made for essential services to be in place that enable a patient to return home or to a community setting quickly. Planning should begin at or before admission, and not when the patient is deemed to be medically fit to go home. I look to the chief executives to ensure that priority is given to this important work. The National Leadership and Innovation Agency for Healthcare is giving considerable support on discharge planning, and local organisations need to gain the maximum benefit from that work.

Much more effort is needed by local government and the NHS to manage delayed transfers of care. Enough is already known about this subject for further improvements to be made; the challenge is to make sure that local organisations work together to deliver these improvements for their communities. The report on the delayed transfers of care includes some suggested ways forward,

popeth a all i sicrhau cymorth priodol i gleifion hŷn bregus tra byddant yn yr ysbyty, fel na fyddant yn colli eu hannibyniaeth. Mae angen i'r gwasanaethau cymdeithasol a'r GIG lwyr ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ar bob lefel. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gadarnhaol wrth ymwneud â datblygu gwaith mewn partneriaeth yng Nghymru. Yr ydym wedi ymwrthod â'r trefniadau llym o ran codi tâl am oedi wrth drosglwyddo gofal sydd ar waith yn Lloegr, am ein bod yn dymuno i gyrff gydweithio yn hytrach na checro ynghylch arian. Rhaid i gyrff sy'n bartneriaid wneud popeth a allant i fanteisio ar y dull cadarnhaol hwn, er lles y dinesydd sy'n ganolog yn ein gwasanaethau.

Mae cronfeydd ar y cyd a dulliau hyblyg eraill yn gallu helpu i ddatrys rhai o'r anawsterau ymarferol sydd wrth wraidd yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae arwyddion calonogol mewn rhai ardaloedd, ond gellid gwneud mwy o lawer. Mae'r Llywodraeth yn darparu cymorth ychwanegol yn y maes hwn drwy sioeau teithiol a chanllawiau ymarferol.

Rhaid rhoi sylw i ddiffygion mewn cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion. Mae angen i staff y gwasanaeth iechyd gwladol a gweithwyr cymdeithasol sicrhau bod pob trefniant ar gyfer rhyddhau'n cael ei drafod er budd y claf. Rhaid trefnu bod gwasanaethau hanfodol sy'n galluogi'r claf i ddechreu adref neu i le yn y gymuned ar gael yn ddi-oed. Dylid dechrau cynllunio wrth dderbyn y claf neu cyn hynny, ac nid pan fernir ei fod mewn cyflwr meddygol digon da i fynd adref. Disgwyliaf i'r prif weithredwyr sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwaith pwysig hwn. Mae Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yn rhoi cefnogaeth sylweddol ym maes cynllunio ar gyfer rhyddhau cleifion, ac mae angen i gyrff lleol gael y budd mwyaf posibl o'r gwaith hwnnw.

Mae angen llawer mwy o ymdrech gan lywodraeth leol a'r GIG i reoli oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae digon yn hysbys am y mater hwn eisoes i wneud mwy o welliannau; yr her yw gofalu bod cyrff lleol yn cydweithio i sicrhau'r gwelliannau hyn ar gyfer eu cymunedau. Mae'r adroddiad am yr oedi wrth drosglwyddo gofal yn cynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer y ffordd ymlaen, y

which can be used, and I will have another report to respond to, once we have gone through the *purdah* period for local government elections. I hope that both reports will help me to establish better policy guidance in this area. I can establish policy guidance wherever I want, but its implementation lies with the service and local government, and they have a lot more to deliver.

**Jonathan Morgan:** I propose amendment 1 in the name of William Graham. At the end of the motion add:

*calls on the Assembly Government to outline how it will implement the recommendations contained in the report.*

I welcome the opportunity to discuss this extremely thorough report on the way forward, being some 200 pages long. It looks at the background to the problems of delayed transfers of care, why they occur, what pressures they place on patients, staff, families and the whole service of health and social care, and it provides us with 46 recommendations. I thank all those who contributed to this independent review, because, when we had the original debate in November 2006, I believed that it was long overdue. It was a Conservative motion, approved in Plenary, that forced this review in the first place. It had the unanimous support of all of the Assembly Members who were here at the time. Looking back at that debate, I am grateful for Members' support in wanting to ensure that this review took place in order to come forward with innovative recommendations on how delayed transfers of care should be addressed.

The effects of delayed transfers of care are significant. They have an adverse medical effect on those patients in hospital. We know from the Royal College of Nursing that if patients who have recovered from treatment stay in hospital for longer than necessary, they can deteriorate. We know that there is a significant financial cost to the national health service and to the public purse in general. The cost was estimated at some £70

gellir eu dilyn, a bydd gennyf adroddiad arall i ymateb iddo, wedi inni fynd drwy'r cyfnod *purdah* ar gyfer etholiadau llywodraeth leol. Gobeithiaf y bydd y ddau adroddiad yn fy helpu i bennu gwell canllawiau polisi yn y maes hwn. Gallaf bennu canllawiau polisi ym mha faes bynnag y dymunaf wneud hynny, ond y gwasanaeth a llywodraeth leol sy'n gyfrifol am eu dilyn, ac mae ganddynt lawer mwy o waith i'w wneud.

**Jonathan Morgan:** Cynigiaf welliant 1 yn enw William Graham. Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

*yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i amlinellu sut y bydd yn gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiad.*

Croesawaf y cyfle i drafod yr adroddiad tra thrylwyr hwn ar y ffordd ymlaen, ac yntau tua 200 o dudalennau o hyd. Mae'n ymdrin â chyd-destun y problemau ynglŷn ag oedi wrth drosglwyddo gofal, pam y maent yn codi, pa bwysau y maent yn eu rhoi ar gleifion, y staff, teuluoedd a'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn ei gyfanrwydd, ac mae'n cynnig 46 o argymhellion inni. Diolchaf i bawb a gyfrannodd at yr adolygiad annibynnol hwn, oherwydd, pan gawsom y ddadl wreiddiol yn Nhachwedd 2006, yr oeddwn yn credu ei bod yn hen bryd inni gael hynny. Cynnig gan y Ceidwadwyr, a gymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn, a orfododd yr adolygiad hwn yn y lle cynaf. Cafodd gefnogaeth unfryd holl Aelodau'r Cynulliad a oedd yma ar y pryd. Ac edrych yn ôl ar y ddadl honno, yr wyf yn ddiolchgar am gefnogaeth yr Aelodau a oedd am sicrhau bod yr adolygiad hwn yn cael ei gynnal er mwyn cyflwyno argymhellion arloesol ynglŷn â sut y dylid mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal.

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn cael effaith fawr. Caiff effaith feddygol andwyol ar y cleifion hynny sydd yn yr ysbyty. Yr ydym yn cael ar ddeall gan Goleg Brenhinol y Nyrsys y gall cleifion sydd wedi gwella ar ôl cael triniaeth waethygu os byddant yn aros yn yr ysbyty'n hwy nag y mae angen. Gwyddom fod cost ariannol sylweddol i'r gwasanaeth iechyd gwladol ac i'r pwrs cyhoeddus yn gyffredinol. Amcangyfrifwyd

million for 2006-07, the most recent year for which records are available. We also know that delayed transfers of care clog up the NHS and the social care network in general. All of those matters need to be dealt with as proactively as possible by the Assembly Government, recognising, of course, that the implementation of strategy has to be taken forward by those who are running the national health service.

What the Assembly asked for was clear. We asked for an independent review that would make recommendations affecting health and social care. We asked for the review to examine how acute hospital beds could be used more effectively, how the wellbeing of patients who are ready for discharge can be promoted, how the development of joint or pooled budgets could be taken forward, and whether there were sufficient social care places and appropriately trained staff available. We asked for a thorough, independent and comprehensive review. This report today demonstrates exactly why the review was required and also outlines clearly the importance of dealing with the problems of delayed transfers of care.

Some weeks ago we heard the Assembly Government's response, which was, in effect, 'We don't like the outcome, and we're not going to support the recommendations'. That was the message given by Government spin doctors to the press. I hope that that is not the case, and that the Government will accept our proposal in amendment 1, which is to outline how this can be taken forward and how the 46 recommendations, if the Government accepts them, will be implemented. I think that the analysis and the thoroughness and sheer depth of the work that has been done gives weight to why the 46 recommendations are so important. I hope the Minister accepts what the report has outlined.

The analysis is impressive. It demonstrates the real extent of the challenge. It shows the damage that can be done to the health and social care budget when you consider that £69.2 million is lost every year as a result of delayed transfers of care. The analysis of mental health was very interesting. Delayed

mai tua £70 miliwn oedd y gost ar gyfer 2006-07, y flwyddyn ddiweddaraf y mae cofnodion ar gael ar ei chyfer. Gwyddom hefyd fod oedi wrth drosglwyddo gofal yn creu tagfa yn y GIG ac yn y rhwydwaith gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ymdrin â'r holl faterion hynny mewn ffordd mor rhagweithiol ag sy'n bosibl, gan gydnabod, wrth gwrs, fod yn rhaid i'r strategaeth gael ei gweithredu gan y rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth iechyd gwladol.

Yr oedd yr hyn y gofynnodd y Cynulliad amdano'n glir. Gofynasom am adolygiad annibynnol a fyddai'n gwneud argymhellion sy'n effeithio ar iechyd a gofal cymdeithasol. Gofynasom i'r adolygiad archwilio sut y gellid defnyddio gwelyau aciwt ysbytai'n fwy effeithiol, sut y gellir hybu lles cleifion sy'n barod i'w rhyddhau, sut y gellid mynd ati i ddatblygu cyllidebau ar y cyd, ac a oedd digon o leoedd gofal cymdeithasol a staff wedi'u hyfforddi'n briodol ar gael. Gofynasom am adolygiad trwyadl, annibynnol a chynhwysfawr. Mae'r adroddiad hwn heddiw'n dangos pam yn union yr oedd angen yr adolygiad ac mae'n dangos yn glir hefyd mor bwysig yw ymdrin â phroblemau oedi wrth drosglwyddo gofal.

Ychydig wythnosau'n ôl, clywsom ymateb Llywodraeth y Cynulliad, sef, mewn gwirionedd, 'Nid ydym yn hoffi'r canlyniad, ac nid ydym yn bwriadu cefnogi'r argymhellion'. Dyna'r neges a roddodd dewiniaid delwedd y Llywodraeth i'r wasg. Gobeithiaf nad dyna'r gwir ac y bydd y Llywodraeth yn derbyn ein cynnig yng ngwelliant 1, sef amlinellu sut y gellir bwrw ymlaen â hyn a sut y rhoddir y 46 argymhelliad ar waith, os yw'r Llywodraeth yn eu derbyn. Credaf fod y dadansoddiad a thrylwyredd a dyfnder y gwaith sydd wedi'i wneud yn dangos pam mae'r 46 argymhelliad mor bwysig. Gobeithiaf fod y Gweinidog yn derbyn yr hyn sydd yn yr adroddiad.

Mae'r dadansoddiad yn drawiadol. Mae'n dangos gwir faint yr her. Mae'n dangos y difrod y gellir ei wneud i'r gyllideb iechyd a gofal cymdeithasol pan ystyriwch fod £69.2 miliwn yn cael ei golli bob blwyddyn yn sgîl oedi wrth drosglwyddo gofal. Yr oedd y dadansoddiad o faes iechyd meddwl yn

transfers there—the fact that people with a mental health condition are unable to be transferred to an appropriate setting—cost us £21.4 million. The complexities of the financial position and the problems in getting organisations to work together demonstrate the difficulties facing us in ensuring that delayed transfers of care are dealt with.

The data were clear, and demonstrated to those doing the report that, after an initial fall of some 38 per cent, the number of people who were delayed had, effectively, reached a plateau. There was no single variable or group of variables to explain why delayed transfers of care happened, and the causes of delays had changed little over the past four years. There are clear challenges for us to get to grips with, such as how we make organisations work better together—they should already be collaborating because, of course, they have the powers to do so now. We need to sort out the funding issues and how these organisations discharge their responsibilities. Ultimately, if we do not get this right now, patient care will continue to suffer, families will continue to be stressed, and there will continue to be great pressure on the national health service as a whole. I call on the Government to support what we are calling for in amendment 1 this afternoon.

**Val Lloyd:** Although delayed transfers of care have continued to decrease over recent months, the report that we are discussing clearly shows that there are still discrepancies in how the problem is tackled across Wales. We must also recognise, however, that over 98 per cent of all hospital discharges are on time.

4.20 p.m.

Given the domino effect of delayed transfers of care, it is important that a way is found to ensure that some patients do not end up staying in hospital simply because there is nowhere else for them to go. That will clearly prevent another patient from accessing a bed, with a subsequent knock-on effect on those

ddiddorol iawn. Mae oedi wrth drosglwyddo yn y maes hwnnw—y ffaith nad oes modd trosglwyddo pobl â chyflwr iechyd meddwl i leoliad priodol—yn costio £21.4 miliwn inni. Mae cymhlethdodau'r sefyllfa ariannol a'r problemau wrth gael sefydliadau i gydweithio'n dangos yr anawsterau sy'n ein hwynebu o ran sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r oedi wrth drosglwyddo gofal.

Yr oedd y data'n glir, ac yn dangos i'r rhai a oedd yn paratoi'r adroddiad, ar ôl gostyngiad cychwynnol o ryw 38 y cant, fod nifer y bobl a oedd yn wynebu oedi, mewn gwirionedd, wedi cyrraedd lefel ddigyfnwid. Nid oedd yr un newidyn unigol na grŵp o newidynnau yn esbonio pam yr oedd oedi wrth drosglwyddo gofal yn digwydd a phrin bod newid wedi bod dros y pedair blynedd diwethaf o ran yr hyn a oedd yn achosi'r oedi hwnnw. Mae'n amlwg bod heriau inni fynd i'r afael â hwy, megis sut y mae gwneud i sefydliadau gydweithio'n well—dylent eisoes fod yn cydweithio, oherwydd, wrth gwrs, mae ganddynt y pwerau i wneud hynny bellach. Mae angen inni ddatrys y problemau ariannu a sut y mae'r sefydliadau hyn yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Yn y pen draw, oni allwn ddatrys hyn yn awr, bydd gofal i gleifion yn dal i ddiodef, bydd teuluoedd yn dal dan straen, a bydd y gwasanaeth iechyd gwladol drwyddo draw'n dal dan bwysau mawr. Galwaf ar y Llywodraeth i gefnogi'r hyn yr ydym yn galw amdano yng ngwelliant 1 y prynhawn yma.

**Val Lloyd:** Er bod oedi wrth drosglwyddo gofal wedi parhau i ostwng dros y misoedd diwethaf, mae'r adroddiad yr ydym yn ei drafod yn dangos yn glir fod anghysonderau o hyd yn y ffordd yr eir i'r afael â'r broblem ledled Cymru. Rhaid inni gydnabod hefyd, fodd bynnag, fod dros 98 y cant o'r holl gleifion a ryddheir o'r ysbyty'n cael eu rhyddhau mewn pryd.

O ystyried yr effaith ddomino a gaiff oedi wrth drosglwyddo gofal, mae'n bwysig dod o hyd i ffordd o sicrhau nad yw rhai cleifion yn aros yn yr ysbyty am y rheswm syml nad oes unman arall iddynt fynd. Bydd hynny'n amlwg yn atal claf arall rhag cael gwely, a chaiff hynny effaith ganlyniadol ar y rhai

waiting for admission. More importantly, it can have a negative effect on the quality of care provided to the patient who is delayed and very often on their quality of life.

The report identifies several issues of concern, one of which is the lack of willingness in some areas to change structures in order to make a range of services available to patients after they are discharged from hospital. This, of course, links to the lack of communication and joint working between different teams, particularly between the health and social care sectors. I find it very sad to have to say that, given the number of times that this issue has been highlighted and the number of times that patients have been the losers because of that lack of co-operation.

On a more positive note, a number of initiatives, such as the change agent teams, are already working to improve the situation and spread best practice, which does exist. I fully support the idea of a new approach, bringing together partners such as the NHS, social services, housing agencies, private providers and the voluntary sector, because they all have a part to play. Delayed transfers of care are not an NHS-only problem. They must be approached from the point of view of developing a network of services for vulnerable people. This must happen sooner rather than later as we face the challenge, among others, of an ageing population in Wales. I am very interested in the recommendation that places local service boards at the heart of this new approach.

I also agree that delayed transfers of care must not only be tackled by looking at what happens after a patient leaves hospital. The entire assessment system needs to be reviewed in order to make sure that only patients who need to be in hospital are admitted and that those who can be cared for at home or in the community are directed to those services straight away. This, of course, will involve primary care services as well. The report highlights that issue, and that the provision of community services must be

sy'n disgwyl cael eu derbyn. Yn anad dim, gall gael effaith negyddol ar ansawdd y gofal a roddir i'r claf sy'n wynebu'r oedi ac yn aml iawn, effaith ar ansawdd eu bywyd.

Mae'r adroddiad yn rhestru amryw o faterion sy'n destun pryder, ac un o'r rheini yw'r diffyg parodrwydd mewn rhai ardaloedd i newid strwythurau er mwyn darparu ystod o wasanaethau ar gyfer cleifion ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty. Wrth gwrs, mae hyn yn gysylltiedig â'r diffyg cyfathrebu a'r diffyg cydweithio rhwng gwahanol dimau, yn enwedig rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol. Mae'n destun tristwch mawr imi orfod dweud hynny, o ystyried cynifer o weithiau y mae'r mater hwn wedi cael sylw a chynifer o weithiau y mae cleifion wedi bod ar eu colled oherwydd y diffyg cydweithredu hwnnw.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae nifer o fentrau, megis timau'r asiant dros newid, eisoes ar waith yn ceisio gwella'r sefyllfa a lledaenu'r arferion gorau, ac mae'r arferion hynny i'w gweld. Yr wyf yn cefnogi'n llwyr y syniad o arddel dull newydd o weithredu, sy'n dwyn ynghyd bartneriaid megis y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau tai, darparwyr preifat a'r sector gwirfoddol, oherwydd y mae ganddynt i gyd ran i'w chwarae. Nid problem i'r GIG yn unig yw oedi wrth drosglwyddo gofal. Rhaid mynd i'r afael â'r oedi o safbwynt datblygu rhwydwaith o wasanaethau i bobl agored i niwed. Gorau po gyntaf y bydd hyn yn digwydd wrth inni wynebu'r her, ymhlith heriau eraill, fod gennym boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru. Mae gennyf ddi-ddordeb mawr yn yr argymhellid sy'n peri bod byrddau gwasanaethau lleol yn ganolog yn y dull newydd hwn.

Cytunaf hefyd nad dim ond drwy edrych ar yr hyn sy'n digwydd ar ôl i glaf ymadael â'r ysbyty y mae'n rhaid mynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae angen adolygu'r system asesu drwyddi draw er mwyn sicrhau mai dim ond cleifion y mae angen iddynt fod yn yr ysbyty sy'n cael eu derbyn a bod y rhai y gellir gofalu amdanynt gartref neu yn y gymuned yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau hynny ar eu hunion. Bydd hyn, wrth gwrs, yn cynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol hefyd. Mae'r adroddiad yn

developed and expanded to offer appropriate support at home or in residential settings. The report presents some important findings and I welcome the Minister's opening remarks and the fact that she will return to this subject after 1 May.

**William Graham:** I very much hope that the Assembly Government will address the issue of implementing the recommendations in this report. It needs to clearly outline its expectations and the support that it will provide to hospitals and social services, and it must empower professionals in these services to determine local responses to meet local needs. That will be vital, as the NHS in Wales is subjected, once again, to political experimentation in structure, funding and the implementation of innovations in medical treatment. After all, it was the Assembly Government that oversaw the largest hospital waiting lists in the history of Wales, which were caused by enforcing target after target on our health services and failing to let them respond to patient care and needs. That had a catastrophic impact on patients in south-east Wales and brought orthopaedic services at the Royal Gwent Hospital to a crisis point. The report commissioned from Professor Brian Edwards of the University of Sheffield, said that bedblocking was a major contributory factor to the problem. He recommended more orthopaedic beds and an efficient process of discharging patients to outside continuing healthcare agencies. To be fair, these things have now been implemented, and the Minister has our confidence that further recommendations will be followed and, no doubt, improvements can be made.

I and others here have had experience of this particular problem in our families and the dedication of the staff is quite remarkable. What is difficult is identifying who will provide services and continuing care once the patient has been discharged from hospital. I would like to ask the Minister to look particularly—this is touched on in the report, to an extent—at the situation when a patient has been discharged and, some months later,

pwysleisio hynny, a bod yn rhaid datblygu ac ehangu darparu gwasanaethau yn y gymuned er mwyn cynnig cymorth priodol gartref neu mewn lleoliadau preswyl. Mae'r adroddiad yn cyflwyno rhai canfyddiadau pwysig a chroesawaf sylwadau agoriadol y Gweinidog a'r ffaith y bydd yn dychwelyd at y pwnc hwn ar ôl 1 Mai.

**William Graham:** Gobeithiaf yn fawr yr aiff Llywodraeth y Cynulliad i'r afael â gweithredu'r argymhellion sydd yn yr adroddiad hwn. Mae angen iddi ddweud yn glir beth yw ei disgwyliadau a pha gefnogaeth y bydd yn ei rhoi i'r ysbytai ac i'r gwasanaethau cymdeithasol. Rhaid iddi rymuso gweithwyr proffesiynol yn y gwasanaethau hyn i lunio ymatebion lleol i ddiwallu anghenion lleol. Bydd hynny'n hollbwysig wrth i'r GIG yng Nghymru, unwaith eto, ddod yn destun arbrofi gwleidyddol o ran ei strwythur, ariannu ac arloesi gyda thriniaethau meddygol. Wedi'r cyfan, Llywodraeth y Cynulliad fu'n goruchwyllo'r rhestrau aros hwyaf ar gyfer ysbytai yn hanes Cymru. Achoswyd y rheini drwy orfodi targed ar ôl targed ar ein gwasanaethau iechyd a hynny heb adael iddynt ymateb i ofal cleifion a'u hanghenion. Cafodd hynny effaith drychinebus ar gleifion y de-ddwyrain gan ddod â gwasanaethau orthopedig Ysbyty Brenhinol Gwent at ddibyn argyfwng. Dywedodd yr adroddiad a gomisiynwyd gan yr Athro Brian Edwards o Brifysgol Sheffield fod blocio gwelyau'n ffactor mawr a gyfrannodd at y broblem. Argymhellodd fod angen mwy o welyau orthopedig a phroses effeithiol ar gyfer rhyddhau cleifion i asiantaethau gofal iechyd parhaus ar y tu allan. A bod yn deg, mae'r pethau hyn wedi'u rhoi ar waith erbyn hyn, ac yr ydym yn hyderus y bydd y Gweinidog yn dilyn argymhellion eraill, ac, yn ddiamau, mae modd gwella pethau.

Yr wyf fi a phobl eraill yma wedi cael profiad o'r broblem arbennig hon yn ein teuluoedd ac mae ymroddiad y staff yn rhyfeddol. Yr hyn sy'n anodd yw gwybod pwy a fydd yn darparu gwasanaethau a gofal parhaus ar ôl rhyddhau'r claf o'r ysbyty. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog edrych yn benodol—crybwyllir hyn yn yr adroddiad, i raddau—ar y sefyllfa pan fydd claf wedi'i ryddhau, ac, ymhén ychydig fisoedd wedyn,

because of physical impairment, is still not getting the treatment or the benefits that he or she may be entitled to. The Assembly Government has a responsibility to work with the local health boards to implement recommendations in an open manner. I hope that this will be better and that they will be able to respond adequately to the Grogan judgment. The Assembly Government did indicate that it would contribute towards continuing healthcare, before directing, late in the financial year, that it must be included within the existing annual budget, once all the resources had been allocated. This forced Gwent Health Authority a further £8 million into overdraft. The NHS in Wales demands urgent action on this issue, but it also requires the Assembly to outline fully the support that it will provide to reduce bedblocking and enable vital facilities for efficient patient care.

**Helen Mary Jones:** I welcome this report and the opportunity to take part in this debate. I will not reiterate what others have already said about the real, human problem that is at the centre of every delayed transfer of care. I know that all Assembly Members see these cases in constituency surgeries, and some of us may have experienced them within our families. I was struck by what the Minister said about the importance of putting the citizen in the middle of all of this. While we, quite properly, sometimes debate delayed transfers of care in the context of the cost and the pressure that it puts on acute hospital services, to me, the damage that is done to the individual patient, and the stress and the strain that is put on families, is more serious. This is an urgent issue, and we need to address it. Many of the issues highlighted in this report have been highlighted in debates in the Assembly and in public discourse in Wales for at least the last 10 years.

I share in the thanks that have been expressed to the authors of the report. However, I am somewhat disappointed—I suppose that I was hoping for quick-fix solutions and some clear and definite ways ahead, and perhaps that was an unrealistic expectation. My

oherwydd nam corfforol, nad yw byth yn cael y driniaeth neu'r budd-daliadau y gall fod ganddo neu ganddi'r hawl i'w cael. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb i weithio gyda'r byrddau iechyd lleol i roi argymhellion ar waith mewn dull agored. Gobeithiaf y bydd hyn yn well ac y byddant yn gallu ymateb yn ddigonol i ddyfarniad Grogan. Awgrymodd Llywodraeth y Cynulliad y byddai'n cyfrannu at ofal iechyd parhaus, cyn rhoi'r cyfarwyddyd, yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, fod yn rhaid cynnwys hynny o fewn y gyllideb flynyddol bresennol, ar ôl i'r holl adnoddau gael eu dyrannu. Yn sgîl hyn, gwthiwyd Awdurdod Iechyd Gwent £8 miliwn arall yn ddyfnach i'w orddrafft. Mae'r GIG yng Nghymru yn galw am weithredu ar frys ynglŷn â hyn, ond mae'n mynnu hefyd fod y Cynulliad yn amlinellu'n llawn y cymorth y bydd yn ei roi i leihau blocio gwelyau ac i alluogi cyfleusterau hollbwysig ar gyfer gofalu'n effeithlon am gleifion.

**Helen Mary Jones:** Croesawaf yr adroddiad hwn a'r cyfle i gyfrannu at y ddatl hon. Nid ailadroddaf yr hyn y mae eraill wedi'i ddweud eisoes am y broblem ddynol, go iawn sydd yng nghanol pob achos o oedi wrth drosglwyddo gofal. Gwn fod holl Aelodau'r Cynulliad yn gweld yr achosion hyn yng nghymorthfeydd eu hetholaeth, ac efallai fod rhai ohonom wedi'u profi yn ein teuluoedd. Fe'm trawyd gan yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â phwysigrwydd rhoi'r dinesydd yng nghanol hyn oll. Er ein bod ni, a hynny'n briodol, weithiau'n dadlau am oedi wrth drosglwyddo gofal yng nghyd-destun y gost a'r pwysau y mae'n ei roi ar wasanaethau aciwt ysbytai, i mi, mae'r niwed a wneir i'r claf unigol a'r straen a'r pwysau a roddir ar deuluoedd, yn fwy difrifol. Mae hyn yn fater brys, ac mae angen inni fynd i'r afael ag ef. Mae llawer o'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad hwn wedi bod yn destun dadleuon yn y Cynulliad ac mewn trafodaethau cyhoeddus yng Nghymru ers 10 mlynedd o leiaf.

Yr wyf finnu hefyd am ategu'r diolch a fynegwyd i awduron yr adroddiad. Fodd bynnag, yr wyf braidd yn siomedig—mae'n debyg fy mod yn gobeithio am atebion sydyn a rhywfaint o ffyrdd clir a phendant o fwrw ymlaen, ac efallai fod hynny'n ddisgwyliad

impression is that this report is strong in its description of the situation, and that analysis, as Jonathan Morgan has said, is invaluable, but I would suggest that the report is less strong on outlining a clear way ahead. Of course, this is a complex field, and some of the recommendations are complex; I wonder whether perhaps some of them may be too complex. Those that commend themselves the most to me are some of the simplest, for example, recommendation 5, which suggests that social worker support should be as readily available in community hospitals as it is in acute hospitals. That could be simply addressed if local partners got organised. Another example is recommendation 15,

‘All LHBs should review their arrangement for assessing the need for continuing healthcare’,

although I would have liked the authors of the report to have told us a little more about what they would like to see as the outcome of that assessment.

Given 46 recommendations, there are many that I would commend to the Minister, but I cannot list them all. I wish to concentrate on recommendation 31, with which I profoundly disagree. I do not see how it is supported by the evidence set out in the review. This recommendation has four clauses, and I believe that the last two are plain wrong. One calls for partners to be encouraged to pool existing budgets, but the next says that they should not be made to do so. In the face of the evidence of the multiple and complex causes of delayed transfers of care in this report, and the institutional cultural factors involved, I do not see how the authors came to the conclusion that pooled budgets should be encouraged and not imposed. Successive Assembly Governments have, for almost the last 10 years—and the Minister touched on this in her speech—been encouraging partners to pool budgets and co-operate. I would suggest that those partners that are susceptible to encouragement have been encouraged and are getting on with it. I do not understand how anyone can believe that more encouragement on its own will work.

afrealistig. Yr argraff a gaf yw bod yr adroddiad hwn yn cynnig disgrifiad da o'r sefyllfa ac mae'r dadansoddiad hwnnw, fel y mae Jonathan Morgan wedi dweud, yn amhrisiadwy, ond byddwn yn awgrymu nad yw'r adroddiad cystal o ran dangos ffordd glir ymlaen. Wrth gwrs, mae'r maes hwn yn un cymhleth, ac mae rhai o'r argymhellion yn gymhleth; tybed a yw rhai ohonynt efallai'n rhy gymhleth? Rhai o'r argymhellion symlaf yw'r rhai yr wyf yn eu cymeradwyo fwyaf, er enghraifft, argymhelliad 5, sy'n awgrymu y dylai cymorth gweithiwr cymdeithasol fod ar gael yr un mor rhwydd mewn ysbytai cymuned ag y mae mewn ysbytai aciwt. Gellid mynd i'r afael â hynny'n ddiraffferth petai partneriaid lleol yn mynd ati i roi trefn ar bethau. Enghraifft arall yw argymhelliad 15,

Dylai pob BILl adolygu eu trefniadau ar gyfer asesu'r angen am ofal iechyd parhaus

er y byddwn wedi hoffi petai awduron yr adroddiad wedi dweud ychydig mwy wrthym am yr hyn yr hoffent ei weld yn deillio o'r asesiad hwnnw.

O ystyried bod gennym 46 o argymhellion, mae llawer ohonynt y byddwn yn eu cymeradwyo i'r Gweinidog, ond ni allaf eu rhestru i gyd. Dymunaf ganolbwyntio ar argymhelliad 31. Yr wyf yn anghytuno'n chwynn â'r argymhelliad hwn. Ni welaf sut y mae'r dystiolaeth yn yr adolygiad yn ei gefnogi. Mae pedwar cymal i'r argymhelliad hwn, a chredaf fod y ddau olaf yn gwbl anghywir. Mae un yn galw am annog partneriaid i gyfuno'r cyllidebau sydd ganddynt eisoes, ond mae'r nesaf yn dweud na ddylid eu gorfodi i wneud hynny. Yn wyneb tystiolaeth y llu o achosion cymhleth o oedi wrth drosglwyddo gofal yn yr adroddiad hwn, a'r ffactorau diwylliannol sefydliadol sy'n gysylltiedig, ni welaf sut y casglodd yr awduron y dylid annog ond nid gorfodi partneriaid i gyfuno cyllidebau. Mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall yn y Cynulliad, drwy gydol y 10 mlynedd diwethaf, fwy neu lai—ac fe grybwyllodd y Gweinidog hyn yn ei haraith—wedi bod yn annog partneriaid i gyfuno cyllidebau a chydweithredu. Byddwn yn awgrymu bod y partneriaid hynny sy'n agored i anogaeth



As I have said, I do not think that the evidence in the report suggests that that is so.

The patients at the centre of delayed transfers of care are vulnerable. They need care, and they and their families should not have to think for a moment about how it will be paid for. In that context, I welcome recommendation 25. However, patients will continue to have to worry while separate public bodies squabble over separate budgets. As I said, we have all had constituency casework that attests to this. I urge the Minister to reject that recommendation when she comes to look at the next report and at this one, while welcoming many others. I appreciate that the Minister is constrained by *purdah* in terms of what she is able to say today, because many of the actions that need to come out of this report and the next one will impact on local government. However, I hope that the outcome will be the development of a national action plan, developed as quickly as possible, with serious sanctions to be placed on the public bodies that do not deliver. The people caught in the trap of delayed transfers of care today, and those who may be caught in it tomorrow, deserve nothing less from this Government.

4.30 p.m.

**Jenny Randerson:** I was very disappointed indeed by the Welsh Assembly Government's response to this extremely good and thorough report. I realise that the response was made at a suitable arm's length from the Minister, but this is a complex problem, and necessitates complex solutions. In addition to this report, I want to draw on the report from the Wales Audit Office that was produced at the end of last year, because I see the two fitting very closely together. Indeed, this report acknowledges as much, and says that it went for evidence to those areas that the Wales Audit Office had not looked at in detail. Looking at the two reports

wedi cael eu hannog ac yn bwrw ymlaen â hyn. Ni ddeallaf sut y gall neb gredu y gwnaiff rhagor o anogaeth ar ei phen ei hun weithio. Fel yr wyf wedi dweud, ni chredaf fod y dystiolaeth yn yr adroddiad yn awgrymu mai felly y mae.

Mae'r cleifion sydd yng nghanol achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn agored i niwed. Mae angen gofal arnynt, ac ni ddylent hwy a'u teuluoedd orfod meddwl am eiliad sut y telir amdano. Yn y cyd-destun hwnnw, croesawaf argymhelliad 25. Fodd bynnag, bydd cleifion yn dal i orfod poeni tra bydd cyrff cyhoeddus ar wahân yn ffraeo ynghylch cyllidebau ar wahân. Fel y dywedais, yr ydym i gyd wedi ymwneud â gwaith achos yn ein hetholaeth sy'n tystio i hyn. Anogaf y Gweinidog i wrthod yr argymhelliad hwnnw pan fydd yn edrych ar yr adroddiad nesaf ac ar yr adroddiad hwn, er fy mod yn croesawu llawer o argymhellion eraill. Sylweddolaf nad yw'r Gweinidog yn gwbl rydd i ddweud popeth y mae'n dymuno'i ddweud heddiw oherwydd *purdah*, gan y bydd llawer o'r camau y bydd angen iddynt ddeillio o'r adroddiad hwn ac o'r adroddiad nesaf yn effeithio ar lywodraeth leol. Fodd bynnag, gobeithiaf mai'r canlyniad fydd datblygu cynllun gweithredu cenedlaethol, a ddatblygir cyn gyflymed ag sy'n bosibl, gyda sancsiynau difrifol ar gyfer y cyrff cyhoeddus nad ydynt yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol. Nid yw'r bobl sydd wedi'u dal ym magl yr oedi wrth drosglwyddo gofal heddiw, a'r rhai a all gael eu dal yn y fagl honno yfory, yn haeddu dim llai gan y Llywodraeth hon.

**Jenny Randerson:** Yr oeddwn yn siomedig iawn ag ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad hwn, sy'n un arbennig o dda a thrylwyr. Sylweddolaf fod yr ymateb wedi cael ei wneud hyd braich oddi wrth y Gweinidog, fel sy'n briodol, ond mae hon yn broblem gymhleth, ac mae angen atebion cymhleth. Yn ogystal â'r adroddiad hwn, hoffwn gyfeirio at adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru a luniwyd ddiwedd y flwyddyn y llynedd, oherwydd teimlaf fod cysylltiad agos iawn rhyngddynt. Yn wir, mae'r adroddiad hwn yn cydnabod hynny, ac yn dweud ei fod wedi edrych am dystiolaeth yn y meysydd hynny nad oedd Swyddfa

together, they draw out similar strands and show, in a similar manner, the complexity of the situation. There is no simple, one-size-fits-all solution, and I find myself agreeing totally with Helen Mary that this is a complex issue requiring complex solutions.

For example, the number of people affected by delayed transfers of care has declined, but the number of bed days has increased. That suggests that there are a significant number of people with complex problems for whom we do not have appropriate residential care, or for whom we are unable to provide appropriate care packages at home. That is where the issue that Jonathan mentioned in relation to mental health comes in, because mental health patients are the ones who feature most prominently in this context.

It is also evident from the reports that there is no single picture of these issues across Wales: different parts of Wales are affected to different degrees. However, there are strands that run through this, and I will give you two examples. The first is the availability of community beds. The fact that Gwent has dealt more satisfactorily with the issue than Cardiff relates to the number of community beds, and that in turn relates to the structure of the health service in the area, as well as the availability of care homes. I am pleased that the Minister has previously indicated that she wants to keep open some of the community hospitals that were destined to be closed, but I think that community hospitals are essential. When you look across Wales, they provide the step-down beds within the health service—we need them to care for people when they are not able to be discharged into the care of social services in the community.

The second strand is the need for close working across organisations, particularly between social services and local health boards and trusts. I still need reassurance, Minister, that the restructuring that you have proposed will enhance the possibility of close working, given the future lack of coterminosity between local health boards

Archwilio Cymru wedi edrych yn fanwl arnynt. O edrych ar y ddau adroddiad gyda'i gilydd, maent yn tynnu sylw at elfennau cyffelyb ac yn dangos, mewn ffordd debyg, mor gymhleth yw'r sefyllfa. Nid oes un ateb syml a fydd yn datrys pob problem, ac yr wyf yn cytuno'n llwyr â Helen Mary fod hwn yn fater cymhleth sy'n galw am atebion cymhleth.

Er enghraifft, mae nifer y bobl y mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn effeithio arnynt wedi gostwng, ond mae nifer y dyddiau gwely wedi cynyddu. Mae hynny'n awgrymu bod nifer sylweddol o bobl sydd â phroblemau cymhleth nad oes gennym ofal preswyl priodol ar eu cyfer, neu nad ydym yn gallu darparu pecynnau gofal priodol ar eu cyfer yn eu cartrefi. Hynny yw'r broblem y cyfeiriodd Jonathan ati yng nghyswllt iechyd meddwl, oherwydd cleifion iechyd meddwl yw'r rhai amlycaf yn y cyd-destun hwn.

Mae'r adroddiadau'n dangos hefyd nad yw'r problemau hyn yr un fath drwy Gymru gyfan: effeithir ar wahanol rannau o Gymru i wahanol raddau. Fodd bynnag, mae elfennau amlwg i'w gweld, ac yr wyf am roi dwy enghraifft ichi. Yr elfen gyntaf yw nifer y gwelyau cymunedol sydd ar gael. Mae a wnelo'r ffaith bod Gwent wedi ymdrin â'r broblem yn fwy boddhaol na Chaerdydd â nifer y gwelyau cymunedol, ac mae a wnelo hynny yn ei dro â strwythur y gwasanaeth iechyd yn yr ardal, yn ogystal â nifer y cartrefi gofal sydd ar gael. Yr wyf yn falch bod y Gweinidog wedi dweud yn barod ei bod yn awyddus i gadw rhai o'r ysbytai cymuned y bwriedid eu cau ar agor, ond credaf fod ysbytai cymuned yn hanfodol. Pan edrychwch ar y sefyllfa drwy Gymru gyfan, maent yn darparu'r gwelyau gofal llai dwys yn y gwasanaeth iechyd—mae arnom eu hangen er mwyn gofalu am bobl pan na ellir eu rhyddhau i ofal gwasanaethau cymdeithasol yn y gymuned.

Yr ail elfen yw'r angen am gydweithio agos rhwng sefydliadau, yn enwedig rhwng gwasanaethau cymdeithasol a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd lleol. Mae arnaf angen sicrwydd o hyd, Weiniidog, y bydd yr ailstrwythuro yr ydych wedi'i gynnig yn hybu'r posibilrwydd o gydweithio agos, o ystyried y ffaith na fydd byrddau iechyd lleol

and social services departments. I would echo what Helen Mary said in relation to the need for pooled budgets: it is imperative that we have them. There has to be a financial imperative if we are to draw out good practice.

Finally, I will turn to the comments that I previously made on the Wales Audit Office report, because the same issues have come up in this new report. The Wales Audit Office report contained criticisms of everyone. It has been the refrain of the NHS to blame social services, but both reports make it clear that there are problems with every aspect of care, from GPs through to trusts and social services departments. They talk about the need for more therapy services, the lack of a sufficient number of beds for the elderly mentally ill, the lack of appropriate care for mental health patients, and the need for a more care-based model of treatment, not just a medical-based model. Above all, they talk about the need for planning ahead—from the first day that someone goes into hospital. Minister, I hope that you will take a complex approach to a complex problem.

**David Melding:** I hope that I will be allowed to speak as a former Chair of the Health and Social Services Committee, and the current Chair of the Audit Committee. I have to be a little careful about how I address my remarks, but I do not want to be in any way partisan, because there are no ideological, political issues at play here. I will start with my former role as Chair of the Health and Social Services Committee for part, at least, of the last Assembly.

We produced a report on the interface between health and social care, and we looked at this specific issue. I should say that the country that deals best with discharge issues is reckoned to be the United States. Before people think that I am recommending the US model, the reason for that, of course, is that insurance companies do not want

ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn rhannu'r un ffiniau yn y dyfodol. Byddwn yn ategu'r hyn a ddywedodd Helen Mary ynglŷn â'r angen am gyllidebau ar y cyd: maent yn hanfodol. Rhaid cael rheidrydd ariannol os ydym am sicrhau arferion da.

Yn olaf, hoffwn droi at y sylwadau a wneuthum yn gynharach ynglŷn ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, oherwydd y mae'r un problemau wedi codi yn yr adroddiad newydd hwn. Yr oedd pawb yn cael ei feirniadu yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r GIG bob amser wedi bod yn beio'r gwasanaethau cymdeithasol, ond mae'r naill adroddiad a'r llall yn nodi'n glir fod problemau gyda phob agwedd ar ofal, o feddygon teulu i ymddiriedolaethau ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn sôn am yr angen am ragor o wasanaethau therapi, prinder gwelyau ar gyfer pobl oedrannus sydd â salwch meddwl, diffyg gofal priodol ar gyfer cleifion iechyd meddwl, a'r angen am ffordd o drin cleifion sy'n fwy seiliedig ar ofal, yn hytrach na meddygaeth yn unig. Yn bennaf oll, maent yn siarad am yr angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol—o'r diwrnod cyntaf y mae rhywun yn mynd i'r ysbyty. Weinidog, yr wyf yn gobeithio y byddwch yn mabwysiadu dull cymhleth o ymdrin â phroblem gymhleth.

**David Melding:** Yr wyf yn gobeithio y caniateir imi siarad fel cyn Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chadeirydd presennol y Pwyllgor Archwilio. Rhaid imi fod yn ofalus sut yr wyf yn cyfeirio fy sylwadau, ond nid wyf am fod yn bleidiol sut yn y byd, oherwydd nid oes ystyriaethau gwleidyddol, ideolegol yn y cyswllt hwn. Yr wyf am ddechrau gyda'm rôl flaenorol fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am ran, o leiaf, o'r Cynulliad diwethaf.

Lluniasom adroddiad ar y rhyng-gysylltiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, ac edrychasom ar y mater penodol hwn. Dylwn ddweud mai'r wlad sy'n cael ei hystyried fel y wlad orau am ymdrin â phroblemau rhyddhau o ysbytai yw'r Unol Daleithiau. Cyn i bobl feddwl fy mod yn argymhell patrwm yr Unol Daleithiau, y rheswm am

people lingering in acute hospital settings, so they ensure that there is a good community network to receive patients. That is obviously not a model that we would follow, but it shows that institutional factors have a big effect on the way in which services are delivered, commissioned and designed. However, the Health and Social Services Committee recommended the need for greater pooling, more collaboration, better planning and better commissioning. All of these things are now being repeated; they are contained in the Audit Committee's report and in the report that has been commissioned by the Welsh Assembly Government.

I do not think that that says that executives over the years—in the Assembly and the Welsh Office before it—have been dilatory; it shows that these problems are deep-seated and genuinely difficult to tackle. However, they are not insurmountable. That is what we must remember. I think that the Wales Audit Office report—and that of the Audit Committee, having taken evidence on that—gives a good description of some of the things that can be done. It is very focused—I am sure that the Minister will be relieved that it is not in any way as long as the comprehensive, encyclopaedic, almost, approach of this report—but it contains solid evidence; I am not being disparaging. I look forward to receiving the Minister's response to the Audit Committee's report when we are beyond the local government elections. I know that the Minister will reply to that report as soon as possible.

The key to this is focusing on the patient. If we look at all of our systems from a patient's point of view, we will end up designing a pretty good system. If we fail to do that, and worry more about the working conditions of the professionals involved or historical commissioning patterns, we will have problems. One thing that we identified while taking evidence in the Audit Committee is that there is often a default position where people with quite complicated needs or who

hynny, wrth gwrs, yw nad yw cwmnïau yswiriant yn awyddus i weld pobl yn aros mewn ysbytai aciwt, felly maent yn sicrhau bod ganddynt rwydwaith cymunedol da i dderbyn cleifion. Mae'n amlwg nad yw hwnnw'n batrwm y byddem ni'n ei ddilyn, ond mae'n dangos bod ffactorau sefydliadol yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi, eu comisiynu a'u cynllunio. Fodd bynnag, argymhellodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod angen mwy o gyfuno, mwy o gydweithredu, gwell cynllunio a gwell comisiynu. Mae'r holl bethau hyn yn cael eu hailadrodd yn awr; maent i'w gweld yn adroddiad y Pwyllgor Archwilio ac yn yr adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid wyf yn credu bod hynny'n awgrymu bod swyddogion gweithredol—yn y Cynulliad ac yn y Swyddfa Gymreig cyn hynny—wedi bod yn araf dros y blynyddoedd; mae'n dangos bod y problemau hyn wedi'u gwreiddio'n ddwfn a'u bod yn wirioneddol anodd eu datrys. Fodd bynnag, nid ydynt yn anorchfygol. Rhaid inni gofio hynny. Credaf fod adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru—ac adroddiad y Pwyllgor Archwilio, gan ei fod wedi clywed tystiolaeth ynglŷn â hynny—yn rhoi disgrifiad da o rai o'r pethau y gellir eu gwneud. Mae ganddo ffocws pendant iawn—yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn falch ei fod yn fyrrach o lawer na'r adroddiad hwn, sy'n adroddiad cynhwysfawr, a gwyddoniadurol bron—ond mae'n cynnwys tystiolaeth bendant; nid wyf yn ei ddibrisio. Yr wyf yn edrych ymlaen at glywed ymateb y Gweinidog i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar ôl etholiadau llywodraeth leol. Gwn y bydd y Gweinidog yn ymateb i'r adroddiad hwnnw cyn gynted ag sy'n bosibl.

Yr allwedd i hyn yw canolbwyntio ar y claf. Os edrychwn ar bob un o'n systemau o safbwynt claf, bydd modd inni gynllunio system go dda. Os na fyddwn yn gwneud hynny, ac os byddwn yn poeni mwy am amodau gwaith gweithwyr proffesiynol neu batrymau comisiynu hanesyddol, bydd gennym broblemau. Un peth y sylwasom arno wrth glywed tystiolaeth yn y Pwyllgor Archwilio yw bod tuedd yn aml i bobl sydd ag anghenion eithaf cymhleth neu sy'n eiddil

have a high level of frailty are admitted to hospital so that the care package can be thought about again. This is a damaging culture. People should be in acute settings only if an acute intervention is necessary. They should not be admitted to hospitals so that a more complicated care package can be designed. In fact, many interventions, even of an acute type, can be done in the hospital at home environment. It is bad for patients, particularly elderly patients, to go into hospital, as there is more chance that they will suffer great illness and lose their social contact, their confidence to live at home—their whole independence. Therefore, we need to try to get health professionals to realise that admitting people to hospital is not the safe option; they should be admitted to hospital if their needs can only be met there. Otherwise, it is the most risky option. We need a big change in culture.

I will finish by saying that, in the reorganisations that are planned—again, I am not making these comments in a partisan way—I hope that the Minister will consider the way in which the principles of coterminosity can be preserved as much as possible in the new health boards and the new way of delivering community and primary care. That is very important. Some clarity on how the local public service boards will operate would also be useful. If they are still at a local authority level, which is something that I would recommend, that will still be the best focus for co-ordinating the many strands that need to be delivered. With effective planning and a will, it can be done.

4.40 p.m.

**Trish Law:** I am delighted that the report of the independent review of delayed transfers of care acknowledges the plight of patients whose departure from hospital becomes delayed—innocent bedblockers, if you like. Too often, the emphasis is on the unfortunate people who are unable to undergo urgent medical treatment because there are no hospital beds available for them. The report points to a cost of almost £70 million to Welsh NHS trusts in 2006-07 and there is

iawn gael eu derbyn i ysbyty fel y bydd modd ystyried y pecyn gofal eto. Mae hyn yn arferiad niweidiol. Ni ddylai pobl fod mewn sefydliadau aciwt oni bai fod angen ymyriad aciwt. Ni ddylent gael eu derbyn i ysbytai fel y gellir cynllunio pecyn gofal mwy cymhleth. Mewn gwirionedd, gellir gwneud llawer o ymyriadau, hyd yn oed y mathau aciwt, mewn awyrgylch ysbyty yn y cartref. Nid yw'n fuddiol i gleifion, yn enwedig cleifion oedrannus, orfod mynd i ysbytai, gan fod mwy o siawns y byddant yn dioddef salwch mawr ac yn colli eu cysylltiad cymdeithasol, eu hyder i fyw yn eu cartrefi—a'u hannibyniaeth yn gyfan gwbl. Felly, mae angen inni geisio cael gan weithwyr proffesiynol ym maes iechyd sylweddoli nad y dewis diogel yw derbyn pobl i ysbyty; dylent gael eu derbyn i ysbyty os nad oes unman arall lle y gellir diwallu eu hanghenion. Fel arall, dyma'r dewis sydd â'r perygl mwyaf. Mae arnom angen newid mawr yn ein harferion.

Yr wyf am orffen drwy ddweud fy mod yn gobeithio y bydd y Gweinidog, yn y cynlluniau ad-drefnu—unwaith eto, nid wyf yn gwneud y sylwadau hyn mewn ffordd bleidiol—yn ystyried sut y gellir cadw hynny a ellir o egwyddorion cyd-ffinio yn y byrddau iechyd newydd a'r ffordd newydd o ddarparu gofal cymunedol a sylfaenol. Mae hynny'n bwysig iawn. Byddai rhywfaint o eglurder ynglŷn â sut y bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus lleol yn gweithio'n ddefnyddiol hefyd. Os byddant ar lefel awdurdod lleol o hyd, sy'n rhywbeth y byddwn yn ei argymhell, dyna'r ffocws gorau o hyd er mwyn cydgysylltu'r elfennau niferus y mae angen eu darparu. Drwy gynllunio effeithiol a'r ewyllys i lwyddo, gallwn wneud hyn.

**Trish Law:** Yr wyf yn falch iawn bod adroddiad yr adolygiad annibynnol o oedi wrth drosglwyddo gofal yn cydnabod sefyllfa cleifion sy'n wynebu oedi cyn gadael ysbyty—blocwyr gwelyau diniwed, os dymunwch. Yn rhy aml o'r hanner, rhoddir pwyslais ar y bobl anffodus sy'n methu â chael triniaeth feddygol frys gan nad oes gwelyau ar eu cyfer mewn ysbytai. Mae'r adroddiad yn cyfeirio at gost o bron £70 miliwn i ymddiriedolaethau GIG Cymru yn

nothing to suggest that that cost is reducing. However, there is little reference to the human cost to those people who, through no fault of their own, are occupying hospital beds when they are healthy and well enough to be discharged.

As a former carer, I can vouch for the agony that many of these people suffer as they wait days, weeks, and even months to be transferred to a more appropriate care setting. As the report points out, such delays expose patients to unnecessary dangers, prolong periods of uncertainty about the future, impose burdens on patients' families, and can reduce patients' long-term chances of recovering their independence and full health.

I recall an elderly lady who had spent some time in hospital and whose time in this world was rapidly running out. All that she wanted was the dignity to be able to die at home. Eventually, after several weeks of trying, she was discharged to her own home and died the following week. I felt bad enough about that but I would have felt much worse if she had died in hospital. I could relay other, similar stories.

I fully concur with the findings of the report that the NHS and its partners must do all that they can to preserve patients' wellbeing during any period of delay. The best way of achieving that is by reducing the delay itself. However, I share the concerns of the Welsh Assembly Government that many of the report's recommendations reflect work that is already under way, and that the report's conclusions do not provide a clear and specific approach to further reducing delayed transfers of care.

Finally, I express my concern about reports in newspapers last weekend of a looming care-home crisis due to underfunding. The reports suggest that the NHS, through local health boards, has increased nursing care fees by just 2.4 per cent, which is wholly inadequate to sustain and maintain the 12,000 nursing home places in Wales. The closure of homes would put an intolerable burden on the NHS and would almost certainly lead to many

2006-07 ac nid oes dim i awgrymu bod y gost honno'n lleihau. Fodd bynnag, nid oes fawr o sôn am y gost ddynol i'r bobl hynny sydd, er nad oes dim bai arnynt hwy, yn gorwedd mewn gwelyau mewn ysbytai a hwythau'n ddigon iach i gael eu rhyddhau.

Fel cyn ofalwr, gwn am yr artaith y mae llawer o'r bobl hyn yn ei ddioddef wrth aros am ddyddiau, wythnosau, a misoedd hyd yn oed cyn cael eu trosglwyddo i sefydliad gofal mwy priodol. Fel sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad, mae oedi o'r fath yn golygu bod cleifion yn agored i beryglon diangen, mae'n ymestyn cyfnodau o ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol, yn rhoi baich ar deuluoedd cleifion, a gall leihau siawns hirdymor cleifion o adfer eu hannibyniaeth a gwella'n llwyr.

Cofiaf am wraig oedrannus a oedd wedi bod mewn ysbyty am gyfnod, ac a oedd â'i dyddiau'n dirwyn i ben. Yr unig beth yr oedd arni ei eisiau oedd cael marw gydag urddas yn ei chartref. Yn y diwedd, ar ôl wythnosau lawer o erfyn, cafodd fynd adref a bu farw yr wythnos ganlynol. Yr oeddwn yn teimlo'n ddigon digalon ynglŷn â hynny, ond byddwn wedi teimlo'n waeth o lawer petai wedi marw yn yr ysbyty. Gallwn adrodd hanesion eraill tebyg.

Cytunaf yn llwyr â chanfyddiadau'r adroddiad bod yn rhaid i'r GIG a'i bartneriaid wneud popeth posibl er mwyn sicrhau lles cleifion yn ystod unrhyw gyfnod o oedi. Y ffordd orau o wneud hynny yw drwy leihau'r oedi ei hun. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu, fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, fod llawer o argymhellion yr adroddiad yn adlewyrchu gwaith sy'n cael ei wneud yn barod, ac nad yw casgliadau'r adroddiad yn cynnig dull clir a phenodol o sicrhau lleihad pellach mewn oedi wrth drosglwyddo gofal.

Yn olaf, yr wyf yn bryderus ynglŷn ag adroddiadau mewn papurau newydd y penwythnos diwethaf a oedd yn dweud y byddwn yn wynebu argyfwng cartrefi gofal o ganlyniad i dangyllido. Mae'r adroddiadau'n awgrymu bod y GIG, drwy fyrddau iechyd lleol, wedi cyflwyno cynnydd o 2.4 y cant yn unig mewn ffioedd gofal nyrsio, sy'n gwbl annigonol er mwyn cynnal a chadw y 12,000 o leoedd mewn cartrefi nyrsio sydd yng

more delayed transfers of care. If we are serious about tackling bedblocking, we have to adequately fund the remedies considered necessary to address the problem.

**Eleanor Burnham:** In my early career I also managed homecare and I share many of the sentiments expressed by Trish. As we see here, delayed transfers of care are often referred to as data rather than as people, which is one of the biggest issues. We are discussing real people and problems. The people are vulnerable and frail and, in many respects, so are their families in trying to decide what is best for them. I was fortunate that my mother cared for my father with the wonderful help of various organisations in Denbighshire, which were absolutely superb. My mother received care from Marie Curie Cancer Care in her last week. Again, the care that she received from the local authority of Denbighshire was absolutely superb.

It is interesting to note local differences. Having looked at the report, I see that the rate of spend in Denbighshire is the same as that in Cardiff, but that Denbighshire secures 107.2 places—how you can have 0.2 of a place defeats me; that is statistics—per 1,000 of the population aged 65 and over while Cardiff only secures 88.6 places. This is obviously a complex issue.

We have an astute Minister and she is aware of the complexities of what is happening. She has, quite rightly, gone out to consultation. Hopefully, these reviews will restructure some of our thinking as well as the statistics. Community care and facilities are probably the key to all of this. Patient and carer family reasons are the cause of almost half of the total number of delays, according to this latest report.

Nghymru. Byddai cau cartrefi'n rhoi baich annioddefol ar y GIG a byddai'n arwain bron yn sicr at lawer mwy o oedi wrth drosglwyddo gofal. Os ydym o ddifrif ynglŷn â mynd i'r afael â blocio gwelyau, rhaid inni ddarparu cyllid digonol ar gyfer yr atebion y bernir bod eu hangen er mwyn rhoi sylw i'r broblem.

**Eleanor Burnham:** Bûm innau'n rheoli gofal cartref yn gynnar yn fy ngyrfa ac yr wyf yn cytuno â llawer o'r sylwadau a wnaethpwyd gan Trish. Fel y gwelwn yma, cyfeirir at oedi wrth drosglwyddo gofal yn aml fel data yn hytrach na phobl, a dyma un o'r problemau mwyaf. Yr ydym yn trafod pobl a phroblemau go iawn. Mae'r bobl yn agored i niwed ac yn fregus, ac mae'r un peth yn wir, ar sawl cyfrif, am eu teuluoedd pan fyddant yn ceisio penderfynu beth sydd orau iddynt. Yr oeddw'n ffodus bod fy mam wedi gofalu am fy nhad gyda chymorth rhagorol sefydliadau amrywiol yn sir Ddinbych, a oedd yn wirioneddol wych. Cafodd fy mam bob gofal yn ystod ei hwythnos olaf gan Ofal Canser Marie Curie. Unwaith eto, yr oedd y gofal a gafodd gan awdurdod lleol sir Ddinbych yn wirioneddol wych.

Mae'n ddiddorol sylwi ar wahaniaethau lleol. Gwelaf, yn ôl yr adroddiad, fod cyfradd gwariant sir Ddinbych yr un fath â chyfradd gwariant Caerdydd, ond bod sir Ddinbych yn sicrhau 107.2 o leoedd—peidiwch â gofyn imi sut y mae modd cael 0.2 o le; ystadegau yw hynny—ar gyfer pob 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd, a Chaerdydd ar y llaw arall yn sicrhau dim ond 88.6 o leoedd. Mae hyn yn amlwg yn fater cymhleth.

Mae gennym Weinidog craff ac mae'n ymwybodol o gymhlethdod yr hyn sy'n digwydd. Yn gwbl briodol, mae wedi cyhoeddi ymgynghoriad. Bydd yr adolygiadau hyn, gobeithio, yn ailstrwythuro rhai o'n safbwyntiau yn ogystal â'r ystadegau. Mae'n debyg mai gofal a chyfleusterau yn y gymuned yw'r allwedd i hyn oll. Rhesymau teuluol cleifion a gofalwyr sy'n gyfrifol am bron hanner yr achosion o oedi, yn ôl yr adroddiad diweddaraf hwn.

People's lives are complex; many people find it very stressful to do their best in the most appropriate way for their families. Patients and their families are not always prepared to accept certain offerings, such as certain nursing homes for example. I remember going to look at homes for my mother-in-law, and, quite frankly, I would not have put a dog in some of the homes that I visited. Before anyone accuses me of being offensive, that was some time ago. I was so shocked, because I had not visited nursing homes until the necessity arose. I know that there are some wonderful homes and carers in north Wales, and I hope that we can get to the heart of this problem, because it is complex, as many Members have said. I am confident and hopeful that the Minister can sort out this issue. One thing that many care organisations are crying out for is money; unfortunately, the Government has to take on board the underestimate of the 39p per week increase in fees, which, frankly, will not get us anywhere.

I hope that the Minister will do her best because we cannot go on like this. Older people must be able to maintain their dignity. We shall be there ourselves soon—some of us sooner than others. I feel strongly about this, having experienced it in my family not long ago. It is imperative that we enable older people to keep their dignity. Guilt is one of the issues that many of us face. There are some wonderful people doing some wonderful things, so I am looking forward to the Minister's solving this complex scenario.

**Edwina Hart:** I concur with Eleanor's final remark that this is a complex area. That message has come across clearly from all speakers. There are no quick solutions to the problem of delayed transfers of care. If there were, I am sure that someone would have signed up to them already and would be marketing them very well indeed.

As Trish Law was saying, we are talking about the human cost, because we are talking about individuals, not statistics in the hospital or social services setting. We are talking about individuals who want to maintain some

Mae bywydau pobl yn gymhleth; i lawer o bobl mae gwneud y gorau i'w teuluoedd yn y ffordd fwyaf priodol yn achosi cryn straen. Nid yw cleifion a'u teuluoedd bob amser yn barod i dderbyn rhai pethau sy'n cael eu cynnig, megis rhai cartrefi nyrsio, er enghraifft. Cofiaf fynd i edrych ar gartrefi ar gyfer fy mam-yng-nghyfraith, ac, a bod yn gwbl onest, ni fyddwn wedi rhoi ci yn rhai o'r cartrefi yr ymwelais â nhw. Cyn i neb fy nghyhuddo o fod yn sarhaus, yr oedd hynny beth amser yn ôl. Yr oeddwn wedi fy mrawychu, oherwydd nid oeddwn wedi ymweld â chartrefi nyrsio nes i'r rheidrwydd godi. Gwn fod rhai cartrefi a gofalgwyr gwych yn y gogledd, a gobeithiaf y gallwn fynd at wraidd y broblem hon, oherwydd y mae'n gymhleth, fel y mae llawer o Aelodau wedi dweud. Yr wyf yn hyderus ac yn obeithiol y gall y Gweinidog ddatrys y mater hwn. Un peth y mae llawer o sefydliadau gofal yn galw'n daer amdano yw arian; yn anffodus, rhaid i'r Llywodraeth gydnabod ei bod wedi tanamcangyfrif drwy'r cynnydd o 39c yr wythnos mewn ffioedd, na fydd, a bod yn gwbl blaen, yn mynd â ni i unman.

Gobeithiaf y gwnaiff y Gweinidog ei gorau oherwydd ni allwn barhau fel hyn. Rhaid i bobl hŷn allu cadw eu hurddas. Byddwn yno ein hunain yn fuan—rhaid ohonom yn gynt nag eraill. Yr wyf yn teimlo'n gryf am hyn, a minnau wedi cael profiad ohono yn fy nheulu yn weddol ddiweddar. Mae'n rhaid inni alluogi pobl hŷn i gadw eu hurddas. Mae euogrwydd yn un o'r materion y mae llawer ohonom yn ei wynebu. Mae rhai pobl ragorol yn gwneud pethau rhagorol, felly edrychaf ymlaen at weld y Gweinidog yn datrys y sefyllfa gymhleth hon.

**Edwina Hart:** Cytunaf â sylw olaf Eleanor fod hwn yn faes cymhleth. Mae'r neges honno wedi cael ei chyfleu'n glir gan y siaradwyr i gyd. Nid oes atebion cyflym i broblem oedi wrth drosglwyddo gofal. Petai rhai, yr wyf yn siŵr y byddai rhywun wedi ymrwymo iddynt yn barod ac y byddem yn eu marchnata'n dda iawn.

Fel yr oedd Trish Law yn dweud, yr ydym yn siarad am y gost ddynol, oherwydd yr ydym yn siarad am unigolion, nid ystadegau yn yr ysbyty neu'r sefydliad gwasanaethau cymdeithasol. Yr ydym yn siarad am



dignity in their lives, who do not want to be stuck in a hospital and who want more appropriate care settings.

The Deputy Minister and I work closely together on this issue, which is a health and social care issue. As she was saying to me, we must guard against simply moving patients from one hospital setting to another if that is not best for the patient. That is the key. We must have arrangements for when people come out of acute care settings and back into the community. We must not shuffle them about and we need to look at some long-term solutions for the individuals concerned. There are excellent examples of intensive homecare provision at the point of discharge from hospital. We should encourage that where it is appropriate, if we can.

I was struck by David Melding's contribution on this matter, because it illustrated the difficulties around this issue. As he said, there is no room for party political point scoring. We might disagree about NHS structures, but we must get this right and deal with it in a sympathetic way.

Turning to the amendment, I am not rejecting it out of pique; I am only rejecting it because I wish to consider this report, the Audit Committee's report and the National Audit Office report, which Jenny asked me to go back and look at again, before I respond. That is the only reason why I will reject the amendment today.

**Jonathan Morgan:** I am grateful to the Minister for giving way. In the light of that, will you outline when you expect to come back to us with a plan to implement some of these recommendations or the recommendations of the Audit Committee? There is a sense of urgency with this and, although I accept what you say about needing to consider the report, the people of Wales expect to see some progress.

**Edwina Hart:** Obviously, as the Chair of the Audit Committee knows, I must respond to the committee's report after the purdah

unigolion sydd am gynnal rhyw urddas yn eu bywydau, nad ydynt am fod yn gaeth mewn ysbyty ac sydd am gael sefydliadau gofal mwy priodol.

Mae'r Dirprwy Weinidog a minnau'n cydweithio'n agos ar y mater hwn, sy'n fater iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y dywedodd hi wrthyf, rhaid inni warchod rhag dim ond symud cleifion o un ysbyty i un arall os nad hynny yw'r peth gorau i'r claf. Dyna'r allwedd. Rhaid inni fod â threfniadau ar gyfer yr adeg pan fydd pobl yn gadael sefydliadau gofal aciwt ac yn symud yn ôl i'r gymuned. Rhaid inni beidio â'u gwthio o un lle i'r llall ac mae angen inni edrych ar rai atebion hirdymor i'r unigolion dan sylw. Mae enghreifftiau rhagorol o ddarpariaeth gofal cartref dwys ar yr adeg y rhyddheir cleifion o'r ysbyty. Dylem annog hynny lle y mae'n briodol, os gallwn.

Gwnaeth cyfraniad David Melding ar y mater hwn argraff arnaf, oherwydd yr oedd yn dangos yr anawsterau ynglŷn â'r mater. Fel y dywedodd, nid oes lle i sgorio pwyntiau gwleidyddol pleidiol. Efallai ein bod yn anghytuno am strwythurau'r GIG, ond rhaid inni sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn iawn a delio ag ef mewn ffordd sensitif.

A throi at y gwelliant, nid am fy mod wedi pwdu yr wyf yn ei wrthod; yr unig reswm dros ei wrthod yw am fy mod yn dymuno ystyried yr adroddiad hwn, adroddiad y Pwyllgor Archwilio ac adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y gofynnodd Jenny imi fynd yn ôl ato ac edrych arno eto, cyn imi ymateb. Dyna'r unig reswm pam y gwrthodaf y gwelliant heddiw.

**Jonathan Morgan:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Yn wyneb hynny, a wnewch amlinellu pryd yr ydych yn disgwyl dod yn ôl atom gyda chynllun i weithredu rhai o'r argymhellion hyn neu argymhellion y Pwyllgor Archwilio? Mae ymdeimlad o frys ynghlwm wrth hyn ac, er fy mod yn derbyn yr hyn a ddywedwch ynglŷn â'r angen i ystyried yr adroddiad, mae pobl Cymru yn disgwyl gweld rhyw gynnydd.

**Edwina Hart:** Yn amlwg, fel y gŵyr Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, rhaid imi ymateb i adroddiad y pwyllgor ar ôl y cyfnod

period. I have indicated that I expect to be in a position to respond to it in the first week after *purdah*. I would be more than happy then to link in the strands of other available reports in order to produce an action plan for taking things forward that I would be happy to share with the Assembly. It is important that we get to grips with this and see what we can do in such a difficult area.

4.50 p.m.

It is clear from the report, looking at the profiles across different areas, that there is no one-size-fits-all solution in addressing delayed transfers of care. It is essential that data obtained from the monthly census are used at a local level as a key information tool to drive improvements in performance, and to support the effective commissioning of services. While the pace of reductions has eased over the two years, the review recognises that this national trend is significantly influenced by the worsening position of a limited number of areas in Wales, with others showing real improvements over the same period. The report considers local variability in some detail and recognises that the policy framework in Wales is generally clear, and that actions to address delayed transfers of care must be tackled locally. I believe that that picks up your point, Jenny, about the importance of the local level.

There are other key themes in the report that I want to look at, such as improving the care of chronic conditions in community settings. We have had the start of the delivering emergency care services strategy, which will also lead to issues in the report being addressed. Improving the effective use of community hospitals is also identified in the review as a key theme in improving the efficiency of secondary care services. My recently announced consultation on changing structures in the NHS has already identified a possible potential benefit in that area.

On today's contributions, like Helen Mary, I am interested in recommendations 5, 25, and

*purdah*. Yr wyf wedi nodi fy mod yn disgwyl gallu ymateb iddo yn yr wythnos gyntaf ar ôl *purdah*. Byddwn erbyn hynny yn hollol fodlon cydgysylltu'r elfennau mewn adroddiadau eraill sydd ar gael er mwyn llunio cynllun gweithredu i symud pethau ymlaen, y byddwn yn fodlon ei rannu â'r Cynulliad. Mae'n bwysig inni fynd i'r afael â hyn a gweld beth y gallwn ei wneud mewn maes mor anodd.

Mae'n glir o'r adroddiad, ac edrych ar y proffiliau ar draws gwahanol ardaloedd, nad oes un ateb sy'n gweddu i bawb wrth ymdrin ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae'n hanfodol bod data a geir o'r cyfrifiad misol yn cael eu defnyddio ar lefel leol fel arf gwybodaeth allweddol i ysgogi gwelliannau o ran perfformiad, ac i hybu comisiynu gwasanaethau'n effeithiol. Er bod cyflymder y gostyngiadau wedi arafu dros y ddwy flynedd, mae'r adolygiad yn cydnabod bod y gwaethygu o ran sefyllfa nifer gyfyngedig o ardaloedd yng Nghymru yn dylanwadu'n sylweddol ar y duedd genedlaethol hon, gydag eraill yn dangos gwelliannau gwirioneddol dros yr un cyfnod. Mae'r adroddiad yn ystyried y gwahaniaethau lleol yn bur fanwl ac yn cydnabod bod y fframwaith polisi yng Nghymru yn glir yn gyffredinol, a bod yn rhaid mynd i'r afael yn lleol â chymau i ymdrin ag oedi wrth drosglwyddo gofal. Credaf fod hynny'n cysylltu â'ch pwynt chi, Jenny, ynglŷn â phwysigrwydd y lefel leol.

Mae themâu allweddol eraill yn yr adroddiad yr wyf am edrych arnynt, megis gwella'r gofal i gyflyrau cronig mewn sefydliadau cymunedol. Mae'r strategaeth cyflenwi gwasanaethau gofal brys ar waith, a bydd hynny'n arwain hefyd at roi sylw i faterion yn yr adroddiad. Mae gwella'r defnydd effeithiol ar ysbytai cymuned hefyd yn cael ei nodi yn yr adolygiad fel thema allweddol er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau gofal eilaidd. Mae'r ymgynghoriad a gyhoeddais yn ddiweddar ar newid strwythurau yn y GIG eisoes wedi nodi budd posibl yn y maes hwnnw.

Ynglŷn â'r cyfraniadau heddiw, fel Helen Mary, mae gennyf ddi-ddordeb yn

31, and I will respond to those, particularly in the wider context. However, while we probably cannot concur with all the comments in this report, it is about how we will be able to take it forward in the general delivery of policy.

What has come across clearly from everyone's contribution today is that there is a willingness for us to be stronger in giving a lead on some of the issues around pooled budgets. Pooled budgets have been a choice, and Brian and I have done quite a lot of work in this area with pooled budgets in local government. However, you have to look at the reality of the situation and at where organisations are prepared to work with them.

You also have to look at what local service boards will add to this discussion, because they are relatively young in terms of their formation. I am not certain that some of them are sure which direction they are going in, and we will have to wait and see how they develop, in terms of how they can assist this particular agenda. However, I cannot wait for them to develop—I have to take this agenda forward, with my Deputy Minister, Gwenda Thomas, and start to see some sort of real improvement.

The issue for us in terms of improvement will be when the patient has what they want out of this system. It is not necessarily going to be about my numbers—what is looking good in a trust—but whether we are giving the best delivery in terms of patients' requirements. That will be the most difficult task.

I hope that, in the light of my assurances on the amendment, the opposition may consider withdrawing it. I would be pleased to take all the points that have been made in this extremely constructive debate forward.

**Jonathan Morgan:** On the basis of the assurances that the Minister gave in her address, we are happy to withdraw the amendment.

argymhellion 5, 25, a 31, ac ymatebaf i'r rheini, yn enwedig yn y cyd-destun ehangach. Fodd bynnag, er ei bod yn debygol na allwn gytuno â'r holl sylwadau yn yr adroddiad hwn, y cwestiwn yw sut y gallwn fwrw ymlaen â hyn wrth roi'r polisi ar waith yn gyffredinol.

Yr hyn sydd wedi cael ei gyfleu'n glir heddiw yw bod parodrydd inni fod yn gryfach wrth roi arweiniad ar rai o'r materion yn ymwneud â chyllidebau ar y cyd. Mae cyllidebau ar y cyd wedi bod yn ddewis, ac mae Brian a minnau wedi gwneud cryn lawer o waith yn y maes hwn gyda chyllidebau ar y cyd mewn llywodraeth leol. Fodd bynnag, rhaid ichi edrych ar realiti'r sefyllfa a lle y mae sefydliadau yn barod i weithio gyda hwy.

Rhaid ichi edrych hefyd ar yr hyn y bydd byrddau gwasanaethau lleol yn ei ychwanegu at y drafodaeth hon, oherwydd y maent yn gymharol ifanc o ran eu bodolaeth. Nid wyf yn sicr a yw rhai ohonynt yn siŵr i ba gyfeiriad y maent yn mynd, a bydd yn rhaid inni aros i weld sut y maent yn datblygu, o ran sut y gallant gynorthwyo'r agenda benodol hon. Fodd bynnag, ni allaf ddisgwyl iddynt hwy ddatblygu—rhaid imi fwrw ymlaen â'r agenda hon, gyda'm Dirprwy Weinidog, Gwenda Thomas, a dechrau gweld rhyw fath o welliant gwirioneddol.

Y cwestiwn i ni o safbwynt gwella fydd pan fydd y claf yn cael yr hyn y mae'n ei ddymuno gan y system hon. Nid â'm ffigurau i—yr hyn sy'n edrych yn dda mewn ymddiriedolaeth—y bydd a wnelo hynny o reidrwydd ond a ydym yn gwneud y gorau o ran gofynion cleifion. Dyna fydd y dasg anoddaf.

Gobeithiaf, yng ngoleuni'r sicrwydd yr wyf wedi'i roi ynglŷn â'r gwelliant, y gwnaiff yr wrthblaid ystyried ei dynnu'n ôl. Byddwn yn falch o ystyried yr holl bwyntiau a wnaethpwyd yn y ddadl hynod o adeiladol hon.

**Jonathan Morgan:** Ar sail y sicrwydd a roddodd y Gweinidog yn ei hanerchiad, yr ydym yn fodlon tynnu'r gwelliant yn ôl.

**The Deputy Presiding Officer:** Are Members happy for that amendment to be withdrawn? I see that you are.

**Y Dirprwy Lywydd:** A yw'r Aelodau'n fodlon i'r gwelliant gael ei dynnu'n ôl? Gwelaf eich bod.

*Tynnwyd gwelliant 1 yn ôl drwy ganiatâd y Cynulliad.  
Amendment 1 withdrawn by leave of the Assembly.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is therefore to agree the motion. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, the motion is carried in accordance with Standing Order No. 7.35.

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr hyn a gynigir felly yw cytuno â'r cynnig. A oes gwrthwynebiadau? Gwelaf nad oes. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

That brings today's business to a close.

Daw hynny â'r cyfarfod i ben.

*Daeth y cyfarfod i ben am 4.53 p.m.  
The meeting ended at 4.53 p.m.*

#### **Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)  
Asghar, Mohammad (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)  
Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)  
Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Chapman, Christine (Llafur – Labour)  
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)  
Davidson, Jane (Llafur – Labour)  
Davies, Alun (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew (Llafur – Labour)  
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Gregory, Janice (Llafur – Labour)  
Griffiths, John (Llafur – Labour)  
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)  
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)  
Hart, Edwina (Llafur – Labour)  
Hutt, Jane (Llafur – Labour)  
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
James, Irene (Llafur – Labour)  
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Ann (Llafur – Labour)  
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)  
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Law, Trish (Annibynnol – Independent)  
Lewis, Huw (Llafur – Labour)  
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Lloyd, Val (Llafur – Labour)  
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)  
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)  
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)  
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)  
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)  
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)  
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)  
Watson, Joyce (Llafur – Labour)  
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)  
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)  
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)